

3



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Thema 3: Croesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol Adnoddau 1–9



Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd

Cynulleidfa

Ysgolion cynradd, uwchradd ac arbennig yng Nghymru, lleoliadau meithrin ac unedau cyfeirio disgyblion.

Trosolwg

Dyma'r drydedd o bum thema yn *Wynebu'r her gyda'n gilydd: Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd i ysgolion Cymru* Llywodraeth Cymru. Pwrpas y pecyn cymorth yw darparu cefnogaeth ymarferol i ysgolion yng Nghymru i'w helpu i ddatblygu a chryfhau eu dull o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd.

Mae'r adnoddau o dan y thema hon yn canolbwyntio ar y pwysigrwydd o groesawu teuluoedd i ymgysylltu â'r ysgol ac o feithrin cydymddiriedaeth a pharch rhwng y ddwy ochr. Mae'r adnoddau'n cynnig cyngorion buddiol ar ffyrdd o gychwyn a chynnal cyfathrebu effeithiol y ddwy ffordd.

Camau i'w cymryd

I'w ddefnyddio wrth gynllunio ymyraethau i wella cyrhaeddiad dysgwyr sy'n byw mewn tlogdi.

Rhagor o wybodaeth

Dylid cyfeirio ymholiadau am y ddogfen hon at:

Cangen Lles Dysgwyr
Y Grŵp Addysg a Gwasanaethau Cyhoeddus
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 2082 3630

e-bost:

wellbeingshare@cymru.gsi.gov.uk

Mae'r ddogfen hon yn ogystal â chanllawiau perthnasol eraill ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn dysgu.llyw.cymru/amddifadedd

Dogfennau cysylltiedig

Ailysgrifennu'r dyfodol: Codi uchelgais a chyrhaeddiad yn ysgolion Cymru (2014)
www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/deprivation/rewriting-the-future-schools/?lang=cy

Ailysgrifennu'r Dyfodol 2015: Blwyddyn Ymlaen (2015)

www.gov.wales/docs/dcells/publications/150630-a-year-on-cy.pdf

Cynnwys

Adnodd 1: Ysgol groesawgar	4
Adnodd 2: Dod i adnabod eich teuluoedd	14
Adnodd 3: Cyrraedd yr holl deuluoedd	26
Adnodd 4: Trosglwyddo	43
Adnodd 5: Dulliau o gyfathrebu	56
Adnodd 6: Ailfeddwl am nosweithiau rhieni/gofalwyr	67
Adnodd 7: Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr	78
Adnodd 8: Costau addysg	89
Adnodd 9: Delio â gwrthdaro a chwynion	96

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 3: Adnodd 1 Ysgol groesawgar



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Strategaeth i groesawu teuluoedd.
- Creu argraff dda ar y dechrau a lleoedd i groesawu teuluoedd.
- Creu cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.
- Rhai syniadau am weithgareddau ysgol i groesawu teuluoedd.
- Diogelu plant.
- Rhestr wirio – Ysgol groesawgar.

“ Building home-school links through out of hours' clubs, parenting classes, extended schools and outreach work can lead to improvements in completion of homework, learning behaviours and improved attendance.”

Goodall a Vorhaus (2011)

Review of Best Practice in Parental Engagement Practitioners Summary, Yr Adran Addysg (Lloegr)

Strategaeth i groesawu teuluoedd

Drwy groesawu teuluoedd i'ch ysgol a'u hannog i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, gallwch gymryd y cam cyntaf pwysig i weithio gyda theuluoedd i'w helpu i gefnogi dysg eu plentyn. Bydd manteision eraill i'r ysgol hefyd o gael teuluoedd i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol yn gyffredinol, er enghraifft:

- gwirfoddoli
- cyfoethogi'r cwricwlwm
- ei gwneud yn haws delio â chwynion, a llai o achosion o ymddygiad difriol tuag at staff.

Mae pob rhiant/gofalwr am gael y gorau i'w blentyn ond, am bob math o resymau, gallai ddarganfod bod rhwystrau sy'n ei atal ar y pryd rhag ymgysylltu â'r ysgol. Y ffordd o chwalo rhai o'r rhwystrau hyn yw creu cyfleoedd i ymgysylltu lle gellir meithrin perthnasoedd drwy wrando ar rieni/gofalwyr mewn ffordd agored, fyfyrion ac empathig a darparu gwell cefnogaeth ar sail yr wybodaeth a gafwyd.

Mae llawer o achlysuron pan fydd staff ysgol yn gallu ymwneud yn uniongyrchol â rhieni/gofalwyr a dod i ddeall eu ffordd o fyw'n well. Ymhlith y rhain y mae nosweithiau ffurfiol i rieni/gofalwyr, sgysiau ffôn a chyfweliadau, yn ogystal â digwyddiadau anffurfiol i deuluoedd o dan nawdd yr ysgol fel ffeiriau haf, diwrnodau chwaraeon a sgysiau anffurfiol ar iard yr ysgol.

Wrth lunio strategaeth i feithrin perthnasoedd cydweithredol, dylech ei seilio ar yr egwyddorion canlynol.

1. Dechrau ar sail gwerthoedd diwylliannol y teuluoedd (yn hytrach na dechrau ar sail gwerthoedd diwylliannol yr ysgol).
2. Seilio'ch dull o weithredu ar ddealltwriaeth o'r rhwystrau posibl i ymgysylltu.
3. Rhoi pwyslais ar gyswllt personol â theuluoedd.

4. Meithrin y cyfathrebu â theuluoedd.
5. Creu amgylchedd croesawgar i rieni/gofalwyr.
6. Canolbwyntio'n ddiwyro ar y nod sylfaenol: helpu rhieni/gofalwyr i gefnogi dysg eu plentyn.

Mae'r adnodd **Ysgol groesawgar** hwn yn ymdrin â dwy agwedd:

- **creu argraff dda ar y dechrau a lleoedd i groesawu teuluoedd**
- **creu cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.**

Mae adnoddau eraill yn y pecyn cymorth hwn a allai'ch helpu i ddatblygu'ch strategaeth, ac mae'r rhain wedi'u nodi yn y testun isod.

Creu argraff dda ar y dechrau a lleoedd i groesawu teuluoedd

Mae cynllun mynedfa'r ysgol yn gallu denu rhieni/gofalwyr i'r adeilad ac, wedi iddyn nhw ddod i mewn, eu helpu i gael profiad cadarnhaol. Gall yr argraff gyntaf fod yn dyngedfennol o ran penderfynu a fydd y rhiant/gofalwr yn teimlo'n ddigon cyfforddus i ddychwelyd neu a fydd yn osgoi dod i'r ysgol os oes modd. Dyma rai syniadau.

- Sicrhau bod mynedfa'r ysgol yn groesawgar ac yn hawdd dod o hyd iddi.
- Gosod arwyddion i ddangos i newydd-ddyfodiaid sut i gyrraedd y swyddfa i lofnodi'r llyfr ymwelwyr a sut i ddod o hyd i ystafelloedd dosbarth penodol.
- Sicrhau bod y derbynnydd yn ymwybodol o'r rhan bwysig y mae'n ei chwarae mewn ymgysylltu â theuluoedd.
- Bod yn blaen – codwch arwydd ar ddiwrnod cyntaf yr ysgol ac arno'r geiriau "Croeso i'n teuluoedd newydd".
- Gosod hysbysiadau am gyfarfodydd a digwyddiadau'r grŵp rhieni/gofalwyr o gwmpas yr ysgol lle mae rhieni/gofalwyr yn fwyaf tebygol o'u gweld.
- Darparu lle cyfforddus yn y dderbynfa lle y gellid gosod murlun neu bosteri croeso sydd wedi'u datblygu gyda'r teuluoedd, o bosibl, yn yr holl ieithoedd sy'n cael eu siarad gan deuluoedd yr ysgol. Gweler yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn sy'n trafod ffyrdd cynhwysol o groesawu teuluoedd, yn enwedig rhai o grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli.
- Darparu lle yn yr ysgol yn rheolaidd lle y gall rhieni/gofalwyr gyfarfod, cymysgu, cael cwpanaid o de, ac ati.
- Os oes digon o le ac adnoddau, creu cyfleusterau i rieni/gofalwyr o fewn yr ysgol, gan gynnwys, er enghraifft, ystafell bwrpasol ar gyfer dosbarthiadau addysg oedolion (e.e. TG, Saesneg), cyfarfodydd llywodraethwyr neu weithgareddau cymunedol eraill, yn ystod oriau arferol yr ysgol ac ar adegau eraill. Os oes modd, dylid darparu cadeiriau o faint oedolion mewn ysgolion cynradd.

Mae'r Adran Addysg a Dysgu Plentynod Cynnar yn Llywodraeth Talaith Victoria wedi cyhoeddi dogfen *Welcoming Walk through the School* (Saesneg yn unig). Mae'n disgrifio ymarfer i'w gyflawni gan staff ysgol gydag aelodau o deuluoedd i gael gwell dealltwriaeth o'r ffordd y mae pobl eraill yn gweld yr ysgol a sut i'w gwneud yn fwy croesawgar. Mae ar gael ar-lein yn www.education.vic.gov.au/school/principals/management/Pages/familypartnerparticipating.aspx

Creu cyfleoedd i deuluoedd gymryd rhan ym mywyd yr ysgol

Er bod yr argraff gyntaf o'r ysgol yn bwysig, y prif ffactor sy'n penderfynu a yw teuluoedd yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu a'u cymell i gymryd rhan yw natur y cyswllt parhaus y maent yn ei gael â staff yr ysgol ac a yw'r ysgol yn cynnig dewis da o gyfleoedd iddynt gymryd rhan.

Y ffordd orau o groesawu teuluoedd, yn ôl pob tebyg, yw creu cyfleoedd i gysylltu'n bersonol. Y cam hawsaf i'w gymryd mewn lleoliadau cynradd a'r blynyddoedd cynnar yw sicrhau bod staff ar gael ac o fewn cyrraedd teuluoedd pan fyddant yn danfon ac yn nôl eu plant wrth gât yr ysgol. Mae'n bosibl y bydd ysgolion uwchradd yn gorfod dibynnu'n fwy ar gyfathrebu anuniongyrchol â theuluoedd – gweler yr adnodd **Dulliau o gyfathrebu** (Thema 3: Adnodd 5) yn y pecyn cymorth hwn.

Mae hefyd yn syniad da estyn allan at deuluoedd mor gynnar â phosibl yn y flwyddyn ysgol. Gadewch iddyn nhw wybod eu bod yn bartneriaid gwerthfawr yn addysg eu plentyn. Bydd rhai ysgolion yn trefnu diwrnodau 'cwrdd â'r teulu, cwrdd â'r athrawon' ar bwyntiau trosglwyddo, pan fydd oedolion yn gwisgo bathodynau enw sy'n dangos y dosbarth y maen nhw'n ei addysgu/y mae eu plant ynnddo. Mae ysgolion eraill wedi trefnu brecwastau 'bŵ hŵ' ar gyfer rhieni/gofalwyr plant sydd ar eu diwrnod cyntaf yn yr ysgol (gweler hefyd y deunydd yn yr adnodd **Trosglwyddo** (Thema 3: Adnodd 4) yn y pecyn cymorth hwn).

Mae'n bwysig bod yn ystyriol o wahaniaethau rhwng teuluoedd a diwylliannau, deall y rhwystrau i ymgysylltu o safbwynt y teuluoedd, a chynllunio'r gweithgareddau ymgysylltu a chefnogi gan ddal hynny mewn cof. Efallai y bydd y deunydd yn yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn o gymorth i chi. Cofiwch ei bod yn hanfodol derbyn y gwahaniaethau mewn teuluoedd er mwyn i bob plentyn a rhiant/gofalwr deimlo ei fod yn perthyn i deulu'r ysgol.

Mae dysgwyr yn chwarae eu rhan wrth annog eu rhieni/gofalwyr i ymwneud â'r ysgol (ac weithiau i beidio ag ymwneud â hi). Wedi iddyn nhw gael gwybod pa mor bwysig yw hi i'w rhieni/gofalwyr ymwneud â'r ysgol, byddan nhw'n aml yn gallu cynnig lluo o syniadau da ynghylch sut i wneud hynny. Mewn llawer achos, nhw sy'n gwybod orau beth fydd yn llwyddo gyda'u rhieni/gofalwyr a'u teuluoedd.

Yn fwy na dim, gofalwch fod eich gweithgareddau ymgysylltu'n rhai difyr. A oes cyfleoedd i gymryd rhan heb fod angen llawer o sgiliau neu hyder? Yn aml, drwy gynnig cyfleoedd i deuluoedd wirfoddoli neu gymryd rhan mewn gweithgareddau untro heb wneud ymrwymiad tymor hir, byddwch yn dod o hyd i amrywiaeth fawr o sgiliau (neu rwydweithiau o gysylltiadau) a bydd hyn yn helpu i sicrhau bod rhieni/gofalwyr/teuluoedd yn gallu cyfrannu ar y lefel sy'n dderbyniol iddynt.

Rhai syniadau am weithgareddau ysgol i groesawu teuluoedd

Byddwch chi am ymgynghori â'ch teuluoedd eich hun i gael syniad o'r mathau o weithgareddau sy'n addas iddynt. Fodd bynnag, dyma ychydig o syniadau i'ch rhoi ar ben ffordd. Gweler hefyd y syniadau am weithgareddau seiliedig ar ddysgu yn y tri adnodd **Ymgysylltu er mwyn dysgu** (Thema 4: Adnoddau 1, 2 a 3) yn y pecyn cymorth hwn (ar gyfer y Cyfnod Sylfaen ac ysgolion cynradd ac uwchradd) ac hefyd yr adnodd **Rhaglenni Dysgu fel Teulu** (Thema 4: Adnodd 5) yn y pecyn cymorth hwn.

Ystyriwch gynnal rhai o'r rhain mewn manau heblaw safle'r ysgol er mwyn denu'r rheini sydd heb fod yn barod i ddod i'r ysgol, am ba reswm bynnag.

- **Brecwast bŵ hŵ** – sesiwn i groesawu plant ar eu diwrnod cyntaf yn y dosbarth Derbyn, a brecwast wedyn ar gyfer rhieni/gofalwyr.
- **Ffeiriau gwybodaeth** – cyfle i roi gwybod i deuluoedd am yr holl fathau o gefnogaeth a gweithgareddau a fydd ar gael yn y tymor/blwyddyn academiaidd, gyda lluniaeth a gweithgareddau blasu. Gallwch wahodd teuluoedd i ymuno â rhaglenni dysgu fel teulu, neu gymryd rhan mewn cyfleoedd dysgu i oedolion yn y gymuned, neu'ch rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol.
- **Prosiect garddio/awyr agored** – os yw ystyriaethau iechyd a diogelwch a pholisïau rheoli'r safle'n caniatáu, gallech wahodd aelodau o deuluoedd i wirfoddoli i helpu yng ngardd yr ysgol neu mewn prosiect i adnewyddu offer chwarae'r ysgol.
- **Ailaddurno ystafelloedd dosbarth** – os yw ystyriaethau iechyd a diogelwch a pholisïau rheoli'r safle'n caniatáu, ceisiwch recriwtio gwirfoddolwyr i helpu dros y penwythnos i ailwampio ystafell ddosbarth. Gallech dargedu rhieni/gofalwyr sydd â sgiliau addas i'r prosiect ac sydd wedi bod yn anodd eu denu o'r blaen.
- **Noson gelf a chreffft i'r teulu** – noson o brosiectau creadigol sy'n defnyddio deunyddiau eildro i sbarduno'r dychymyg wrth weithio ar brosiect teuluol ar y cyd.
- **Noson o gemau teuluol o bob rhan o'r byd** – bydd y teuluoedd yn treulio'r noson yn chwarae gemau bwrdd poblogaidd. Mae'r chwaraewyr yn cael 'pasbort' ac yn teithio o orsaf i orsaf gan chwarae gemau o bob rhan o'r byd – dominos yn Tsieina, taplas yng Ngwlad Groeg, mancala yn Affrica, ac ati. Maen nhw'n cael stamp ar eu 'pasbort' wrth fynd ac yn dathlu dod yn ôl i Gymru.
- **Sesiwn partneriaid i rieni/gofalwyr** – rhowch wahoddiad i rieni/gofalwyr gael blas ar y cwricwlwm drwy ymuno â'u plentyn mewn dosbarth ar gyfer sesiwn partneriaid i rieni/gofalwyr i weithio ar hanes, gwyddoniaeth, ac ati.
- **Ffair haf** – ffair haf sy'n cael ei threfnu er mwyn ymgysylltu â theuluoedd yn hytrach na chodi arian; bydd yr oedolion yn gwisgo bathodynau enw sy'n dangos dosbarth eu plentyn a chynhelir gemau rhwng oedolion a phlant.
- **Noson daearyddiaeth** – gemau a gweithgareddau sy'n ymwneud â gwlad neu ranbarth penodol, e.e. creu map tirwedd, llunio llyfrau troi, cwis i ennill glôb neu atlas, gyda rhieni/gofalwyr o wahanol wledydd yn dod â bwyd/dillad/eitemau eraill i'w dangos.
- **Noson hobiau** – teuluoedd yn dangos eu hobi ac yn ymwneud â theuluoedd eraill.
- **Siapwch hi!** – noson o gemau egnïol a hwyl iach.
- **Arian sbarduno** – rhowch £1 i bob teulu yn yr ysgol a'u herio i gynyddu'r swm hwnnw mewn ychydig o wythnosau i godi arian i'r ysgol. Helpwch y teuluoedd i ddod at ei gilydd i gynnal prosiectau, e.e. i brynu bwced a sbwng er mwyn codi arian drwy olchi ceir, neu i brynu cynhwysion i wneud teisennau a'u gwerthu.
- **Clwb llyfrau/clwb darllen amlieithog** – sefydlwch glwb darllen i deuluoedd a phlant i'w gynnal yn rheolaidd yn y prynhawn. Caiff unrhyw blentyn gymryd rhan ar yr amod ei

fod wedi darllen y llyfr a'i fod yn dod ag oedolyn gydag ef sydd hefyd wedi'i ddarllen. Byddwch yn dweud wrth y plant a'r rhieni/gofalwyr na fydd y ffasiwn beth â gwaith cartref, adroddiadau ar lyfrau nac atebion anghywir yn y clwb. Bydd y trafod yn para cymaint â thri chwarter awr ar gyfer y plant hŷn. Bydd y plant iau'n trafod y llyfr am gyfnod byrrach ac yn cymryd rhan wedyn mewn gweithgareddau sy'n gysylltiedig â'r llyfr. Mewn clybiau darllen amlieithog bydd cyfieithwyr ar y pryd ar gael (wedi'u recriwtio o blith y rhieni/gofalwyr), ynghyd â phe cynnau stori dwyieithog i'w defnyddio gartref. Gellir cynnal clwb o'r fath yn rhywle heblaw'r ysgol, e.e. yn y llyfrgell leol, canolfan gymunedol, eglwys, ac ati.

- **Ocsiwn addewidion** – rhowch dasgau sydd wedi'u haddo gan blant (e.e. glanhau'r car, tacluso) neu weithgareddau am ddim sydd wedi'u cynnig gan yr ysgol (e.e. amser TG) ar ocsiwn o flaen cynulleidfa. Bydd aelodau o deuluoedd yn talu am yr eitemau, er enghraifft, drwg gynnig pum awr o ddarllen ar amser gwely.

Diogelu plant

Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn canllawiau ar ddiogelu plant ac yn cynnal asesiadau risg priodol wrth redeg gweithgareddau lle mae rhieni/gofalwyr yn gweithio gyda dysgwyr neu wrth agor yr ysgol i aelodau o'r gymuned.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru ar ddiogelu plant mewn ysgolion – *Cadw dysgwyr yn ddiogel* (2015) – ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy.

Mae *Canllaw Arfer Dda Estyn* ar ddiogelu plant ar gael yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/esbonio-arolygu/diogelu.

Y cysylltiad rhwng ymgysylltu â theuluoedd a gwella ysgolion

Wrth gymharu canlyniadau arolygon o'r 30 ysgol uchaf eu perfformiad a'r 30 ysgol isaf eu perfformiad yn Chicago, cafodd Payne a Kaba (1999) fod y **perthnasoedd** y mae ysgolion yn gallu eu meithrin y tu mewn a'r tu allan i'r ysgol yn dangos pa mor ymarferol yw **gwella'r ysgol yn llwyddiannus**. Yn yr ysgolion uchel eu perfformiad, roedd staff yr ysgol yn deall ac yn hyrwyddo'r cysyniad o feithrin perthnasoedd ar bob lefel: ymysg staff, rhwng staff a theuluoedd, a rhwng staff a'r gymuned. Yn yr ysgolion hyn, y perthnasoedd ymysg y grwpiau a oedd yn meithrin ac yn hyrwyddo gwelliant.

Yn yr ysgolion isel eu perfformiad, prin oedd y gwerthfawrogiad o berthnasoedd yn yr ysgol a rhwng yr ysgolion a'r teuluoedd a chymunedau o'u cwmpas. Roedd yn ymddangos bod y diffyg o ran perthnasoedd a chydymdrechu'n atal neu'n cyfyngu ar ymdrech ystyrllon neu bendant i wella. Daeth yr awduron i'r casgliad bod yr ymddiriedaeth gymdeithasol rhwng grwpiau ac unigolion yn troi'n gyfalaf cymdeithasol a bod hyn, yn ei dro, yn arwain at wella'r ysgol a chyflawniad myfyrwyr.

Payne, C. M. a Kaba, M. (1999) *So much reform, so little change: Building-level obstacles to urban school reform*

Cymuned yn cydweithio i helpu'r ysgol

Roedd rhieni/gofalwyr mewn ysgol gynradd wedi penderfynu tacluso'r maes chwarae yn ystod gwyliau'r haf. Roedd hyn yn cynnwys peintio'r marciau ar y maes chwarae, rhywfaint o beintio y tu mewn a thacluso'r ardd goed.

Rhoesant boster mewn siop leol yn gofyn am wirfoddolwyr, yn ogystal â rhoi nodyn i'r plant i fynd adref. Cyflawnwyd y gwaith dros nifer o benwythnosau ac roedd nifer mawr wedi helpu.

- Ymhlith y bobl a gymerodd ran, roedd llawer o rieni/gofalwyr a oedd heb amser i helpu'n rheolaidd neu yn ystod yr wythnos.
- Daeth rhai plant hŷn a oedd bellach yn yr ysgol uwchradd yno i helpu.
- Roedd pobl eraill nad oeddent yn rhieni/gofalwyr i blant yn yr ysgol wedi dod i helpu hefyd am eu bod yn awyddus i wneud hynny neu am eu bod yn ffrindiau ag un o'r rhieni/gofalwyr.
- Roedd rhai pobl wedi cymryd rhan y rhan fwyaf o'r diwrnodau.
- Roedd eraill wedi dod am ychydig o oriau ar un diwrnod.
- Roedd pobl yn cyflawni tasgau gwahanol.
- Roedd rhai pobl wedi cyfrannu bwyd fel bod pawb yn gallu rhannu brechdanau a bwyd a oedd wedi'i bobi gartref.
- Tynnwyd nifer mawr o luniau gan un person. Dangoswyd y cwbl y tu mewn i'r ysgol a rhoddwyd rhai o'r lluniau gorau a mwyaf doniol yn ffenestr y siop leol gydag arwydd mawr i ddiolch i bawb a gymerodd ran.

Rhestr wirio – Ysgol groesawgar

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd	Pwy fydd yn gweithredu? Pa adnoddau sydd eu hangen?	Sut y bydd yr effaith yn cael ei mesur?
<input type="checkbox"/> A yw'r ysgol yn groesawgar i rieni/gofalwyr o ran ei hymddangosiad? <input type="checkbox"/> A oes lle arbennig i rieni/gofalwyr yn yr ysgol, neu le cyfforddus yn y dderbynfa?			
<input type="checkbox"/> A yw'r croeso a roddir yn gynhwysol (e.e. yn croesawu'r teulu estynedig, yn y gwahanol ieithoedd a siaredir gartref, a mynediad rhwydd i'r rheini sydd ag anableddau)?			
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi gofyn i deuluoedd a dysgwyr am eu syniadau ynghylch cynnwys teuluoedd?			
<input type="checkbox"/> A yw'r systemau diogelwch yn cael yr effaith atfriadol o wneud yr ysgol yn llai croesawgar (e.e. gadael rhieni/gofalwyr yn sefyll y tu allan i ddrws wedi'i gloi am rai munudau)?			
<input type="checkbox"/> A yw staff ar gael ac yn hawdd mynd atynt pan fydd rhieni/gofalwyr yn danfon/nôl eu plant o'r ysgol? A yw staff yn cyfarch teuluoedd yn groesawgar?			
<input type="checkbox"/> A yw athrawon yn ymwneud â rhieni/gofalwyr mewn amrywiaeth o ffyrdd o ddydd i ddydd er mwyn meithrin perthynas gadarnhaol?			
<input type="checkbox"/> A ydych chi'n cynnig amrywiaeth o ffyrdd i deuluoedd a staff gwrdd a rhannu syniadau am ffyrdd i bobl gefnogi'r ysgol, a sut y gallai'r ysgol gefnogi'r gymuned?			
<input type="checkbox"/> A oes gweithgareddau difyr i bobl gymryd rhan ynddynt a dod i adnabod ei gilydd y tu allan i'r ysgol (e.e. barbeciw yn yr haf)? A yw pobl yn gallu cyrraedd y rhain a mynd adref wedyn ar gludiant cyhoeddus (e.e. gwirio/darparu amserlen bysiau)?			

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd	Pwy fydd yn gweithredu? Pa adnoddau sydd eu hangen?	Sut y bydd yr effaith yn cael ei mesur?
<p><input type="checkbox"/> A yw'r digwyddiadau cymdeithasol hyn yn gynhwysol? Heb fod yn rhy ddrud? A allech chi ddarparu mwy o gyfleoedd yn gynnar yn y bore ac yn yr hwyr i ddenu rhieni/gofalwyr sy'n gweithio'n amser llawn (e.e. brechwast i deuluoedd)?</p>			
<p><input type="checkbox"/> A allech chi ddenu mwy o deuluoedd drwy ddyblu neu hyd yn oed treblu'r rheswm i rieni/gofalwyr ddod i'r ysgol (e.e. noson goffi wedi'i chyfuno â noson rhieni/gofalwyr)?</p>			
<p><input type="checkbox"/> A ydych chi'n defnyddio system gyfeillio i ddenu rhieni/gofalwyr yn y gymuned sy'n awyddus i ddod i'r ysgol i gefnogi'r rheini sydd am ddod i mewn ond sydd heb fod yn ddigon hyderus neu gyfforddus i ddod ar eu pen eu hunain? (Gall hyn fod yn ffordd werthfawr o chwalo rhwystrau a hyrwyddo cynhwysiant.)</p>			
<p><input type="checkbox"/> A oes cyfleoedd i deuluoedd wirfoddoli i helpu mewn digwyddiadau untro heb wneud ymrwymiad tymor hir? A oes cyfleoedd i gymryd rhan nad ydynt yn galw am lawer o sgiliau neu hyder?</p>			
<p><input type="checkbox"/> A yw'r ysgol yn gwybod am unrhyw sgiliau penodol sydd gan rieni/gofalwyr ac a ydyn nhw'n cael eu hannog i rannu sgiliau a phrofiad yng nghyd-destun yr ysgol? (Efallai y bydd yr adnodd Dod i adnabod eich teuluoedd (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn o gymorth i chi.)</p>			

A ydych chi hefyd yn ystyried:

- sut i ddod i adnabod eich teuluoedd er mwyn deall yr hyn maen nhw'n gyfforddus gydag ef a'u hamgylchiadau (yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn)
- sut i gyfathrebu â theuluoedd, gan gynnwys y defnydd o dechnolegau newydd (yr adnodd **Dulliau o gyfathrebu** (Thema 3: Adnodd 5) yn y pecyn cymorth hwn)
- y ffordd orau o ddefnyddio nosweithiau rhieni/gofalwyr (yr adnodd **Ailfeddwl am nosweithiau rhieni/gofalwyr** (Thema 3: Adnodd 6) yn y pecyn cymorth hwn)
- ymdrechion penodol i groesawu teuluoedd estynedig a grwpiau penodol o deuluoedd (yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn)
- ymdrechion penodol ar y pwyntiau trosglwyddo (yr adnodd **Trosglwyddo** (Thema 3: Adnodd 4) yn y pecyn cymorth hwn)
- grymuso'r gymdeithas rhieni ac athrawon i helpu i ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd, ac i weithredu fel sianel y gall teuluoedd fynegi eu barn drwyddi (yr adnodd **Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr** (Thema 3: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn)
- sut i sicrhau na fydd costau ysgol yn cael yr effaith anfwriadol o atal rhai teuluoedd a dysgwyr rhag ymwneud â'r ysgol (yr adnodd **Costau addysg** (Thema 3: Adnodd 8) yn y pecyn cymorth hwn)

“ Simply being involved with the school has little effect on individual attainment unless there are direct and explicit connections to learning.”


Ho Sui-Chu a Willms (1996)

Effects of parental involvement on eighth-grade achievement, Sociology of Education

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd **Thema 3: Adnodd 2**

Dod i adnabod eich teuluoedd



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Pam dod i adnabod eich teuluoedd?
- Gwybodaeth y gallech fod am ei chasglu.
- Gair o gyngor/peidiwch ag anghofio ...
- Enghraifft o arolwg o rieni/gofalwyr wedi'i gynnal gan gymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr.
- Gweithgaredd gweithdy – Llunio poster sgiliau.
- Enghraifft o broffil dysgwr–teulu.

Pam dod i adnabod eich teuluoedd?

Mae pob teulu'n wahanol ac er mwyn datblygu strategaeth effeithiol ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd rhaid cael dealltwriaeth dda o anghenion ac amgylchiadau'ch teuluoedd. Os gallwch chi ddatblygu'r wybodaeth hon, bydd gennych chi fwy o allu i wneud y canlynol:

- deall sut y mae'r teulu'n cefnogi dysgu yn y cartref ar hyn o bryd a'u dyheadau am addysg eu plentyn
- dyfeisio strategaeth gyfathrebu wedi'i seilio ar yr hyn sydd orau gan y teuluoedd a gwybod pa aelodau o deuluoedd y mae angen i chi gyfathrebu â nhw (e.e. rhieni sydd wedi gwahanu, llystad neu lysfam, brodyr a chwiorydd hŷn, gofalwyr, neiniau a theidiau)
- nodi materion (drwy holi sensitif) a allai rwystro ymgysylltu a chefnogaeth gan deuluoedd i ddysg eu plentyn; gallai hyn gynnwys tloedi, anabledau, problemau iechyd, cyfrifoldebau gofalu, byw'n bell o'r ysgol, iaith y cartref, ysgariad, nain neu daid yn brif ofalwr, tad absennol, aelod o'r teulu yn y carchar, profedigaeth, lefelau isel o lythrennedd, rhieni/gofalwyr sy'n gweithio shifftiau nos, ac ati.
- nodi sgiliau a diddordebau, hobiau, rhwydweithiau, ac ati, sydd gan deuluoedd y gallen nhw eu cyfrannu i'r ysgol. Wedyn byddwch yn gallu gofyn yn uniongyrchol i rieni/gofalwyr a fyddan nhw'n gallu helpu (gan sicrhau eu bod yn gwybod y bydd eu help yn cael ei werthfawrogi). Gall hyn fod yn ffordd dda o dorri'r iâ a'u cymell i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, e.e. drwy ddod â chath a'i chathod bach i'r ysgol, helpu i symud dodrefn, helpu i beintio sied, dod i siarad am eich swydd â dosbarth o ddysgwyr, ac ati.
- cynllunio ymyraethau gwell i helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn, drwy ystyried eu gwahanol anghenion, dymuniadau a rhwystrau. Hyn fydd yn rhoi'r cyfle gorau i chi elwa drwy wella safonau.

“ Parental engagement interventions are more likely to be effective if they are informed by a comprehensive needs analysis and are targeted at particular groups of parents.”

Goodall a Vorhaus (2011)
Review of Best Practice in Parental Engagement Practitioners Summary,
Yr Adran Addysg (Lloegr).

Gwybodaeth y gallech fod am ei chasglu

Fel yr awgrymwyd yn y paragraffau blaenorol, gallai ysgolion benderfynu casglu gwybodaeth am amgylchiadau a materion teuluol sy'n gallu effeithio ar ddysg y plentyn, a hefyd am sgiliau a diddordebau teuluoedd, a'r hyn sydd orau ganddynt o ran cyfathrebu.

Mae'n bosibl hefyd y byddwch chi am roi blaenoriaeth i gasglu gwybodaeth am yr hyn y mae rhieni/gofalwyr eisoes yn ei wneud, heb eu cymell, i gefnogi dysg eu plentyn yn y cartref, am eu nodau ar gyfer addysg eu plentyn, ac am y math o gefnogaeth yr hoffent ei chael gan yr ysgol.

Byddwch chi am bennu ffordd o gofnodi a storio rhywfaint o'r wybodaeth werthfawr hon fel y gallwch chi ei throsglwyddo i athrawon a staff eraill wrth i'r plentyn symud i fyny drwy'r ysgol (neu ymlaen i ysgol newydd).

Mae templed enghreifftiol ar gyfer proffil dysgwr-teulu ar dudalen 24 y gallech ei ddilyn. Efallai y bydd yn well gennych chi addasu cronfa ddata sydd gennych yn barod. Pa dull bynnag o gasglu data y byddwch yn ei ddefnyddio, rhaid i chi wirio'ch bod yn dilyn y protocolau cyfreithiol presennol sy'n ymwneud â diogelu data.

Mae amrywiaeth o dechnegau y gall ysgolion eu defnyddio i gasglu'r wybodaeth hon, ac mae'r rhain wedi'u trafod isod. O blith y rhain, dim ond ymweliadau â'r cartref a chyfarfodydd un i un eraill a fyddai'n addas i gasglu gwybodaeth am faterion teuluol sensitif.

“ Rydyn ni wedi gweld mai'r ffordd orau o gael mwy o wybodaeth am ein teuluoedd yw siarad yn amlach â'r rhieni a gofalwyr, gan ffurfio perthynas sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau i'w plentyn a'r rhan y gallan nhw ei chwarae.”

Dirprwy bennaeth ysgol.

- **Arolwg o rieni/gofalwyr** – Er mai cyfarfodydd wyneb yn wyneb yw'r dechneg ddelfrydol ar gyfer casglu gwybodaeth, mae'r rhain yn cymryd amser. Mae ysgolion yn gwneud defnydd cynyddol o arolygon o rieni/gofalwyr (ar-lein ac ar bapur) i gasglu gwybodaeth. Mae enghraifft o holiadur ar dudalen 18, i'w ddefnyddio gan aelod o'r gymdeithas rhieni ac athrawon drwy fynd at rieni/gofalwyr tra byddan nhw yn yr ysgol ar gyfer nosweithiau rhieni/gofalwyr neu ddigwyddiadau ysgol eraill. Byddwch chi am addasu'r arolwg er mwyn cynnwys yr union gwestiynau yr ydych chi am eu gofyn. Cofiwch ystyried hefyd sut y byddwch yn trechu unrhyw rwystrau sy'n ymwneud â llythrennedd/iaith. Cofiwch na fydd pob un o'r teuluoedd yn ymateb i arolwg ysgrifenedig – bydd angen mabwysiadu dull gwahanol ar eu cyfer nhw.
- **Noson rhieni/gofalwyr neu drafod ag athrawon** – Gofalwch fod amser ar gael mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr i ddod i adnabod eich teuluoedd. Efallai y byddwch chi hefyd am ystyried gofyn i rieni/gofalwyr/teuluoedd lenwi'r proffil dysgwr-teulu (neu addasiad ohono) tra byddan nhw'n aros i gyfarfod â'r athro/athrawes.
- **Gweithdy rhieni/gofalwyr** – Ystyriwch ofyn i'r gymdeithas rhieni ac athrawon gynnal gweithdy. Mae enghraifft o weithdy o'r fath ar dudalen 22 yr adnodd hwn, ac mae un gwahanol yn yr adnodd **Ysgol groesawgar** (Thema 3: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn. Byddwch chi am ystyried sut i gael grŵp cynrychiadol o deuluoedd yn y cyfarfod – mae

rhai teuluoedd yn llawer mwy tebygol o ddod nag eraill ac, yn ôl pob tebyg, y rheini sy'n lleiaf tebygol o ddod fydd yn rhoi'r wybodaeth hanfodol i chi am ffyrdd gwell o ymgysylltu. Ystyriwch gynnal y gweithdy y tu allan i safle'r ysgol mewn man cyfarfod cymunedol – bydd hyn yn eich helpu i gyrraedd teuluoedd nad ydynt yn teimlo'n gyfforddus ynghylch dod i'r ysgol, am ba reswm bynnag.

- **Ymweld â'r cartref** – Mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ymweliadau â chartrefi gan swyddogion ymgysylltu â theuluoedd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol, yn hytrach na chan staff addysgu. Gall y rhain fod yn ffordd effeithiol iawn o ymgysylltu â theuluoedd nad ydynt yn hoffi dod i'r ysgol, am ba reswm bynnag. Mae ymweliadau â chartrefi'n cael eu trafod ymhellach yn yr adnodd **Trosoglwyddo** (Thema 3: Adnodd 4) yn y pecyn cymorth hwn.

Gair o gyngor/peidiwch ag anghofio ...

- Casglwch wybodaeth mewn ffordd ystyriol – ni fydd rhieni/gofalwyr yn hoffi cael eu holi'n uniongyrchol am rai pethau (e.e. tlodi) felly dylech bwysu a mesur beth i'w gynnwys.
- Cymerwch ofal i ddiogelu gwybodaeth a data personol.
- Defnyddiwch y broses casglu gwybodaeth fel gweithgaredd ymgysylltu – bydd yn gweithio orau os yw'n brofiad dymunol. Drwy'r broses hon gallwch chi gyfleu'r neges bod yr ysgol yn gweld gwerth mewn ymgysylltu â theuluoedd.
- Wedi i chi gasglu'r wybodaeth, defnyddiwch hi. Bydd yn cryfhau dull yr ysgol o ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd (YGaTh).
- Edrychwch i weld pwy sydd heb gael ei gynnwys yn eich cronfa ddata. Bydd yn fwy anodd cael gwybodaeth am rai teuluoedd nag eraill, a gallai hyn ddangos bod angen i chi fabwysiadu dull gwahanol o ymgysylltu â'r teuluoedd hyn.
- Trosoglwyddwch yr wybodaeth i'ch cydweithwyr pan fydd y dysgwr yn symud ymlaen i'w dosbarth, neu hyd yn oed pan fydd yn symud ymlaen i ysgol wahanol (gan ddilyn protocolau ar gyfer diogelu data, wrth gwrs) – byddan nhw hefyd yn falch o elwa o'r wybodaeth a'r ddealltwriaeth sydd gennych chi am deuluoedd eu dysgwyr.

Enghraifft o arolwg o rieni/gofalwyr wedi'i gynnal gan gymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr

Diben

Cynnal arolwg drwy sgysiaau un i un â rhieni/gofalwyr mewn noson rhieni/gofalwyr, digwyddiadau ysgol anffurfiol, wrth gât yr ysgol, neu mewn man arall er mwyn cael gwybod am:

- eu barn am weithgareddau y gallai'r ysgol eu cynnig i'w helpu i gefnogi dysg eu plentyn
- sgiliau a phrofiad sydd gan rieni/gofalwyr y gallent eu cynnig i'r ysgol
- yr amseroedd sy'n fwyaf addas i rieni/gofalwyr ar gyfer ymwneud â'r ysgol
- dewisiadau o ran cyfathrebu.

Pwy fydd yn cymryd rhan?

Aelodau'r gymdeithas rhieni ac athrawon, y pennaeth, aelodau o deuluoedd sy'n bresennol yn y noson rhieni/gofalwyr.

Cyrraedd yr holl deuluoedd

Mae'n werth ystyried gwahanol opsiynau i'ch helpu i ymestyn y tu hwnt i'r teuluoedd sydd eisoes yn ymwneud yn aml â'r ysgol. A allech chi ddefnyddio rhwydweithiau anffurfiol? A allech chi gynnal yr arolwg mewn digwyddiadau ysgol mwy anffurfiol?

Cyflwyniad

Helô. Tybed a allech chi roi ychydig funudau o'ch amser. Fy enw i yw ac rwy'n aelod o'r gymdeithas rhieni ac athrawon.

Un o'r pethau rydyn ni'n ei wneud fel cymdeithas rhieni ac athrawon yw helpu i greu cysylltiadau cryfach rhwng y cartref a'r ysgol er mwyn cefnogi'r holl blant sydd yn yr ysgol. Rydyn ni'n gwybod bod pawb yn brysur ond byddai'n help mawr i ni os gallech chi ateb ychydig o gwestiynau, am y ffordd y byddech chi'n hoffi i'r ysgol weithio gyda chi, ac am unrhyw sgiliau neu ddiddordebau sydd gennych chi ac y byddech chi'n barod i'w cyfrannu i'r ysgol.

Drwy ateb yr holiadur hwn, dydych chi ddim yn gwneud ymrwymiad o unrhyw fath a does dim rhaid i chi gymryd rhan ond byddai'n help mawr i ni wrth gynllunio gweithgareddau ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant yn y dyfodol. [Os bydd rhiant/gofalwr yn gwrthod, cynigiwch y ffurflen iddo i'w llenwi gartref a'i dychwelyd i'r ysgol os yw hynny'n well ganddo.]

Cwestiwn 1: Beth yw'ch enw chi ac ym mha ddsbarthiadau y mae'ch plant chi?

Enw'r rhiant/gofalwr	Plentyn(plant)/dosbarth(iadau)

Cwestiwn 2: Cefnogaeth y byddai'r ysgol yn gallu ei chynnig

A fyddai diddordeb gennych chi mewn dod i unrhyw un o'r digwyddiadau canlynol y byddai'r ysgol yn gallu eu cynnig?

- Beth y mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol? Egluro'r cwricwlwm.
- Cyngorion ar ddarllen – Sut i addysgu sgiliau darllen i'ch plentyn.
- Gweithdy ar gemau dysgu mathemateg i'r teulu.
- Ymarfer disgyblaeth gadarnhaol.
- Rhieni/gofalwyr yn hyfforddwyr i blant hapus iach.
- Byw drwy gyffro'r ardegau.
- Beth nesaf? Cyngor i'r teulu ar ddewisiadau ôl-16.

Cwestiwn 3: Sgiliau a diddordebau

A ydych chi'n meddwl bod gennych chi unrhyw ddiddordebau, profiadau neu sgiliau penodol a allai helpu'r ysgol mewn unrhyw ffordd? Neu a oes unrhyw sgiliau a diddordebau gan aelodau o'r teulu ehangach (e.e. neiniau a theidiau, brodyr a chwiorydd hŷn, partneriaid) y bydden nhw'n gallu eu rhannu â'r ysgol? Er enghraifft:

- pethau rydych chi'n eu gwneud gartref, e.e. coginio, DIY, gwnïo neu grefftau, garddio, peintio ac addurno
- sgiliau rydych chi'n eu defnyddio yn y gwaith, e.e. sgiliau TG, teipio, dylunio ar gyfer y we, arlwyo
- diddordebau neu hobiau, gweithgareddau chwaraeon, neu sgiliau celfyddydol a cherddorol y gallech chi eu rhannu.

Ymatebydd	Aelod arall o'r teulu (enw):
Sgiliau a diddordebau	Sgiliau a diddordebau

Cwestiwn 4: Amser

Rydyn ni'n gwybod bod rhieni/gofalwyr yn bobl brysur iawn ond hoffem ni ofyn i chi a allech chi roi unrhyw amser i gefnogi'r ysgol neu gefnogi gweithgareddau'r ysgol. Dydyn ni ddim yn gofyn i bobl ymrwymo i unrhyw beth pendant, dim ond am syniad o'r amseroedd sy'n fwyaf addas i bobl.

Pa amser a fyddai'n fwyaf addas i chi?

- Cyn oriau ysgol.
- Yn syth ar ôl ysgol.
- Yn ystod y diwrnod ysgol.
- Gyda'r hwyr [os felly, pa amser dechrau ac amser gorffen].
- Penwythnosau.

A oes unrhyw beth a fyddai'n eich helpu i ddod ar unrhyw adeg (e.e. cludiant, gofal plant, cyfieithu)?

Os oes gennych chi ddi-ddordeb mewn cymryd rhan, a fyddai'n well gennych chi wneud rhywbeth:

- yn achlysurol (unwaith y tymor efallai)?
- yn rheolaidd?

Faint o amser y byddech chi'n gallu ei gynnig? [Mae hyd yn oed deg munud yn gallu bod o gymorth.]

Cwestiwn 5: Dewisiadau o ran cyfathrebu

Mae'r ysgol yn anfon gwybodaeth ar gyfer rhieni a gofalwyr yn rheolaidd, bob diwrnod weithiau. Beth yw'r ffordd orau i ni gadw mewn cysylltiad â chi?

- Llythyr mewn bag ysgol.
- Llythyrau ar y wefan.
- E-bost.
- Neges testun i'ch ffôn symudol.
- Twitter.
- Wyneb yn wyneb pan fydda i'n nôl fy mhlentyn.

Mae'r ysgol hefyd yn cynnal nosweithiau i rieni/gofalwyr ddwywaith y flwyddyn. A oes gennych chi unrhyw awgrymiadau ynghylch ble a phryd i gynnal y rhain i'w gwneud yn haws i chi ddod yno?

Pwy arall yn eich teulu ehangach sydd angen cael yr wybodaeth hon/cael ei wahodd i'r nosweithiau rhieni/gofalwyr?

Perthynas:	Perthynas:	Perthynas:
Enw:	Enw:	Enw:
Cyswllt:	Cyswllt:	Cyswllt:

A oes unrhyw sylwadau neu awgrymiadau eraill yr hoffech chi eu gwneud ynghylch yr ysgol neu'r gymdeithas rhieni ac athrawon?

Diolch yn fawr i chi.

Dyma'r manylion ar gyfer cysylltu â'r ysgol a'r gymdeithas rhieni ac athrawon os byddwch chi am gysylltu â ni unrhyw bryd (darparwch gerdyn neu ddweud bod y manylion ar y wefan/hysbysfwrdd).

Un o'r pethau yr hoffen ni ei wneud yw rhannu'r wybodaeth rydych chi wedi'i rhoi i ni heddiw â'r ysgol i'n helpu i gynllunio gweithgareddau yn y dyfodol. A ydych chi'n fodlon i ni wneud hyn?

Ydw Nac ydw

Os ydych chi, a fydddech chi cystal â llofnodi'r ffurflen hon i ddangos eich bod yn fodlon i'r wybodaeth gael ei rhannu.

Llofnod: _____

Dyddiad: _____

Gweithgaredd gweithdy – Llunio poster sgiliau

Diben

Mae'r gweithgaredd hwn yn helpu i:

- adnabod y sgiliau, profiad a phriodoleddau y mae pobl yn eu cyfrannu i grŵp
- meithrin hyder mewn pobl i ddefnyddio'r sgiliau hynny
- hybu cydweithio fel tîm.

Pwy fydd yn cymryd rhan?

- Grŵp rhieni/gofalwyr/cymdeithas rhieni ac athrawon, athrawon.
- Rhieni/gofalwyr, o grŵp sydd wedi'i dargedu efallai (gweler yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn) neu yn sgil gwahoddiad cyffredinol.

Cam 1: Paratoi am yr ymarfer

Enwebwch arweinydd i'r grŵp a fydd yn arwain yr aelodau drwy'r ymarfer. Mae arweinydd y grŵp yn dangos poster (gweler yr enghraifft ar dudalen 23) ac yn disgrifio'r dasg, gan egluro beth y mae pob pennawd yn ei olygu.

Beth yw fy hunaniaeth? – cwestiwn sy'n gofyn 'Pwy ydw i?' yw hwn a gall gynnwys unrhyw beth y mae pobl yn teimlo ei fod yn bwysig amdanynt, e.e. beth yw eu swydd, a oes ganddyn nhw blant, a ydyn nhw'n dda am wrando, a ydyn nhw'n dda am ddatrys problemau?

Beth yw fy hobïau, fy niddordebau a fy hoff bethau? – lle i restru'r holl hobïau a diddordebau'r person, hyd y gellir.

Beth yw fy sgiliau, fy nhalentau a'm hadnoddau? – lle i restru holl bethau y mae'r person yn gallu eu gwneud, yn eu gwneud yn dda ac yn eu mwynhau. Rhestrwch hefyd yr holl bobl y mae'r person yn eu hadnabod a allai fod o gymorth, ynghyd ag unrhyw offer neu hadnoddau sydd ar gael iddo, e.e. mae'n gyrru car, mae ganddo oleuadau disgo, mae wedi cael hyfforddiant cymorth cyntaf, mae'n dda am wneud gwaith coed, neu mae'n adnabod nifer da o'r rhieni/gofalwyr eraill.

Beth hoffwn i ei gael? – anogwch aelodau'r grŵp i feddwl am beth yr hofffen nhw ei gael drwy ymwneud â'r ysgol, e.e. a ydyn nhw am gwrdd â phobl a chael hwyl, dysgu sut i gefnogi eu plant wrth iddynt ddysgu, dysgu sgiliau newydd (megis sgiliau TG) neu gymryd rhan mewn rhaglenni dysgu fel teulu, neu a ydyn nhw am wella eu sgiliau llythrennedd a rhifedd eu hunain?

Cam 2: Llunio'r poster (neilltuwch 30 munud i bob person lenwi ei boster)

- Trefnwch aelodau'r grŵp yn barau. Bydd o gymorth os gallan nhw weithio gyda rhywun y maen nhw'n dod ymlaen ag ef.
- Rhowch fersiwn wag o'r poster i bawb.

- Gofynnwch iddynt lenwi'r poster drwy ymateb i gwestiynau gan eu partner yn y grŵp os byddan nhw'n methu â meddwl am ateb. Gofynnwch gwestiynau penagored, e.e. 'Sut y byddech chi'n eich disgrifio'ch hun?'. Rhowch eu henw ar y poster.
- Gallwch ysgrifennu atebion neu dynnu llun ohonynt, e.e. llun o bot blodau neu raw i ddangos rhywun sy'n hoff o arddio neu lun o ben mynydd am gerddwr.

Cam 3: Rhannu ac arddangos y posteri

Wedi i bawb orffen ei waith, gosodwch y posteri ar y wal a gadael i bawb gerdded o gwmpas i weld beth y mae pobl eraill wedi'i roi. Mewn ffordd anffurfiol, bydd y grŵp yn cael cyfle i weld pa sgiliau neu gyfraniad y gall rhieni/gofalwyr eraill eu cynnig.

Cam 4: Defnyddio'r wybodaeth a'r adborth

Rhowch wybod i bawb sut y mae neu sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei defnyddio, a thynnwch sylw at fanteision cynnal prosiectau a gweithgareddau ar y cyd sydd wedi'u cyfoethogi drwy gyfraniadau rhieni/gofalwyr.



Enghraifft o broffil dysgwr–teulu

Enw'r dysgwr:	Blwyddyn:			
Tiwtor dosbarth:	Gweithiwr allweddol bugeiliol:			
Cymwys i gael prydau ysgol am ddim	Gofalwr ifanc	Plentyn sy'n derbyn gofal	Anghenion dysgu ychwanegol (ADY)	Dysgwr mwy galluog a thalentog
Manylion unrhyw anhwylderau meddygol:				
A oes gan y dysgwr frodyr neu chwiorydd yn yr ysgol?	Enw:	Blwyddyn:	Prif gyswilt yn yr ysgol:	Gweithiwr allweddol bugeiliol:

Gwybodaeth am y teulu

Enw/perthynas â'r plentyn	Dulliau cyfathrebu a ffefrir	Cyswilt mewn argyfwng	Y rheini sydd i gael adroddiadau cynnydd	Y rheini sydd i gael gwybodaeth ysgol
Prif ofalwr	Llythyr yn y bag ysgol/ffôn/yn bersonol/e-bost/heges testun/cyfringau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter)/llythyr drwy'r post			
Aelod arall o'r teulu	Drwy'r prif ofalwr/llythyr yn y bag ysgol/ffôn/yn bersonol/e-bost/heges testun/cyfringau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter)/llythyr drwy'r post			
Aelod arall o'r teulu	Drwy'r prif ofalwr/llythyr yn y bag ysgol/ffôn/yn bersonol/e-bost/heges testun/cyfringau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter)/llythyr drwy'r post			
Aelod arall o'r teulu	Drwy'r prif ofalwr/llythyr yn y bag ysgol/ffôn/yn bersonol/e-bost/heges testun/cyfringau cymdeithasol (e.e. Facebook, Twitter)/llythyr drwy'r post			

Rhieni/gofalwyr wedi gwahanu neu ysgaru?	Os ydynt, a yw'r ddau'n cael mynediad?		A oes angen anfon gwybodaeth ysgol at y rhieni/gofalwyr ar wahân?	
Cymhwyster i gael prydau ysgol am ddim Yn awr <input type="checkbox"/> O'r blaen <input type="checkbox"/>	Dangosydd Angen o ran Teuluoedd yn Gyntaf Uchel <input type="checkbox"/> Canolig <input type="checkbox"/> Isel <input type="checkbox"/>		Ei ystyried drwy weithiwr allweddol penodol yn unig? <input type="checkbox"/>	
Materion eraill i'w hystyried wrth weithio gyda'r teulu hwn	Noson rhieni/gofalwyr <input type="checkbox"/>	Cyngherddau <input type="checkbox"/>	Digwyddiadau chwaraeon/hamdden <input type="checkbox"/>	Ymweld â'r cartref <input type="checkbox"/>
	Mathau o gysylltu sydd wedi digwydd gyda'r teulu <input type="checkbox"/>	Gwasanaethau'r ysgol <input type="checkbox"/>	Cymdeithas rhieni ac athrawon/grŵp cyfeillion <input type="checkbox"/>	Gwirfoddoli yn yr ysgol <input type="checkbox"/>
Arall				

Aelod o'r teulu	Sgilliau a diddordebau	Sut y maent/sut y byddent yn gallu ymwneud â'r ysgol?

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 3: Adnodd 3 Cyrraedd yr holl deuluoedd



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.


- Cydraddoldeb, tegwch a phwysigrwydd cyrraedd yr holl deuluoedd.
- Pa grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli fel arfer?
- Deall rhwystrau i ymgysylltu.
- Beth y mae rhieni/gofalwyr am ei gael.
- Ugain o syniadau i greu mwy o 'gynwysoldeb'.
- Ugain o syniadau i ddelio ag anhawster wrth ymgysylltu.
- Rhestr wirio – Cwestiynau i ysgogi meddwl myfyriol.
- Mwy am deuluoedd y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim.
- Mwy am unig rieni/gofalwyr.
- Mwy am dadau a neiniau a theidiau.
- Mwy am ofalwyr plant sy'n derbyn gofal.
- Mwy am grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys Sipsiwn a Theithwyr.
- Mwy am deuluoedd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY).

Cydraddoldeb, tegwch a phwysigrwydd cyrraedd yr holl deuluoedd

Prin bod angen dweud ein bod ni am weld pob plentyn yn cael dechrau da mewn bywyd, a'n bod am i bob plentyn gael cyfle cyfartal. Gan fod cefnogaeth i ddysgu gan deuluoedd yn gallu cael effaith fawr ar ddeilliannau plant, mae'n hanfodol bod ysgolion yn ceisio cyrraedd yr holl deuluoedd er mwyn eu helpu i ddarparu cefnogaeth o'r fath.

Mae'r anghenion a'r rhwystrau i ymgysylltu'n amrywio rhwng teuluoedd, ac mae angen i bob teulu gael y lefel a'r math priodol o gefnogaeth er mwyn ymwneud â dysg eu plentyn. Nid yw'n ddigon trin pob teulu'n gyfartal (e.e. cynnig rhaglen dysgu fel teulu i bob teulu): bydd teuluoedd sydd eisoes yn ymwneud â dysgu'n ymateb, tra bydd y rheini sy'n ymwneud i raddau llai yn llai tebygol o ymateb.

Fel y mae'r llun ar y dde'n dangos, y nod y dylen ni anelu ato yw 'tegwch' – darparu gwahanol fathau a lefelau o gefnogaeth i wahanol deuluoedd fel bod yr holl blant, o ganlyniad, yn cael y cyfle gorau i dderbyn y gefnogaeth i ddysgu yn y cartref sydd ei hangen arnynt. Er mwyn gweithredu'n deg, rhaid i ysgolion ddeall y gwahanol anghenion a rhwystrau i ymgysylltu a geir mewn teuluoedd, ac addasu'r gefnogaeth y maen nhw'n ei darparu ar sail hynny.



Gallai'r ysgol greu rhwystrau i ymgysylltu'n anfwriadol i rai grwpiau o deuluoedd ac mae nifer o gamau cymharol hawdd y gall ysgolion eu cymryd i chwalu'r rhwystrau hyn – gweler **Ugain o syniadau i greu mwy o 'gynwysoldeb'** yn yr adnodd hwn (tudalen 31).

Bydd y rhan fwyaf o ysgolion wedi cael profiad o deuluoedd sydd i'w gweld (yng ngolwg yr ysgol o leiaf) yn gwrthod ymgysylltu ar bob cam, neu sydd hyd yn oed yn ymgysylltu mewn ffordd amhriodol neu ymosodol. Yn yr achosion hyn, mae'r ysgol yn wynebu mwy o her wrth geisio meithrin perthynas waith, ac eto dyma'r union deuluoedd y bydd yr ysgol yn gallu elwa fwyaf ar gydweithio â nhw. Gellir gwella presenoldeb a chyrhaeddiad, a gellir lleihau nifer y profiadau negyddol sy'n gallu cael effaith fawr ar staff, fel yr angen i ddelio ag ymddygiad difriol oddi wrth rieni/gofalwyr.

Ni ddylai'r un teulu gael ei ystyried y tu hwnt i gyrraedd – ond mae'n ddigon posibl y bydd angen ymwneud â nhw mewn ffordd wahanol i'w cymell i ddod i nosweithiau rhieni/gofalwyr a digwyddiadau ysgol ac i ymateb i negeseuon a gwahoddiadau oddi wrth yr ysgol. Hyd yn oed yn achos teuluoedd sy'n wynebu rhwystrau sylweddol ac sydd ag anghenion mwy cymhleth, mae nifer o bethau cymharol syml y gall ysgolion eu gwneud i agor y ffordd yn raddol i'w cynnwys a'u helpu i gefnogi dysg eu plentyn – gweler **Ugain o syniadau i ddelio ag anhawster wrth ymgysylltu** yn yr adnodd hwn (tudalen 33).

Pa grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli fel arfer?

Grwpiau sydd ar y cyfan yn ei chael yn fwy anodd ymgysylltu ag ysgolion yw:

- teuluoedd isel eu hincwm
- tadau
- neiniau a theidiau
- unig rieni/gofalwyr
- teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr
- gofalwyr i blant sy'n derbyn gofal
- rhieni/gofalwyr gwael eu hiechyd
- rhieni/gofalwyr i blant sydd â lefel presenoldeb wael neu sydd mewn perygl o gael eu gwahardd
- teuluoedd sydd â'r Saesneg yn laith Ychwanegol (SIY)
- gweithwyr amser llawn
- teuluoedd sy'n byw'n bell o'r ysgol.

Gall ysgolion ddod o hyd i ffyrdd o gynnwys y grwpiau hyn yn well drwy ddeall y rhwystrau i ymgysylltu y maen nhw'n eu hwynebu – mae rhai o'r rhwystrau cyffredinol wedi'u disgrifio isod, ac mae rhwystrau mwy penodol sy'n wynebu grwpiau neilltuol yn cael eu trafod yn yr adrannau ar ddiwedd yr adnodd hwn.

Deall rhwystrau i ymgysylltu

Dyma rai o'r rhwystrau i ymgysylltu sy'n wynebu teuluoedd.

- **Pwysau amser ar fywyd y teulu** – mae rhieni/gofalwyr yn bobl brysur. Gallen nhw fod mewn gwaith amser llawn neu ran-amser, yn magu plant ifanc ar eu pen eu hunain, neu fod â nifer o blant sydd mewn ysgolion neu feithrinfeydd gwahanol.

- **Amgylchiadau'r teulu** – ceir teuluoedd o bob math a maint ac mae ganddyn nhw wahanol anghenion. Gallai fod yn anodd iawn i rieni/gofalwyr ddod i gyfarfodydd os oes ganddynt blentyn sy'n anabl, babi neu gyfrifoldebau gofalu eraill neu os ydynt yn gweithio shifftiau neu'n gweithio oddi cartref, neu os yw strwythur eu teulu'n gymhleth a rhieni/gofalwyr wedi gwahanu; bydd partneriaid newydd gan rai ohonynt. Efallai nad yw rhieni/gofalwyr yn siarad Cymraeg neu Saesneg yn rhugl neu gallai eu lefelau llythrennedd fod yn isel.

Mae hefyd yn bosibl bod materion eraill ym mywydau'r rhieni/gofalwyr yn eu llethu ac nad oes ganddynt fawr o egni neu amser meddwl i'w rhoi at ddim byd arall, e.e. o ganlyniad i dlodi, problemau iechyd, pryder cyffredinol, iselder ôl-enedigol neu broblemau iechyd meddwl eraill neu, yn llai aml, camddefnydd o gyffuriau ac alcohol neu drais domestig.

Mae effaith tlodi ar fywyd teuluol yn berthnasol iawn gan ei fod wedi'i amcangyfrif bod 200,000 o blant yng Nghymru'n dod o deuluoedd sydd mewn tlodi.

- **Daeryddiaeth a rhwystrau ffisegol** – os yw rhieni/gofalwyr yn gorfod teithio'n bell i gyrraedd yr ysgol, gallai cludiant neu barcio beri anhawster iddynt neu efallai eu bod yn gorfod cerdded drwy leoedd anniogel. Os nad yw rhieni/gofalwyr yn byw gyda'r dysgwyr, mae'n bosibl eu bod yn byw'n eithaf pell i ffwrdd. Efallai fod y rheini sydd ag anabledau neu broblemau iechyd yn wynebu rhwystrau ffisegol.
- **Diffyg hyder** – gallai rhieni/gofalwyr deimlo'n anghyfforddus ar safle'r ysgol am nifer o resymau. Gallai ddwyn atgofion annymunol i gof am eu dyddiau ysgol eu hunain. Gallai rhai deimlo bod eu diffyg gwybodaeth neu sgiliau'n eu rhoi dan anfantaes. Efallai fod rhai rhieni/gofalwyr yn ei chael yn anodd darllen neu ysgrifennu eu hunain. Gallent ofni cael eu barnu gan rieni/gofalwyr eraill neu ymarferwyr proffesiynol. Gallent deimlo nad oes lle iddynt yn yr ysgol neu nad yw'r ysgol yn eu croesawu. Bydd rhai dynion yn teimlo'n chwithig ac yn credu nad oes ganddynt ran i'w chwarae am mai menywod yw'r rhan fwyaf o'r rheini sy'n dod i weithgareddau a gynhelir yn ystod y dydd.
- **Amheuaeth neu ddrwgdybiaeth** – gallai rhieni/gofalwyr gredu na fydd yr ysgol yn eu cymryd o ddifrif. Gallent ofni cael eu gweld yn rhai sydd ag 'angen help' neu'n 'rhiant/gofalwr gwael', neu efallai eu bod wedi cael profiadau negyddol o'r blaen wrth ymwneud ag ysgol eu plentyn neu eu hysgol eu hunain.
- **Dieithrwch** – efallai y bydd rhai teuluoedd yn teimlo'n chwithig oherwydd gwrthdaro rhwng diwylliant yr ysgol a diwylliant y cartref (yn enwedig os mai diwylliant dosbarth canol a geir yn bennaf yn yr ysgol). Bydd llawer o rieni/gofalwyr yn teimlo bod cymdeithasau rhieni ac athrawon yn 'gaeedig', yn 'glicaid', yn 'elitaid', yn 'ffurfiol' neu fel arall. Gall yr ysgol ei hun ymddangos yn rhy ddieithr ac nid yn 'rhywbeth i bobl fel ni' – efallai na fyddan nhw'n eu gweld eu hunain yn rhai addas i gymryd rhan. Gall canfyddiadau o'r fath fod yn rhwystr mawr wrth i ysgolion geisio eu cymell i ymwneud â dysg eu plentyn.

Gall ysgolion greu rhwystrau ychwanegol yn anfwriadol drwy:

- beidio â chynnig amrywiaeth o gyfleoedd i rieni/gofalwyr gymryd rhan
- peidio â chyfathrebu'n dda â rhieni/gofalwyr
- y gwahaniaeth rhwng agweddau gwahanol athrawon, a rhai'n llai croesawgar na'i gilydd, ac yn peidio â chymell rhieni/gofalwyr i gymryd mwy o ran
- peidio â darparu mynedfa/system fynediad groesawgar i'r ysgol.

Gellir cael rhwystrau ychwanegol mewn ysgolion uwchradd, er enghraifft:

- gan amlaf mae ysgolion uwchradd yn fwy ac yn bellach o'r cartref
- mae gan ddysgwyr fwy nag un athro/athrawes – mae'r ysgol yn peri mwy o ddryswch i'r rhieni/gofalwyr ac i'r myfyrwyr newydd
- mae rhieni/gofalwyr yn fwy tebygol o fod mewn gwaith amser llawn
- mae plant yn dechrau meithrin ymdeimlad o fod ar wahân i'w rhieni/gofalwyr.

Beth y mae rhieni/gofalwyr am ei gael

Mewn arolwg o rieni yn y DU yn 2010 cafwyd bod tua 40 y cant o rieni'n teimlo eu bod yn 'ymwneud llawer' â dysg eu plentyn. Byddai un rhan o dair o rieni'n hoffi cymryd mwy o ran ym mywyd ysgol eu plentyn yn y dyfodol, yn enwedig y rheini sy'n cymryd llai o ran ar hyn o bryd (yn benodol, rhieni sy'n byw ar wahân i'w plant, tadau a rhieni i blant sydd ag anghenion addysgol arbennig (AAA)).

Mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr, y ddau gwestiwn y mae rhieni/gofalwyr yn eu gofyn amlaf yw:

- Beth y mae fy mhlentyn yn ei ddysgu yn yr ysgol?
- Sut y gallaf i helpu gartref?

Mewn adroddiad gan Gyngor Addysgu Cyffredinol Lloegr¹ nodwyd bod rhieni am gael:

- gwybodaeth benodol am eu plentyn neu ddsbarth eu plentyn – beth y maen nhw'n ei wneud o fis i fis
- cyfleoedd i gyfathrebu'n amlach ac yn fwy anffurfiol – nid mewn nosweithiau rhieni'n unig – sy'n creu deialog rhyngddydd nhw a'r staff addysgu, i atal problemau rhag dwysáu, a rhoi cyfle i gyfnewid gwybodaeth o fath gwahanol.

Mae Estyn² wedi nodi, lle y ceir arferion da o ran cynllunio i gynnwys rhieni, fod ysgolion yn deall bod rhieni:

- yn hoffi cael eu cynnwys yn ysgol eu plentyn
- am i'r ysgol eu hadnabod yn bersonol fel unigolion a chael eu hysbysu am gynnydd eu plant
- angen gwybodaeth glir am faterion sy'n effeithio ar eu plant o ddydd i ddydd
- yn teimlo'n fwy hyderus os ydyn nhw'n adnabod y staff ac yn deall yn fras beth sydd yn y cwricwlwm
- yn barod i gefnogi digwyddiadau ysgol a chynnig help ymarferol ond eu bod yn llai tebygol o ymuno â phwyllgor
- yn dod yn fwy cefnogol po fwyaf y byddan nhw'n cyfrannu, yn enwedig os ydyn nhw wedi bod mewn digwyddiadau hyfforddi
- yn hoffi cael rheolau clir ar gyfer eu plant sy'n cael eu cymhwyso'n gyson.

¹ GTC (2010) *Research for Teachers: Deprivation and education*.

² Estyn (2009) *Arfer dda o ran cynnwys rhieni mewn ysgolion cynradd*.

Mewn gwaith ymchwil yn Awstralia³ cafwyd bod rhieni'n chwilio am y priodoleddau canlynol mewn ysgolion uwchradd:

- staff addysgu ymroddedig ac effeithiol ac amgylchedd gweithio diogel — dim bwlio, cyffuriau nac aflonyddu
- rhoi sylw unigol i fyfyrwyr; a'r staff yn sylwi ac yn cymryd camau os bydd problemau'n codi
- hyrwyddo gwerthoedd democrataidd a champau cadarnhaol i greu amgylchedd lle mae staff a myfyrwyr yn trin ei gilydd â pharch
- amgylchedd lle mae eu plentyn yn gallu meithrin cymwyseddau cymdeithasol — bod yr oedolyn ifanc wrth adael yr ysgol uwchradd yn gallu ei fynegi ei hun yn dda, gwneud a chadw ffrindiau, ac ymddwyn yn briodol mewn gwahanol sefyllfaoedd.

Bydd yn hanfodol wrth i chi geisio cyrraedd teuluoedd penodol eich bod **yn cael gwybod ganddyn nhw beth yw eu dymuniadau a'u hanghenion eu hunain**, fel y gallwch chi ystyried y rhain wrth gynllunio ffyrdd o geisio ymgysylltu â nhw fel partneriaid a'u hannog i gefnogi dysg eu plentyn.

Ugain o syniadau i greu mwy o 'gynwysoldeb'

Pwrpas y gweithgareddau hyn yw hybu'r 'broses ymuno' ar gyfer grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli (**Thema 3** yn y pecyn cymorth hwn). Gall ysgolion ddefnyddio hyn yn fan cychwyn ar gyfer datblygu ymgysylltu i gefnogi dysg plant (**Thema 4** yn y pecyn cymorth hwn).

1. **Anfon neges glir** – bod yr ysgol yn croesawu ac yn gwerthfawrogi ymdrechion gan deuluoedd i ymgysylltu.
2. **Dewis eich grwpiau targed ac olrhain cynnydd** – cael gwybod pa grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli – pa grwpiau o blith y rheini sydd wedi'u nodi yn yr adnodd hwn sy'n llai gweladwy yn eich ysgol/digwyddiadau ysgol, neu sydd yn llai tebygol o ymateb i dulliau cyfathrebu'r ysgol – wedyn dewis y grwpiau y byddwch chi'n canolbwyntio arnynt. Datblygu system i olrhain ac asesu'ch cynnydd.
3. **Sefyll yn eu hesgidiau nhw** – ymgynghori â'ch grŵp targed am ffyrdd o wneud i'ch safle ymddangos yn fwy croesawgar (e.e. i ddyinion a thadau) ac ynghylch sut y bydden nhw'n hoffi cael eu croesawu/eu gwahodd i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol. Cael gwybod am y rhwystrau y maen nhw'n eu hwynebu – gweler hefyd yr adnodd **Ysgol groesawgar** (Thema 3: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn.
4. **Cynllunio digwyddiadau a dulliau cyfathrebu'r ysgol ar sail anghenion, dymuniadau a dewisiadau teuluoedd** – gofyn i'ch grwpiau targed pa amseroedd a pha ffyrdd sydd orau ganddyn nhw ar gyfer ymgysylltu â'r ysgol ac, yn bwysicaf oll, y math o gefnogaeth yr hoffent ei chael gan yr ysgol i'w helpu i gefnogi dysg eu plentyn. Wedyn gallwch gynllunio mathau ac amseroedd y cyfleoedd ymgysylltu y byddwch yn eu cynnig a'ch dulliau cyfathrebu, er mwyn cydweddu â diddordebau ac anghenion eich grŵp targed – gweler yr adnoddau **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) a **Dulliau o gyfathrebu** (Thema 3: Adnodd 5) yn y pecyn cymorth hwn.
5. **Targedu gweithgareddau dysgu fel teulu ymhlith grwpiau sydd wedi'u tangynrychioli** – gweler y syniadau am weithgareddau dysgu yn **Thema 4** yn y pecyn cymorth hwn, ac addaswch y rhain yn benodol ar gyfer eich cynulleidfa arfaethedig.

³ www.goodschools.com.au/choosing-a-school/what-do-parents-want

6. **Gofynnwch!** – estyn gwahoddiad personol anffurfiol a chyfeillgar i gymryd rhan mewn gweithgaredd dysgu, neu ofyn iddyn nhw helpu drwy rannu eu diddordebau neu sgiliau (e.e. cerddoriaeth, chwaraeon, garddio, ac ati) â dosbarth neu mewn prosiect ysgol – gweler yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn. Fel arall, gallech chi wahodd teuluoedd sydd wedi’u targedu i sesiwn ysgol draeth/ysgol goedwig, a darparu cinio a chludeant am ddim.
7. **Gofyn am help gan y gymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr** – drwy eu rhwydweithiau anffurfiol, neu drwy geisio recriwtio aelodau newydd o blith grwpiau sydd wedi’u tangynrychioli.
8. **Gofyn i’r grŵp rhieni/gofalwyr ddatblygu system cyfeillio neu ‘dewch â ffrind’** – lle mae’r rheini sydd heb fod yn ddigon cyfforddus neu hyderus i ddod i’r ysgol ar eu pen eu hunain yn cael cwmni rhywun mwy hyderus. Gall hyn fod yn ffordd werthfawr o chwalo rhwystrau a hyrwyddo cynhwysiant.
9. **Gofyn am help gan grwpiau cymunedol** – gweithio gyda sefydliadau cymunedol i gymell grwpiau targed penodol i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol – gweler yr adnoddau **Datblygu partneriaethau cymunedol** (Thema 5: Adnodd 1) a **Gweithio amlasiantaethol** (Thema 5: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.
10. **Gweithio gyda Cymunedau yn Gyntaf** – os yw’ch ysgol mewn clwstwr Cymunedau yn Gyntaf, mae’n bosibl y gallwch chi ddatblygu prosiect ar y cyd i gynnwys eich grwpiau targed – gweler yr adnodd **Datblygu partneriaethau cymunedol** (Thema 5: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn.
11. **Cynnwys y teulu ehangach** – sicrhau bod tadau, neiniau a theidiau a gofalwyr eraill yn gwybod eu bod wedi’u cynnwys – weithiau cymerir bod ‘Annwyl rieni’ yn golygu ‘Annwyl famau’.
12. **Darparu tocynnau am ddim/gostwng prisiau** – sicrhau nad ydych yn codi rhwystr yn anfwriadol gan atal teuluoedd llai cefnog rhag cymryd rhan drwy godi gormod am docynnau ar gyfer gweithgareddau neu ddigwyddiadau cymdeithasol yr ysgol – gweler yr adnodd **Costau addysg** (Thema 3: Adnodd 8) yn y pecyn cymorth hwn.
13. **Syniadau am weithgareddau rhad yn yr haf** – cynnal digwyddiad i chwilio am ffyrdd rhad i deuluoedd ddod allan i gael hwyl (a dysgu!) yn ystod gwyliau’r haf; dyma un ffordd o gynllunio digwyddiadau cymdeithasol ar sail anghenion teuluoedd.
14. **Cyfieithu** – recriwtio aelodau o’r gymuned sy’n ddwyieithog i gynorthwyo rhieni/gofalwyr nad yw’r Gymraeg/Saesneg yn iaith gyntaf iddynt i gyfathrebu â’r ysgol.
15. **Clwb darllen amlieithog** – sefydlu clwb darllen sy’n cwrdd yn rheolaidd yn y prynhawn ar gyfer rhieni/gofalwyr a phlant lle bydd cyfieithwyr ar y pryd ar gael, gyda phecynnau stori dwyieithog i’w defnyddio yn y cartref.
16. **Gweithgaredd ‘Her tadau’ neu ‘Men behaving dadly’** – cynnwys tadau mewn gweithgaredd lle byddan nhw’n creu rhywbeth gyda’u plant (robot, go-cart neu animeiddio), rhedeg dosbarth coginio i dadau a phlant yn y cyfnod cyn Diwrnod y Mamau, neu gynnal noson chwaraeon i dadau a phlant sy’n dechrau gyda chwis.
17. **Ocsiwn addewidion** – rhoi tasgau sydd wedi’u haddo gan blant (e.e. glanhau’r car, tacluso) neu weithgareddau am ddim sydd wedi’u cynnig gan yr ysgol (e.e. amser TG)

ar ocsiwn o flaen cynulleidfa. Bydd aelodau o deuluoedd yn talu am yr eitemau, er enghraifft, drwg gynnog pum awr o ddarllen ar amser gwely.

18. **Gwahodd neiniau a theidiau** – i ddigwyddiad blynyddol i neiniau a theidiau (mae Diwrnod Neiniau a Theidiau bob mis Medi); eu cynnwys mewn gweithgaredd i lunio coeden deuluol; neu ofyn iddyn nhw helpu mewn prosiect hanes lleol drwy sôn am fywyd yn yr ardal pan oedden nhw'n ifanc.
19. **Dathlu diwylliant Sipsiwn a Theithwyr** – defnyddio adnoddau ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.gov.wales/resources/browse-all/travelling-together/?lang=cy i hyrwyddo'r broses o integreiddio diwylliant Sipsiwn a Theithwyr i'r cwricwlwm – cam cyntaf tuag at gymell teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i ymgysylltu â'r ysgol.
20. **Sesiynau arbenigol ar gyfer dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'u teuluoedd** – er enghraifft, sesiynau sy'n dangos sgiliau fel defnyddio iaith arwyddion mewn sesiwn coginio fel bod dysgwyr yn gallu dysgu sgiliau bywyd, a bod teuluoedd yn gweld sut y gallant eu helpu i ddefnyddio'r sgil hon gan ymarfer sgiliau cyfathrebu defnyddiol fel iaith arwyddion yr un pryd.

Ugain o syniadau i ddelio ag anhawster wrth ymgysylltu

Gallai'r syniadau isod fod yn ddefnyddiol wrth geisio ymgysylltu â rhai teuluoedd penodol.

1. **Gwybod pwy ydyn nhw ac asesu cynnydd** – sefydlu system i bennu'r teuluoedd yr ydych chi am eu targedu ac olrhain eich cynnydd. Bydd pob un o'r teuluoedd hyn yn unigryw ac, yn ôl pob tebyg, bydd angen addasu'ch dull o ymgysylltu ar eu cyfer.
2. **Eu hadnabod yn gynnar** – casglu gwybodaeth oddi wrth ysgolion (neu feithrinfeydd) sy'n bwydo'ch ysgol neu drwy weithio amlasiantaethol i'ch helpu i adnabod yn gynnar y teuluoedd y bydd angen addasu'ch dull o weithredu ar eu cyfer ac i fynd ati i'w croesawu a'u cynnwys mor gynnar â phosibl.
3. **Pennu gweithiwr allweddol** – darparu pwynt cyswllt sefydlog yn yr ysgol i'r teuluoedd a dargedir, a sicrhau bod y gweithiwr allweddol hwn, a fydd yn aml yn aelod o staff nad yw'n addysgu, yn glir ynghylch y rhesymau dros ymgysylltu â'r teulu, a bod sgiliau priodol ganddo (e.e. hwyluso teuluol) – gweler yr adnoddau **Rolau staff YGaTh** (Thema 2: Adnodd 2) a **Dadansoddiad o anghenion datblygu ar gyfer YGaTh** (Thema 2: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn.
4. **Cefnogi'r gweithiwr allweddol drwy oruchwylio** – un ai yn yr ysgol neu drwy rwydwaith, yn ffurfiol neu'n anffurfiol. Weithiau mae gwaith ymgysylltu gyda theuluoedd sy'n wynebu lluo o broblemau yn gallu bod yn anodd, yn flinedig ac yn ddiryngol. Drwy

“ The parent who will not engage is often the most difficult barrier to overcome. School staff work hard to foster positive parental involvement ... They may, however, also need to challenge a parent's conduct or behaviour if it is putting their child at risk. This fine balance is made even more difficult if they can no longer have a dialogue with the parent.”

Sara Rogers (2009)
Rheolwr Amddiffyn Plant mewn Addysg, Bwrdd Lleol
Diogelu Plant Swydd Gaergrawnt.

oruchwylio, gallwch helpu staff i fynegi eu teimladau'n ddiogel ac ystyried a oes angen newid eu dull o weithredu mewn achosion penodol – gweler yr adnodd **Rolau staff YGaTh** (Thema 2: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.

5. **Sefyll yn eu 'sgidiau nhw** – meddwl am y rhwystrau i ymgysylltu o safbwynt y rhiant/gofalwr – sut y mae'n teimlo pan fydd yr ysgol yn cysylltu? – wedyn ceisio meddwl am ffyrdd o chwalo rhai o'r rhwystrau hyn. Ceisiwch gael gwybod gan y teuluoedd hyn am y rhwystrau y maen nhw'n eu gweld. Mae'n bwysig eich bod yn parhau i weithredu mewn ffordd sensitif, anfeirniadol a charedig. Wedi'r cyfan, mae bron pob rhiant/gofalwr am gael y gorau i'w blentyn.
6. **Gwahoddiadau personol i weithgareddau dysgu fel teulu** – addasu digwyddiadau'n gynnil i gwrdd ag anghenion y teuluoedd yr ydych chi'n eu targedu, ac estyn gwahoddiad personol a chyfeillgar iddynt – ond sicrhau nad ydych chi'n gwneud hynny mewn ffordd sy'n eu labelu'n grŵp o rieni/gofalwyr 'gwael' – gweler **Thema 4** yn y pecyn cymorth hwn. Ystyriwch gynnal digwyddiadau o'r fath mewn manau cyfarfod y tu allan i'r ysgol.
7. **Recriwtio drwy gyfleu disgwyliad yn hytrach na thrwy wahodd** – disgwyl y bydd rhieni/gofalwyr am gydweithredu â chi er mwyn helpu eu plant i wneud cynnydd yn yr ysgol, a chyfleu'r disgwyliad hwnnw.
8. **Darparu lluniaeth** – mae te, coffi a bwyd yn gallu helpu pobl i ymlacio ac yn ffordd hawdd o dorri'r iâ. Dyma ffordd dda o ychwanegu at eich 'arlwy' i rieni/gofalwyr hefyd.
9. **Ymweld â chartrefi** – mae rhai ysgolion yn gwneud defnydd effeithiol iawn o ymweliadau â chartrefi'r teuluoedd a dargedir. Swyddogion ymgysylltu â theuluoedd sydd wedi'u hyfforddi'n briodol fydd yn cynnal yr ymweliadau a hynny'n bennaf ar bwyntiau trosglwyddo neu cyn y pwyntiau hynny (megis wrth dderbyn plant i'r ysgol gynradd neu uwchradd).
10. **Defnyddio dull cydweithredol** – bydd gweithwyr proffesiynol sy'n defnyddio'r dull cydweithredol yn cynnal deialog â'r cleient ynghylch natur y mater dan sylw (y rhwystr sy'n atal y rhiant/gofalwr rhag ymwneud â'r ysgol neu ymwneud â dysg ei blentyn), nod y rhiant/gofalwr o ran perthnasoedd, a'r opsiynau ar gyfer datrys y broblem.
11. **Cael gwybod a yw dysgwyr yn atal ymgysylltu ac ym mhle** – os ydyn nhw, gweithio gyda'r dysgwr a'r teulu i ddatrys hyn, efallai drwy ddefnyddio dull cydweithredol.
12. **Gweithio amlasiantaethol** – defnyddio dull Tîm o Amgylch y Teulu i ymgysylltu â theuluoedd a'u helpu os ydyn nhw'n wynebu problemau – gweler yr adnodd **Gweithio amlasiantaethol** (Thema 5: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.

“ Parents are not marginalised by lack of desire for their children to succeed. This is sometimes easily forgotten by frustrated teachers ... as they observe dysfunctional families making choices for themselves and their children that clearly diminish the child's chances of success.”

Verstappen, P. (2012)

Engaging Hard-to-reach Families: How English schools create effective home-school partnership

- 13. Cael eich gweld yn delio'n dda â chwynion** – pan fydd pethau'n mynd o chwith, mae'n bwysig bod trefniadau clir wedi'u gwneud fel bod modd i staff a rhieni/gofalwyr ddatrys problemau gyda'i gilydd, gyda chefnogaeth os bydd angen. Mae cyfryngu'n dechneg ddefnyddiol ar gyfer datrys gwrthdaro – gweler yr adnodd **Delio â gwrthdaro a chwynion** (Thema 3: Adnodd 9) yn y pecyn cymorth hwn.
- 14. Peidio â rhoi'r ffidil yn y to!** – bydd angen amser a dyfalbarhad i feithrin perthynas effeithiol â rhai teuluoedd. Daliwch ati i ofyn eu barn a'u gwahodd i ddigwyddiadau, hyd yn oed os byddan nhw'n gwrthod. Bydd angen amser i ddatblygu'r berthynas, er mwyn meithrin ymddiriedaeth a hunan-barch, a lleddfu ofnau a phryderon neu chwalu camsyniadau ynghylch ymgysylltu â'r ysgol.
- Efallai y byddwch chi hefyd am ystyried manteisio ar wasanaethau sy'n cael eu cynnig gan y trydydd sector neu'r sector preifat i'ch helpu i ymgysylltu â'r teuluoedd a dargedir. Maen nhw'n gallu cyfrannu arbenigedd ar YGaTh, a mantais ychwanegol yw bod rhywfaint o bellter rhyngddyn nhw a'r ysgol (a bod ganddyn nhw safle ar wahân yn y gymuned o bosibl). Mae'n bosibl bod eu gweithwyr allweddol yn gweithredu yn eich ardal eisoes.
- Mae Llywodraeth Cymru wedi llunio catalog o raglenni y gall ysgolion eu defnyddio (a thalu amdanynt drwy'r Grant Amddifadedd Disgyblion os yw'n briodol) – *Ymyraethau sydd wir yn gweithio: adnoddau gan y trydydd sector a'r sector preifat i ysgolion sy'n mynd i'r afael ag amddifadedd*, sydd wedi'i gyhoeddi yn www.dysgu.llyw.cymru/amddifadedd. Mae'r catalog hwn yn cynnwys y rhaglenni canlynol, ymysg eraill.
- 15. Llwyddiant i Bawb** – fframwaith gwella ysgol gyfan dwy flynedd i wella canlyniadau i ddysgwyr difreintiedig ac agored i niwed. Mae'n cynnwys gwaith ymgysylltu â theuluoedd.
- 16. Teuluoedd ac ysgolion gyda'i gilydd/Families and Schools Together (FAST)** – ymyrraeth gyflym wyth wythnos o hyd sy'n cael ei darparu gan Achub y Plant drwy weithio gyda theuluoedd plant tair i wyth oed. Rhaglen rianta yw hon yn bennaf ac mae'n cefnogi teuluoedd drwy gymell ymddygiad da ac agwedd gadarnhaol at yr ysgol a dysgu. Mae'n helpu rhieni/gofalwyr i gymryd mwy o ran yn addysg eu plentyn fel eu bod yn gallu cefnogi dysg a datblygiad yn y cartref. Bydd teuluoedd yn cymryd rhan mewn sesiynau wythnosol dwy awr a hanner o hyd sy'n cynnwys trafod, gemau, canu a gweithgareddau i grwpiau, ynghyd â phryd o fwyd i'r teulu. Ar ôl y sesiynau i grwpiau, cynhelir cyfarfodydd misol gan deuluoedd sydd eisoes wedi symud ymlaen o'r Rhaglen FAST.
- 17. Family Learning Signature** – pecyn i gymell teuluoedd i feddwl am ddysgu a sut y byddan nhw, fel teulu, yn gallu rhoi mwy o gefnogaeth i ddysgu yn y cartref. Mae'r broses yn ysgogi'r teulu i ymwneud â dysg eu plentyn, ac yn cryfhau'r berthynas rhwng y teulu a'r ysgol.
- 18. Cryfhau Teuluoedd, Cryfhau Cymunedau** – rhaglen rianta 13 wythnos o hyd i'w defnyddio yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac mewn ysgolion cynradd ac uwchradd. Mae wedi'i defnyddio gyda theuluoedd o nifer o gefndiroedd gwahanol gan gynnwys rhai mewn cymunedau ar y cyrion, a'r rheini sydd â phroblemau sy'n ymwneud â chyffuriau, alcohol neu drais. Ei nod yw hyrwyddo ffactorau gwarchodol sy'n gysylltiedig â rhianta da a chanlyniadau gwell i blant.
- 19. Grwpiau Anogaeth** – darpariaeth arbenigol yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd ac uwchradd ar gyfer dysgwyr sydd ag anawsterau cymdeithasol, emosiynol ac ymddygiadol. Mae hefyd yn helpu i godi pontydd gyda theuluoedd a'u cynnwys yn nysg eu plentyn.

20. Prosiectau pwrpasol – efallai y byddwch chi hefyd am ystyried comisiynu prosiect pwrpasol gan sefydliadau yn y trydydd sector.

- Mae **Barnardo’s** yn cynnig amrywiaeth o ymyraethau yn yr ysgol, gan gynnwys gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwasanaethau arbenigol i blant yn y blynyddoedd cynnar sy’n cael eu maethu neu sydd wedi’u mabwysiadu, plant i droseddwyr, gofalwyr ifanc ac eraill.
- Mae **CaST Cymru** yn cynnig rhaglenni parod a phwrpasol ar gyfer YGaTh.
- Mae **Cyngor Cymreig y Gwasanaethau Ieuentid Gwirfoddol** yn nodi ac yn hwyluso partneriaethau ar gyfer gwasanaethau ieuentid.

Mae gwybodaeth i ysgolion sy’n ystyried prynu gwasanaethau o’r trydydd sector neu’r sector preifat i’w helpu i fynd i’r afael ag effeithiau amddifadedd ar gyrhaeddiad addysgol ar gael yn dysgu.llyw.cymru

Rhestr wirio – Cwestiynau i ysgogi meddwl myfyriol

Bod yn fwy cynhwysol

Cwestiynau i ysgogi meddwl myfyriol	Camau i’w cymryd
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi pennu’r grwpiau (e.e. tadau, neiniau a theidiau, teuluoedd sydd â’r Saesneg yn Iaith Ychwanegol (SIY)) sydd wedi’u cynnwys i raddau llai ar hyn o bryd, ac wedi dewis pa rai i’w targedu?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi ystyried yn drwyadl beth yw’r rhwystrau a allai’ch atal rhag ymgysylltu â’r grwpiau a dargedir, ac wedi cynllunio rhai camau i’w cymryd i’ch helpu i chwalu’r rhwystrau hyn?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi ystyried y rhwystrau a allai gael eu hachosi gan gostau ysgol? (Gweler yr adnodd Costau addysg (Thema 3: Adnodd 8) yn y pecyn cymorth hwn.)	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi sefydlu system i olrhain cynnydd ar ymgysylltu â’r grwpiau a dargedir?	
<input type="checkbox"/> A oes modd i chi ofyn i’r grwpiau a dargedir beth a allai’i gwneud yn haws iddyn nhw gael eu cynnwys/croesawu yn yr ysgol?	
<input type="checkbox"/> A oes modd i chi ofyn i ddysgwyr am eu syniadau a’u help er mwyn cynnwys teuluoedd? Bydd syniadau da ganddynt yn ôl pob tebyg.	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi recriwtio’r gymdeithas rhieni ac athrawon/grŵp rhieni/gofalwyr i’ch helpu yn eich ymdrechion i ymgysylltu â’r grwpiau a dargedir?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi trefnu rhai gweithgareddau ymgysylltu yn benodol ar gyfer y grwpiau a dargedir? A yw’r rhain yn cynnwys gweithgareddau ymgysylltu ar gyfer dysgu?	

Cwestiynau i ysgogi meddwl myfyriol	Camau i'w cymryd
<input type="checkbox"/> A oes unrhyw sefydliadau cymunedol lleol a allai'ch helpu i ymgysylltu â'r grwpiau a dargedir? Ac a oes modd i'r grŵp rhieni/gofalwyr eich helpu i weithio gyda'r rhain?	

Os ydych chi'n ei chael yn anodd cyrraedd rhai teuluoedd

Cwestiynau i ysgogi meddwl myfyriol	Camau i'w cymryd
<input type="checkbox"/> A ydych chi'n gwybod pwy yw'r teuluoedd a dargedir ac a ydych chi'n olrhain eich cynnydd ar ymgysylltu â nhw?	
<input type="checkbox"/> A oes gennych chi weithiwr allweddol penodol ar gyfer y teuluoedd hyn a fydd yn bwynt cyswllt sefydlog i'r teuluoedd yn yr ysgol? A oes gan y person hwn sgiliau priodol ar gyfer hwyluso teuluol? A yw'n cael cefnogaeth addas drwy oruchwylio?	
<input type="checkbox"/> A fyddech chi'n dweud mai 'peidio byth â rhoi'r ffidil yn y to' yw'ch agwedd at ymgysylltu â'r teuluoedd hyn?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi rhoi cynnig ar ddefnyddio ymweliadau â'r cartref?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi ystyried gweithio mewn partneriaeth â'r trydydd sector ar ymdrechion i ymgysylltu â'r teuluoedd a dargedir?	
<input type="checkbox"/> A fyddai gweithio amlasiantaethol (e.e. gyda phartneriaid mewn Tîm o Amgylch y Teulu) yn gallu'ch helpu i ymgysylltu â'r teuluoedd hyn?	

Mwy am deuluoedd y dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim

Mewn llawer achos mae rhieni/gofalwyr sy'n byw mewn tlodi'n wynebu anawsterau a phwysau neilltuol. Heblaw'r straen ariannol sylweddol, maen nhw hefyd yn fwy tebygol ar gyfartaledd o brofi problemau mewn perthnasoedd, amodau byw gwael, ac iechyd corfforol a meddyliol gwaeth.

Credir bod mwy na 200,000 o blant yng Nghymru'n byw mewn tlodi. Llai na hanner y rhain sydd wedi'u cofnodi yn y ffigurau am rai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, er bod y dysgwyr hyn sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi difrifol.

Mae tlodi, a'r straen, yr iechyd gwael a'r amodau byw gwael sy'n gysylltiedig ag ef, yn effeithio ar ymddygiadau rhianta ac yn ei gwneud yn anodd i rieni/gofalwyr ddarparu'r amodau priodol, y cyfleoedd a'r adborth cadarnhaol sydd eu hangen i gefnogi ac annog plant i ddysgu. Yn benodol, mae mamau sy'n agored i galedi economaidd cyson yn fwy tebygol o brofi straen parhaus ac mae hyn, yn ei dro, yn gysylltiedig â rhyngweithio llai agos rhwng y rhiant/gofalwr a'r plentyn a llai o ysgogi gwybyddol i'w plant.

Yn ogystal â hyn, mae rhieni/gofalwyr sy'n byw mewn tlodi'n fwy tebygol o fod â lefelau isel o lythrennedd eu hunain, ac yn fwy tebygol o fod wedi cael profiad negyddol yn ystod eu hamser yn yr ysgol, ac mae hyn yn creu rhwystrau ychwanegol rhag ymwneud â bywyd ysgol.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael am y ffordd orau o ymgysylltu â theuluoedd sy'n byw mewn tlodi gan Achub y Plant yn www.savethechildren.org.uk/resources/online-library/hopes-and-expectations-how-families-living-severe-poverty-engage-anti), gan Barnardo's (e.e. Reaching Families in Need) yn www.barnardos.org.uk/what_we_do/policy_research_unit/research_and_publications.htm) ac eraill (e.e. Uned y Strategaeth Plant a Phobl Ifanc yng Nghyngor Dinas a Sir Abertawe: *'Making ends meet' Engaging children, young people and families in tackling poverty*).

Mwy am unig rieni/gofalwyr

Mae arolygon wedi dangos bod unig rieni/gofalwyr yn llai tebygol o deimlo eu bod yn ymwneud llawer ag addysg eu plant, a'u bod yn llai tebygol o ddweud eu bod yn teimlo'n hyderus iawn wrth siarad ag athrawon yn ysgol eu plentyn.

Mae unig rieni/gofalwyr yn fwy tebygol o gael eu cau allan o weithgareddau ymgysylltu oherwydd pwysau amser neu ystyriaethau ymarferol fel gofal plant – gellid eu helpu drwy ddarparu cyfleusterau crèche.

Yn ogystal â hyn, mae unig rieni/gofalwyr yn fwy tebygol o fyw mewn tlodi. Mae ymchwilyr o Brifysgol Loughborough wedi cyfrifo bod 71 y cant o unig rieni'n byw ar incwm annigonol.

Mwy am dadau a neiniau a theidiau

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion yn ei chael yn fwy anodd cysylltu â thadau na mamau. Ceir:

- tadau sy'n gweithio nad ydynt yn danfon/nôl eu plant o'r ysgol
- tadau absennol nad ydynt yn gweld eu plant yn rheolaidd, neu dadau wedi'u gwahanu sydd ond yn gweld eu plant ar benwythnosau

- tadau sydd hyd yma wedi gweld ymgysylltu â'r ysgol yn gyfrifoldeb i'r fam neu'n ystyried bod lleoliadau ysgol yn 'fenywaidd iawn' neu fod darllen ac ysgrifennu yn 'rhywbeth i ferched'.

Bydd ysgolion am ystyried sut i drechu rhai o'r rhwystrau hyn, gan fod:

- tadau'n chwarae rhan hanfodol o ran sicrhau deilliannau dysgu cadarnhaol i'w plant. Mae ymchwil wedi dangos eu bod yn cael effaith ystadegol arwyddocaol yn ystod yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd, yn achos eu merched yn ogystal â'u meibion. Mae tystiolaeth bod plant yn elwa fwyaf o gael 'dos ddwbl' o ddylanwad y rhieni ar y cyd (ac efallai o ddos driphlyg gyda neiniau a theidiau)
- gweld eu tadau neu neiniau a theidiau'n ymwneud yn gadarnhaol â'r ysgol yn gallu cymell plant i deimlo mwy o gysylltiad â'r ysgol eu hunain
- llawer o dadau'n ymwneud eisoes â dysg eu plentyn yn y cartref (e.e. gosod esiampl drwy ddarllen, helpu gyda gwaith cartref) ond mae 25 y cant o blant heb weld eu tad yn darllen erioed
- tadau (a neiniau a theidiau hefyd) yn gallu lleddfu effaith methiant yng ngofal y fam neu absenoldeb y fam.

Mae'r Sefydliad Tadolaeth wedi llunio canllaw byr (Saesneg yn unig) sy'n cynnwys cynghorion a rhestr wirio ar gyfer cynnwys tadau mewn rhaglenni rhianta sydd ar gael ar-lein yn www.fatherhoodinstitute.org/uploads/publications/444.pdf. Mae hefyd yn darparu cwrs ar-lein am ddim (Saesneg yn unig), 'Dads Included', sy'n cynnig gwybodaeth am yr hyn i'w ddisgwyl gan wasanaeth sy'n cynnwys tadau yn lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac mewn lleoliadau iechyd, a sut i'w ddarparu. Mae ar gael yn Saesneg yn unig yn www.fatherhoodinstitute.org/sector/sector-content/training.

Mae'r llyfryn *Cynnwys Tadau mewn Gwasanaethau Blynyddoedd Cynnar: Arferion cadarnhaol i weithwyr proffesiynol*, a gynhyrchwyd gan Plant yng Nghymru, yn darparu enghreifftiau ymarferol o brosiectau yng Nghymru sy'n gweithio'n llwyddiannus gyda thadau. Mae ar gael ar-lein yn www.childreninwales.org.uk/wp-content/uploads/2014/04/fathers-guidance-cymraeg-web.pdf.

Mae'r Grandparents' Association hefyd yn cynnig nifer o daflenni gwybodaeth (Saesneg yn unig) sydd ar gael i'w lawrlwytho o'i gwefan yn www.grandparents-association.org.uk/kc/kinship-carers.html.

Mwy am ofalwyr plant sy'n derbyn gofal

Mae plant sy'n derbyn gofal yn gallu derbyn gofal yn eu cartref eu hunain, mewn cartref maeth, neu mewn uned breswyl neu ysgol breswyl. Mae plant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal yn wynebu rhwystrau rhag llwyddo mewn addysg ac mae'n hanfodol bod ysgolion yn gwybod pwy yw'r dysgwyr sy'n derbyn gofal a'u bod yn cadw mewn cysylltiad â'r gofalwr priodol, a all fod yn berthynas sy'n gofalu, yn ofalwr maeth, neu'n ofalwr awdurdod lleol.

Wrth gynllunio gofal ar gyfer dysgwyr sy'n derbyn gofal, dylid egluro pwy sy'n derbyn cyfrifoldeb dros gadw mewn cysylltiad â'r ysgol a helpu'r plentyn gyda'i addysg. Mae cynllunio gofalus a chydweithio effeithiol rhwng gofalwyr/gweithwyr cymdeithasol ac athrawon yr un mor bwysig.

Drwy gydweithio â'r awdurdod lleol ac efallai eu clwstwr ysgolion, byddai ysgolion yn gallu cynnal sesiwn ar gyfer gofalwyr a rhieni maeth i dynnu sylw at bwysigrwydd ymgysylltu'n rhagweithiol ag ysgolion a darparwyr addysg ôl-16 er mwyn diwallu anghenion addysgol plant sy'n derbyn gofal.

Cwestiynau i ysgogi ysgolion sy'n gweithio gyda phlant sy'n derbyn gofal

- A yw'ch cofnodion o fanylion y person ifanc yn gywir a chyfredol?
- A yw'ch manylion cyswllt ar gyfer rhieni, staff preswyl, gofalwyr maeth, perthnasau sy'n gofalu a gweithwyr cymdeithasol yn gywir a chyfredol?
- A ydych chi'n gwybod pa un o'r pwyntiau cyswllt hyn yw'r prif gyswllt (sydd wedi'i nodi yng nghynllun gofal y plentyn neu berson ifanc)?
- A oes systemau ar waith i sicrhau bod y cofnodion hyn yn cael eu trin yn sensitif a chyfrinachol?
- A yw'r ysgol yn ymgynghori a chyfathrebu â rhieni, gweithwyr cymdeithasol, gofalwyr maeth a pherthnasau sy'n gofalu ac eraill?
- A yw'r ysgol yn cysylltu â gofalwyr i ddarparu gwybodaeth a chefnogaeth i bobl ifanc sy'n derbyn gofal ar faterion fel gyrfaoedd, addysg bellach ac uwch, ac arian ar gyfer addysg/hyfforddiant?
- A yw'r ysgol yn helpu gofalwyr i sicrhau bod trefniadau addas ar gyfer astudio a gwneud gwaith cartref?
- A yw'r trefniadau ar gyfer nosweithiau rhieni/gofalwyr yn cynnwys perthnasau sy'n gofalu, gofalwyr maeth a staff preswyl?
- A yw gwahoddiadau a negeseuon yn cael eu trin yn sensitif?

Mwy am grwpiau lleiafrifoedd ethnig, gan gynnwys teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr⁴

Mae rhieni/gofalwyr sydd mewn grwpiau lleiafrifoedd ethnig yn wynebu nifer o wahanol rwystrau gan gynnwys gwahaniaethu, rhwystrau iaith a diwylliannol. Mae hyn yn arbennig o wir am deuluoedd sy'n ymfudwyr, yn ffoaduriaid neu'n geiswyr lloches, gan y gallai'r amgylchiadau trawmatig a achosodd iddynt adael eu mamwledydd wneud eu problemau'n waeth. Canfu gwaith ymchwil hefyd fod rhieni/gofalwyr o leiafrifoedd ethnig yn dweud bod ganddynt lai o rwydweithiau cefnogaeth nag arfer, a gallai hynny eu gadael yn teimlo'n ynysig.

Strategaethau a awgrymir ar gyfer gweithio gyda theuluoedd o leiafrifoedd ethnig yw:

- osgoi gwneud tybiaethau a stereoteipio
- gofalu bod gwasanaethau'n ystyriol o wahanol ddiwylliannau ac yn herio hiliaeth a stereoteipiau negyddol
- gofalu bod gan aelodau staff sgiliau perthnasol a'u bod wedi'u hyfforddi'n briodol – canfuwyd bod y berthynas ag aelodau staff ac ansawdd y sgiliau rhyngpersonol a hwyluso grŵp yn arbennig o bwysig ar gyfer ymgysylltu'n llwyddiannus â rhieni/gofalwyr o grwpiau lleiafrifoedd ethnig
- os oes modd, cyflogi cymysgedd o aelodau staff y mae ei hamrywiaeth ethnig yn adlewyrchu'r gymuned leol

⁴ O ganllawiau Llywodraeth Cymru *Rhianta yng Nghymru* (2014) sydd ar gael yn www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/?lang=cy

- recriwtio aelodau o'r gymuned leol, naill ai mewn swyddogaethau ffurfiol neu mewn grwpiau cefnogaeth i gyfoedion
- defnyddio aelodau staff â hygyrdded digonol y gellir ymddiried ynddynt yng nghyswllt cefndir y rhiant/gofalwr
- os oes modd, defnyddio lleoliadau sy'n gyfarwydd i boblogaethau lleiafrifoedd ethnig
- wrth ddefnyddio cyfieithwyr ar y pryd, gofalu bod egwyddorion a negeseuon craidd i rieni/gofalwyr yn cael eu cyfieithu mewn ffordd gyson
- monitro nifer yr aelodau o gymunedau lleiafrifoedd ethnig sy'n manteisio ar wasanaethau.

Sipsiwn a Theithwyr

Sipsiwn a Theithwyr, mewn sawl ffordd, yw'r grŵp lleiafrif ethnig y gwahaniaethir fwyaf yn ei erbyn yng Nghymru. Canfuwyd drwy ymchwil eu bod yn rhoi pwyslais ar: uned deuluol gryf, teuluoedd estynedig cryf iawn, y gwerth a roddir ar addysg o fewn yr uned deuluol, traddodiadau diwylliannol caeth a theimlad o falchder yn eu hunaniaeth ddiwylliannol. Mae gwaith ymchwil hefyd wedi dangos y gallai teuluoedd fod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau cyhoeddus oherwydd eu bod yn ofni stigma a rhagfarn, oherwydd nad ydynt yn ymddiried mewn darparwyr gwasanaethau, ac oherwydd y gallai eu lefelau llythrennedd fod yn gyfyngedig hefyd.

Yn 2011 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru *'Teithio i Ddyfodol Gwell'* – *Sipsiwn a Theithwyr fframwaith ar gyfer Gweithredu a Chynllun Cyflenwi*⁵ a oedd yn nodi camau gweithredu allweddol mewn cysylltiad â'r ddau brif faes ar gyfer gwella cyrhaeddiad addysgol – presenoldeb a chadw dysgwyr.

Mewn **adroddiad ymchwil**⁶ a gyhoeddwyd yn 2014 am ymgysylltu â theuluoedd dysgwyr sy'n Sipsiwn neu Deithwyr, edrychwyd ar y rhwystrau a wynebwr wrth ymgysylltu a chadw'r grŵp hwn o ddysgwyr mewn addysg a nodwyd enghreifftiau o'r arferion gorau. Cafwyd mai'r ffactor pwysicaf a oedd yn effeithio ar bresenoldeb oedd canfyddiad y dysgwr o'r ysgol, a oedd yn gysylltiedig â gorbryder a gwerthoedd diwylliannol neilltuol. Wrth drafod yr arferion gorau, nodwyd pa mor bwysig yw mynediad i addysg, cynhwysiant, diogelwch ac ymddiriedaeth, partneriaethau a disgwyliadau yng nghyd-destun rôl ysgolion. Ymhlith y prif arferion llwyddiannus yr oedd:

- sefydlu perthnasoedd yn gynnar, gan eu meithrin dros amser
- annog dysgwyr sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr i wneud ffrindiau â chyfoedion nad ydynt yn Deithwyr
- mabwysiadu dull teulu cyfan, gan feithrin perthnasoedd â'r teulu a'r gymuned ehangach gan gynnwys deialog cyson
- gweithio ar sail amlasiantaethol ac mewn cydweithrediad agos â'r swyddog lles addysg
- meithrin diddordeb yn niwylliant Sipsiwn a Theithwyr a dealltwriaeth dda ohono yn yr ysgol
- os oes modd, neilltuo adnoddau ar gyfer gwaith allgymorth

⁵ www.gov.wales/topics/people-and-communities/communities/communitycohesion/gypsytravellers/?lang=cy

⁶ www.gov.wales/statistics-and-research/gypsy-traveller-education/?skip=1&lang=cy

- cydweithio rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau bod dysgwyr yn trosglwyddo
- bod yn hyblyg er mwyn cwrdd ag anghenion dysgwyr sy'n Sipsiwn neu'n Deithwyr, a hynny'n cynnwys trefnu i gyfleoedd dysgu allgwricwlar fod ar gael
- darparu cyfleoedd galwedigaethol/cysylltiedig â gwaith o fewn y cwricwlwm.

Un o'r camau cyntaf y gellid eu cymryd i gymell teuluoedd Sipsiwn a Theithwyr i ymwneud â'r ysgol yw defnyddio'r adnoddau sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.gov.wales/resources/browse-all/travelling-together/?lang=cy i hybu'r broses o integreiddio diwylliant Sipsiwn a Theithwyr i'r cwricwlwm.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael ar wefan Teithio Ymlaen sy'n cael ei rhedeg gan Achub y Plant. Mae'n cynnwys adran pecynnau cymorth ar gyfer gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda chymunedau Sipsiwn a Theithwyr. Mae ar gael yn www.travellingahead.org.uk/toolkit/?language=Cymraeg.

Mwy am deuluoedd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY)

Ni fydd teuluoedd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) wedi'u tangynrychioli ym mywyd yr ysgol o reidrwydd, ond mae'n bwysig iawn bod yr ysgol yn gallu ymgysylltu'n dda â nhw. Mae darganfod bod ADY gan eich plentyn yn gallu bod yn anodd ei ddeall a'i dderbyn, ac mae angen cefnogaeth, gwybodaeth a chynghor ar rieni/gofalwyr. Mae teuluoedd sydd â phlant anabl yn fwy tebygol o wynebu anawsterau ariannol oherwydd y costau uwch sy'n gysylltiedig â magu plentyn sydd ag anabled a cholli incwm mewn llawer achos am fod angen i un rhiant/gofalwr roi'r gorau i weithio.

Os oes ADY gan ddysgwyr, mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r rhieni/gofalwyr ddysgu sgiliau newydd eu hunain, megis cyfathrebu drwy iaith arwyddion a defnyddio cymhorthion technolegol. Bydd angen i rieni/gofalwyr gael cefnogaeth gan yr ysgol i feithrin y sgiliau angenrheidiol.

Dyma rai o'r strategaethau a gynigir.

- Yn aml bydd nifer mawr o apwyntiadau i'w cadw gan rieni/gofalwyr sydd â phlant ADY, felly trefnwch gyfarfodydd amlasiantaethol sy'n canolbwyntio'n benodol ar feysydd sydd wedi'u pennu drwy gynllunio sy'n canolbwyntio ar unigolion.
- Darparu hyfforddiant hyblyg drwy raglenni arbenigol fel y gall rhieni/gofalwyr feithrin y sgiliau sydd eu hangen i gynorthwyo eu plentyn, e.e. systemau cyfathrebu cyfnewid lluniau (PECS), iaith arwyddion, y Blynyddoedd Rhyfeddol, Early Bird.
- Ymweld â'r cartref i gefnogi teuluoedd, e.e. therapydd lleferydd a staff ysgol yn gweithio gyda rhieni/gofalwyr yn y cartref i ddatblygu dulliau gyson o gyfathrebu ac ymddwyn.
- Trefnu ar gyfer cefnogaeth anffurfiol, e.e. drwy gynnal boreau coffi, sesiynau aromatherapi, ac ati, fel y bydd rhieni/gofalwyr yn gallu siarad â rhieni/gofalwyr o feddwl tebyg a rhannu rhai o'r problemau sydd ganddynt.
- Cael mewnbwn gan rieni/gofalwyr am eu hanghenion, drwy ddefnyddio holiaduron a dolenni gwefan fel y gall rhieni/gofalwyr ofyn am gefnogaeth benodol, e.e. pa fath o apiau i'w prynu ar gyfer teclyn TG eu plentyn ar ei ben-blwydd, beth sydd ar gael ar bwyntiau trosglwyddo, ac ati.

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 3: Adnodd 4 Trosglwyddo



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Pwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd yn ystod y cyfnod pontio.
- Syniadau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd yn ystod cyfnodau pontio.
- Holiaduron enghreifftiol i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn cyfnodau pontio.

Pwysigrwydd ymgysylltu â theuluoedd yn ystod y cyfnod pontio

Dylai ysgolion gymryd camau i ymgysylltu â theuluoedd drwy gydol y flwyddyn. Fodd bynnag, ar y pwyntiau trosglwyddo rhwng ysgolion a rhwng cyfnodau allweddol a blynyddoedd ysgol, bydd ymgysylltu'n bwysicach byth gan ein bod yn gwybod ei fod yn 'ffactor gwarchodol'.

- Mae dysgwyr sydd â theuluoedd sy'n cymryd diddordeb, yn darparu cefnogaeth ac yn hybu annibyniaeth yn debygol o ymaddasu'n well i'r trosglwyddo.
- Ar y llaw arall, yn achos dysgwyr sydd â theuluoedd sy'n cymryd llai o ddiddordeb, yn enwedig y rheini sy'n cael prydau ysgol am ddim, y rheini y mae eu cyrhaeddiad blaenorol yn wael, y rheini sydd â lefel isel o hunan-barch a/neu sydd o gefndir lleiafrifoedd ethnig, gall y trosglwyddo o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd (tua diwedd Blwyddyn 6) fod yn anodd iawn, a gall arwain at gyrhaeddiad is⁷.

"Family-based support is one of the most significant contributors to children's continued success in the education system, particularly during periods of educational transition."

Harris and Goodall (2009)
Helping Families Support Children's Success at School, Save the Children.

Trosglwyddo i'r ysgol gynradd

Mae dechrau yn yr ysgol gynradd yn gam mawr i unrhyw blentyn a'i deulu. Bydd y graddau y mae'n 'barod i ddysgu' yn cael effaith fawr ar ei argraffiadau cyntaf o'r ysgol, a gall effeithio'n barhaus hefyd ar ei gyrhaeddiad addysgol. Mae lleoliadau'r blynyddoedd cynnar ac ysgolion cynradd yn gallu gweithio gyda theuluoedd a chyda'i gilydd i helpu i hwyluso'r trosglwyddo ac annog mwy o deuluoedd i helpu eu plant i fod 'yn barod i ddysgu'.

⁷ www.gov.wales/statistics-and-research/investigating-drop-attainment-during-transition-phase-focus-child-poverty/?lang=cy

Beth mae bod 'yn barod i ddysgu' yn ei olygu?

Mae plant pedair oed yn tueddu i setlo'n gyflymach yn yr ysgol:

- os oes ganddyn nhw ddigon o iaith i fynegi eu hunain a gofyn cwestiynau (sgiliau iaith cynnar)
- os ydyn nhw'n gallu gwrandao ar gyfarwyddiadau a'u dilyn
- os ydyn nhw'n cyd-dynnu â phlant eraill, gan rannu ac aros eu tro
- os ydyn nhw'n mynd i'r toiled ac yn gwisgo ar eu pen eu hunain
- os ydyn nhw'n ymdopi â bod i ffwrdd oddi wrth eu rhieni/gofalwyr
- os oes ganddyn nhw ddiddordeb mewn straeon, caneuon a hwiangerddi, tynnu lluniau a gwneud pethau
- os ydyn nhw'n gyfarwydd i raddau â llythrennau a rhifau
- os ydyn nhw'n chwilfrydig ynglŷn â'r byd, gyda dymuniad i ddysgu.

Ni fydd yr holl blant sy'n dechrau'r ysgol yn gallu gwneud pob un o'r pethau hyn. Mae athrawon yn fedrus mewn helpu plant i wneud cynnydd ar eu cyflymder nhw eu hunain.

Trosglwyddo i'r ysgol uwchradd

Mae symud i'r ysgol uwchradd yn gam mawr hefyd a gall arwain at gyrhaeddiad is. Bydd rhai dysgwyr yn 'mynd ar goll' yn yr ysgol fwy. Un o'r sgiliau allweddol y mae ar ddysgwyr eu hangen i ddelio â'r trosglwyddo yw'r gallu i gael trefn arnyn nhw eu hunain a chymryd cyfrifoldeb. Mae angen iddynt gael cyfle hefyd i drafod eu pryderon ynghylch trosglwyddo. Pryderon sy'n cael eu mynegi'n aml gan ddysgwyr yw:

- a fyddan nhw'n cael eu bwlio yn yr ysgol newydd ac a fyddan nhw'n gwneud ffrindiau
- gwybod eu ffordd o gwmpas yr ysgol ac ymdopi â'r daith newydd i'r ysgol
- a fyddan nhw'n gallu dal i fyny â'r gwaith.

Mae'n werth nodi ei bod yn bosibl y bydd rhieni/gofalwyr hefyd yn teimlo eu bod ar goll ar yr adeg hon, wrth wynebu'r newid o leoliad cyfarwydd yr ysgol gynradd i systemau mawr a dyrys yr ysgol uwchradd.

Mae llawer y gall ysgolion cynradd ac uwchradd ei wneud i hwyluso'r pontio hwn os byddant yn gweithio gyda'r teuluoedd a chyda'i gilydd yn ystod y cyfnod hwn.

Trosglwyddo o'r ysgol uwchradd

Gall y profiad o adael yr ysgol fod yn gyffrous a hefyd yn llawn straen, a bydd pobl ifanc yn wynebu'r angen i wneud nifer o ddewisiadau pwysig ynghylch beth fyddan nhw'n ei wneud nesaf, yn ogystal â phryderon posibl am arian, dod o hyd i waith a dechrau byw'n annibynnol. Gellir cael cefnogaeth ar gyfer y pontio hwn o nifer o ffynonellau – ffrindiau, cynghorwyr gyrfaoedd, athrawon, gweithwyr ieuenctid – ond mae teuluoedd yn gallu chwarae rhan bwysig iawn o hyd wrth helpu eu plentyn i ystyried yn fanwl yr opsiynau sydd ar gael iddo. Mae dysgwyr sy'n cael llai o gefnogaeth gan rieni/gofalwyr yn llai tebygol o fynd ymlaen i

ddysgu ôl-16. Fodd bynnag, mae llawer o deuluoedd – yn enwedig y rheini o gefndiroedd difreintiedig – yn ei chael yn anodd rhoi'r gefnogaeth sydd ei hangen ar ddysgwyr yn y cyfnod hwn. Gall yr ysgol roi llawer o gymorth drwy hwyluso a darparu cyfleoedd a chanllawiau priodol ar gyfer cynnal y trafodaethau hyn.

Syniadau ar gyfer ymgysylltu â theuluoedd yn ystod cyfnodau pontio

Ym mhob achos, dylai ysgolion gynnal cyfarfodydd ar gyfer teuluoedd ymhell cyn y prif bwyntiau trosglwyddo. Mae'r cyfarfodydd hyn yn gyfleoedd pwysig iawn i rhieni/gofalwyr gael gwybod am broses drosglwyddo eu plentyn a sut y gallant helpu eu plentyn yn ystod y cyfnod hwn. Efallai na fydd plant yn awyddus bob amser i drafod eu dysgu ag eraill ond, drwy roi cyfle iddyn nhw siarad yn agored a thrafod unrhyw bryderon sydd ganddynt â'u hathrawon a'u rhieni/gofalwyr, byddwch yn gallu eu helpu i ddod o hyd i'r llwybr gorau a symud ymlaen yn llwyddiannus i'r cyfnod nesaf.

Bydd o gymorth i blant a phobl ifanc ar bob pwynt trosglwyddo os bydd rhieni/gofalwyr yn:

- siarad â nhw am yr hyn fydd yn digwydd
- eu hannog i ofyn cwestiynau
- eu hannog i siarad am unrhyw bryderon sydd ganddynt
- gwrando'n astud ar eu pryderon ac yn ystyried eu rhannu â phobl eraill sy'n berthnasol
- eu helpu i ymgynefino â'r lleoliad newydd.

Mae'r ymyraethau canlynol yn gallu hyrwyddo'r ymgysylltu â theuluoedd yn ystod cyfnodau pontio.

- **Sesiynau 'cwrdd â'r athrawon/cwrdd â'r teulu' anffurfiol** – trefnu mwy o ddigwyddiadau cymdeithasol wrth i'r pwynt trosglwyddo ddod yn nes er mwyn meithrin perthnasoedd a rhannu gwybodaeth am y cwricwlwm, am y disgwyliadau o ran ymddygiad (presenoldeb, cyrraedd yr ysgol yn brydlon) ac am y ffyrdd gorau i deuluoedd gefnogi dysg eu plentyn – gweler yr adnodd **Ysgol groesawgar** (Thema 3: Adnodd 1) a'r tri adnodd yn y pecyn cymorth hwn am ymgysylltu er mwyn dysgu sef **Y Cyfnod Sylfaen – Ymgysylltu er mwyn dysgu, Oedran ysgol gynradd 7–11 – Ymgysylltu er mwyn dysgu** ac **Ysgolion uwchradd – Ymgysylltu er mwyn dysgu** (Thema 4: Adnoddau 1, 2 a 3). Drwy gwrdd â rhieni a gofalwyr mor gynnar â phosibl, byddwch yn helpu i hwyluso'r trosglwyddo a sicrhau bod staff addysgu'n fwy parod i gwrdd ag anghenion y plentyn. Yn achos plant cyn ysgol, mae hyn yn gallu helpu rhieni/gofalwyr i ddeall beth yw ystyr 'bod yn barod i ddysgu' (gweler y blwch ar dudalen 45).

Ystyriwch wahodd eich rhieni/gofalwyr presennol i'r digwyddiadau hyn i gymryd rhan yn y gweithgareddau hyn neu i'w trefnu: mae rhyngweithio rhwng rhieni/gofalwyr a rhwng myfyrwyr yn effeithiol iawn ac yn helpu i chwalu rhai o'r rhwystrau. Dylech chi hefyd ystyried cynnal o leiaf un digwyddiad y tu allan i safle'r ysgol er mwyn gallu cynnwys y rhieni/gofalwyr/teuluoedd sy'n amharod i ddod i safle'r ysgol.

- **Diwrnodau cynefino ffurfiol/nosweithiau agored** – gwahodd dysgwyr a'u rhieni/gofalwyr i gyfarfodydd sy'n canolbwyntio ar bontio i'r ysgol uwchradd er mwyn lleddfu pryderon ynghylch symud ymlaen. Gofalwch fod rhieni/gofalwyr yn cael cyfle buan i drafod materion sy'n ymwneud â chynnydd a throsglwyddo â staff yr ysgol uwchradd.

- **Ffeiriau gwybodaeth** – cyfle i roi gwybod i deuluoedd am yr holl fathau o gefnogaeth a gweithgarwch a fydd ar gael yn ystod y tymor/blwyddyn academaidd, gan ddarparu lluniaeth a gweithgareddau blasu. Estynnwch wahoddiad i deuluoedd ymuno â rhaglenni dysgu fel teulu, neu gyfleoedd dysgu oedolion yn y gymuned, neu'ch rhwydwaith cyfryngau cymdeithasol.
- **Canllaw i ddysgwyr a'u teuluoedd** – meddyliwch am yr wybodaeth y bydd ei hangen ar ddysgwyr newydd (gofynnwch am adborth gan eich dysgwyr a theuluoedd presennol am yr wybodaeth a oedd wedi'u helpu a beth fyddent wedi hoffi cael gwybod). Cofiwch gynnwys neges am y gwerth y mae'r ysgol yn ei weld mewn ymgysylltu â theuluoedd, gwybodaeth am yr hyn y bydd eu plant yn ei ddysgu, am y ffyrdd gorau i deuluoedd eu helpu i ddysgu, ac am y gefnogaeth fugeiliol sydd ar gael. Trefnwch i'r canllaw fod ar gael ar wefan yr ysgol.
- **Gweithio gyda theuluoedd i hybu 'parodrwydd i ddysgu'** – mae ysgolion yn wynebu her fawr o ran sicrhau parodrwydd i ddysgu mewn ardaloedd difreintiedig iawn. Byddai ysgolion cynradd a lleoliadau meithrin yn gallu cydweithio i gynorthwyo teuluoedd i gael eu plant 'yn barod i ddysgu', yn enwedig os ydyn nhw'n gysylltiedig â chanolfannau Dechrau'n Deg – gweler yr adnodd **Cyfnod Sylfaen – Ymgysylltu er mwyn dysgu** (Thema 4: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn sy'n trafod 'parodrwydd i ddysgu' ymhellach, a hefyd canllawiau Llywodraeth Cymru ar Dechrau'n Deg yn www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/help/flyingstart/?lang=cy.

Os nad yw ysgol yn gysylltiedig â lleoliad Dechrau'n Deg, gall fod yn anodd cysylltu â rhieni/gofalwyr cyn derbyn y plentyn (a all ddigwydd ar y funud olaf) ac mae'n bosibl y bydd yn rhaid i'r ysgol ddibynnu ar waith asiantaethau eraill a phartneriaid yn y gymuned i ddatblygu parodrwydd i ddysgu yn ei chymuned – gweler hefyd yr adnoddau **Gweithio amlasiantaethol** (Thema 5: Adnodd 2) a **Datblygu partneriaethau cymunedol** (Thema 5: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn.

- **Ymweld â'r cartref** – gallech ystyried awgrymu/cynnal ymweliad â'r cartref ar gyfer rhai teuluoedd sy'n wynebu problemau o ran teithio neu symud o gwmpas ac ar gyfer y rheini y byddech yn ei chael yn anodd ymgysylltu â nhw fel arall – gweler yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn.
- **Mentora rhwng cyfoedion** – gallech ystyried trefnu i ddysgwyr Blwyddyn 7 ymweld ag ysgolion cynradd dysgwyr Blwyddyn 6 (gyda'u rhieni/gofalwyr yn bresennol), i siarad yn ffurfiol ac anffurfiol am bontio. Mewn rhai ysgolion bydd dysgwyr ym Mlwyddyn 7 yn cael eu mentora gan ddysgwyr hŷn.
- **Cefnogaeth ychwanegol** – ar gyfer dysgwyr sydd ei hangen, gallech ystyried gwneud trefniadau arbennig i'w cefnogi yn ystod yr hanner tymor cyntaf ar ôl trosglwyddo.
- **Rhannu gwybodaeth** – yn ystod pob cyfnod pontio, ond yn enwedig ar gyfer dysgwyr sy'n trosglwyddo i ysgol uwchradd neu ohoni, mae'n bwysig bod yr athrawon/ysgol sy'n eu derbyn yn cael yr wybodaeth sydd ei hangen arnynt i gynllunio ar gyfer diwallu anghenion penodol y dysgwyr newydd. Bydd hyn yn helpu i gynnal y momentwm yn nysg y dysgwyr a hefyd yn arbed amser i athrawon. Rhai mathau o wybodaeth a allai fod yn ddefnyddiol yw:

- data am gyrhaeddiad
- materion sy'n ymwneud â lles ac ymddygiad
- anghenion dysgu ychwanegol (ADY)
- gwybodaeth am y teulu, ac unrhyw broblemau o ran ymgysylltu â'r teulu yn eu dosbarth/ysgol flaenorol – gweler yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn am wybodaeth y gellir ei throsglwyddo.

Wrth rannu data, rhaid cydymffurfio â Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) (gweler y blwch isod).

- **Casglu gwybodaeth oddi wrth ddysgwyr a'u rhieni/gofalwyr cyn ac ar ôl y trosglwyddo** – bydd rhai ysgolion yn casglu gwybodaeth ychwanegol drwy holiaduron, yn enwedig yn ystod y pontio rhwng Blwyddyn 6 a Blwyddyn 7. Mae holiaduron enghreifftiol ar ddiwedd yr adnodd hwn. Cofiwch na fydd hyn yn ddigon ar ei ben ei hun, gan fod 17 y cant o oedolion heb y sgiliau llythrennedd sydd eu hangen i lenwi ffurflenni o'r fath.
- **Polisi trosglwyddo** – eglurwch rôl y staff, rhieni/gofalwyr a dysgwyr yn y broses drosglwyddo, gan gynnwys y disgwyliad y bydd ysgolion cynradd ac uwchradd yn cydweithio a phennu rolau a chyfrifoldebau clir ar gyfer hynny. Ystyriwch a fyddai o fantais i'ch ysgol gael 'hyrwyddwr pontio' (unigolyn penodol sy'n gyfrifol am bontio effeithiol).

Fframwaith Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI)

Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) yw'r fframwaith ar gyfer sefydliadau sy'n darparu gwasanaethau sy'n ymwneud yn uniongyrchol ag iechyd, addysg, diogelwch a lles cymdeithasol pobl yng Nghymru.

Mae'r fframwaith yn hwyluso hyn drwy bennu gofynion a mecanweithiau cytûn ar gyfer cyfnewid gwybodaeth bersonol rhwng darparwyr gwasanaethau.

Mae wedi'i lofnodi gan yr holl awdurdodau lleol, byrddau/ymddiriedolaethau iechyd, heddluoedd a gwasanaethau tân yng Nghymru, ynghyd â nifer mawr o elusennau a sefydliadau yn y sector gwirfoddol. Mae nifer o ysgolion, meddygfeydd, cymdeithasau tai a rhai sefydliadau sector preifat wedi llofnodi'r Cytundeb hefyd.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael yn www.waspi.org

Holiaduron enghreifftiol i ddysgwyr a rhieni/gofalwyr mewn cyfnodau pontio

Mae'r holiaduron canlynol (tudalennau 49–55) i'w llenwi gan ddysgwyr a rhieni/gofalwyr cyn ac ar ôl trosglwyddo rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd er mwyn ysgogi trafodaethau rhwng dysgwyr a'u teuluoedd, a rhwng dysgwyr a staff ysgol, er mwyn hwyluso'r trosglwyddo. Bydd yr wybodaeth a gesglir hefyd yn helpu ysgolion i nodi unrhyw anghenion parhaus.

Er bod y sefyllfa'n gwella, mae gwaith ymchwil blaenorol yn awgrymu nad yw rhai rhieni/gofalwyr yn rhannu gwybodaeth am eu plant sy'n bwysig i ysgolion. Bydd yr holiaduron hefyd yn galluogi rhieni/gofalwyr i roi eu barn, a byddant yn fan cychwyn ar gyfer trafod pellach.

Paratoi ar gyfer yr ysgol uwchradd – Holiadur i ddysgwyr Blwyddyn 6

Enw'r dysgwr:

Gan fy mod i'n paratoi i symud ymlaen i Flwyddyn 7, rydw i'n edrych ymlaen at ...

Gan fy mod i'n paratoi i symud ymlaen i Flwyddyn 7, rydw i'n poeni am ...

Wrth symud i'r ysgol uwchradd, rydw i'n credu y byddai o gymorth i mi os ...

Symud ymlaen i'r ysgol uwchradd – Holiadur i rieni/gofalwyr dysgwyr ym Mlwyddyn 6

Enw'r dysgwr:

Beth mae'ch plentyn yn edrych ymlaen ato wrth ddechrau yn yr ysgol uwchradd?

A oes unrhyw bryderon penodol gan eich plentyn ynghylch dechrau yn yr ysgol uwchradd?

A oes gennych chi unrhyw bryderon ynghylch eich plentyn wrth iddo ddechrau yn yr ysgol uwchradd?

Â phwy y byddech chi'n hoffi siarad ynghylch trosglwyddo'ch plentyn i'r ysgol uwchradd? Ticiwch y blychau isod.

- Athro dosbarth/athrawes ddosbarth.
- Cydlynnydd anghenion addysgol arbennig (SENCo).
- Pennaeth yr ysgol.
- Cynghorydd cymorth i rieni/gofalwyr.
- Aelod penodol o'r staff (rhowch ei enw)

Diolch i bawb am lenwi'r holiadur hwn. Dychwelwch ef erbyn

Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 – Holiadur i ddysgwyr ym Mlwyddyn 7

Enw'r dysgwr: (dewisol)

1. Pa ysgol gynradd roeddech chi'n mynd iddi?

2. Pa mor barod a hyderus roeddech chi'n teimlo am symud i'r ysgol uwchradd? (Cewch dicio mwy nag un blwch.)

- Roedd gen i syniad da sut brofiad fyddai symud.
- Doedd gen i ddim syniad clir sut brofiad fyddai symud.
- Doedd gen i ddim syniad sut brofiad fyddai symud.
- Roeddwn i'n teimlo'n gynhyrfus.
- Roeddwn i'n nerfus.
- Roeddwn i'n poeni.
- Arall (nodwch)

3. A oedd unrhyw rai o'r pethau hyn yn eich helpu i deimlo'n barod i symud? (Ticiwch.)

	Doeddwn i ddim wedi mynd/ gwneud hyn	Roeddwn i wedi gwneud hyn ond nid oedd yn fawr o help	Roeddwn i wedi gwneud hyn ac roedd yn iawn	Roeddwn i wedi gwneud hyn ac roedd yn help mawr
Cyfarfod yn eich ysgol gynradd				
Diwrnod cynefino				
Digwyddiad cymdeithasol				
Fy mentor (dysgwr hŷn)				
Arall (nodwch)				

4. Beth arall y byddai'n bosibl ei wneud i'ch helpu i baratoi am symud?

5. Beth yw'r ddau beth gorau am ein hysgol ni?

6. Pe byddech chi'n gallu newid rhywbeth am ein hysgol ni, beth fyddai hwnnw?

Diolch i chi am lenwi'r holiadur hwn. Dychwelwch ef erbyn

Trosglwyddo o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3 – Holiadur i rieni/gofalwyr dysgwyr ym Mlwyddyn 7

1. Enw'r dysgwr (dewisol)

2. Beth yw enw ei ysgol flaenorol?

3. A oedd unrhyw rai o'r pethau hyn yn eich helpu i deimlo'n barod i symud? (Ticiwch.)

	Doeddwn i ddim wedi mynd/ gwneud hyn	Roeddwn i wedi gwneud hyn ond nid oedd yn fawr o help	Roeddwn i wedi gwneud hyn ac roedd yn iawn	Roeddwn i wedi gwneud hyn ac roedd yn help mawr
Cyfarfod yn yr ysgol gynradd				
Diwrnod cynefino				
Cyfarfod i rieni/gofalwyr ar ôl y diwrnod cynefino				
Sesiwn galw heibio yn yr ysgol				
Arall (nodwch)				

4. Pa mor barod oedd eich plentyn ar gyfer trosglwyddo i'r ysgol uwchradd? (Ticiwch.)

Yn barod iawn.

Yn eithaf parod.

Ddim yn ddigon parod.

5. Pa mor barod oeddech chi ar gyfer trosglwyddo'ch plentyn i'r ysgol uwchradd? (Ticiwch.)

- Yn barod iawn.
- Yn eithaf parod.
- Ddim yn ddigon parod.

6. Oeddech chi wedi cael digon o wybodaeth am y broses trosglwyddo?

- Oeddwn
- Nac oeddwn

Os nad oeddech chi, beth arall fydddech chi wedi hoffi ei gael?

7. Pa mor dda mae'ch plentyn wedi setlo yn yr ysgol hon? (Ticiwch.)

- Yn dda iawn.
- Yn iawn i bob golwg.
- Rydw i'n poeni am ychydig o bethau.
- Nid yw fy mhleintyn yn hapus.

8. Sut y mae'ch plentyn yn cael y gwaith mewn gwersi? (Ticiwch.)

- Rhy anodd.
- Wedi'i osod ar y lefel iawn.
- Rhy hawdd (roedden nhw'n gwneud gwaith mwy anodd yn yr ysgol gynradd).

9. Ydych chi'n fodlon ar faint y gwaith cartref y mae'ch plentyn yn ei gael? (Ticiwch.)

- Ydw, mae'n ddigon i'w ymestyn ond ddim yn ormod.
- Mae maint y gwaith cartref yn iawn y rhan fwyaf o wythnosau.
- Nac ydw, mae fy mhleintyn yn ei chael yn anodd dal i fyny â maint y gwaith cartref.
- Nac ydw, ychydig iawn o waith cartref rydw i'n ei weld.

10. Beth arall fydden ni wedi gallu'i wneud i wneud y pontio'n haws i'ch plentyn?

11. Beth arall fydden ni wedi gallu'i wneud i wneud y pontio'n haws i chi?

12. Beth yw'r peth pwysicaf y dylai rhieni/gofalwyr ei wybod cyn i'w plentyn fynd i Flwyddyn 7, yn eich barn chi?

13. Os oes unrhyw bryderon gennych chi, neu os nad yw'ch plentyn yn hapus, rhowch eich sylwadau yma.

14. Unrhyw sylwadau eraill:

Diolch i chi am lenwi'r holiadur hwn.

Dychwelwch ef i (e-bost) neu i swyddfa'r
ysgol erbyn (dyddiad)

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd **Thema 3: Adnodd 5** Dulliau o gyfathrebu



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad.
- Pwysigrwydd cyfathrebu wyneb yn wyneb.
- Gwefan, tecstio a'r e-bost.
- Cyfryngau cymdeithasol.
- Data ar-lein a rhith-amgylcheddau dysgu.
- Cyfathrebu dwyffordd.
- Gweithgaredd – Ystyried dulliau o gyfathrebu.

Cyflwyniad

Mae ysgolion a rhieni/gofalwyr yn cytuno mai'r sail ar gyfer meithrin perthnasoedd cadarnhaol yw cyfathrebu da.

Bydd gan bob ysgol fathau gwahanol o wybodaeth y mae angen iddi eu cyfleu i deuluoedd, ac amrywiaeth o lwyfannau cyfathrebu i'w defnyddio (gweler y tabl).

Yn ogystal â dulliau ffurfiol fel nosweithiau rhieni/gofalwyr, rhaid cael cyfleoedd anffurfiol fel cyswllt wrth gât yr ysgol a digwyddiadau cymdeithasol er mwyn meithrin perthnasoedd (gyda'r nod o wella'r canlyniadau i ddysgwyr o ran addysg a lles).

Mae nifer cynyddol o lwyfannau cyfathrebu arloesol ar gael i'w defnyddio gan ysgolion. Bydd yn werth ystyried a oes unrhyw ddulliau newydd neu wahanol a allai'ch helpu i gyfathrebu'n well, ac a yw'r dulliau presennol yn cael yr effaith anfwriadol o roi rhai rhieni/gofalwyr o dan anfantais.

“ Parental engagement with children’s learning is effectively supported when parents receive clear, specific, targeted information from schools.”

Goodall a Vorhaus (2011)
Review of Best Practice in Parental Engagement Practitioners Summary,
 Yr Adran Addysg (Lloegr)

Math o wybodaeth	Cyflymder	Llwyfannau cyfathrebu posibl
Gwybodaeth frys am yr ysgol, e.e. bod yr ysgol yn cau.	Brys	Radio lleol, gwefan yr ysgol, Hwb, tecstio, cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub, e-bost.
Hysbysu rhieni/gofalwyr os yw plentyn yn sâl/wedi cael damwain/am ddigwyddiad penodol.	Brys	Ffôn, e-bost, tecstio, ap ar gyfer cyfathrebu preifat dwyffordd fel Schoop a ParentHub.
Problem yn yr ysgol ynghylch dysgu neu ymddygiad y plentyn.	Cyflym	Cyfarfodydd un i un, ffôn.

Math o wybodaeth	Cyflymder	Llwyfannau cyfathrebu posibl
Gwybodaeth wythnosol, e.e. aseiniadau gwaith cartref, nodyn atgoffa, ceisiadau am gymorth/adnoddau/arian/ac ati.	Cyflym	E-bost, tecstio, gwefan yr ysgol, Hwb, rhith-amgylchedd dysgu, cyfryngau cymdeithasol, llythyr yn y bag ysgol, dyddiadur gwaith cartref neu gynlluniwr myfyriwr, gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub.
Ceisiadau personol am gymorth neu wahoddiadau i weithgareddau ysgol.	Cyflym	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ffôn, e-bost.
Gwybodaeth am ddechrau'r flwyddyn ysgol, calendr yr ysgol.	Cyflym	Gwefan yr ysgol, Hwb, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, llythyr yn y bag ysgol, gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub, e-bost.
Cynnydd y plentyn.	Rheolaidd	Cyfarfodydd un i un, adroddiadau ysgrifenedig, rhith-amgylchedd dysgu, Hwb.
Gwybodaeth am ffyrdd i deuluoedd gefnogi dysg eu plentyn.	Rheolaidd	Cyfarfodydd un i un, dyddiadur gwaith cartref neu gynlluniwr myfyriwr, llythyr yn y bag ysgol, gwefan yr ysgol, cyfryngau cymdeithasol, ap fel Schoop, digwyddiadau a gweithgareddau ysgol.
Negeseuon am ethos yr ysgol, gan gynnwys gwerth ymgysylltu â theuluoedd.	Rheolaidd	Negeseua rheolaidd, posteri, cyfarfodydd un i un, digwyddiadau a gweithgareddau ysgol.

Pwysigrwydd cyfathrebu wyneb yn wyneb

Cyfathrebu wyneb yn wyneb yw'r dull pwysicaf un o feithrin cysylltiadau â theuluoedd oherwydd, yn fwy nag unrhyw fath arall o gyfathrebu:

- mae'n eich helpu i gyfleu'ch neges yn fwy dibynadwy – mae iaith y corff, tôn y llais a chiwiau gweledol a geiriol eraill i gyd yn helpu, a gallwch gael gwybod mwy o lawer gan eich cynulleidfa wrth wneud hyn hefyd
- mae'n helpu i feithrin perthnasoedd a datblygu ymddiriedaeth
- mae'n ffordd o drechu anawsterau sy'n ymwneud â lefelau llythrennedd isel ymysg teuluoedd
- dyma'r unig ddull sy'n addas i ymdrin â materion sensitif a datrys problemau emosiynol a chymhleth
- mae'n trechu'r broblem bod rhai teuluoedd sydd heb gysylltiad â'r rhynggrwyd
- mae'n bosibl mai hwn fydd yr unig ddull sy'n addas i rai teuluoedd
- ni ellir ei anwybyddu – mae teuluoedd yn fwy tebygol o lawer o anwybyddu llythyr neu neges e-bost
- mae'n helpu rhieni/gofalwyr i deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi gan eich bod yn neilltuo amser i siarad â nhw'n unigol.

“ Rwy'n credu mai'r ffordd orau i ni hyd yma yw siarad yn amlach â'r rhieni a gofalwyr, gan ffurfio perthynas sydd wedi'i seilio ar ganlyniadau eu plant a'r rhan y gallan nhw ei chwarae.”

Dirprwy bennaeth, ysgol gynradd.

Mae cyfarfodydd wyneb yn wyneb da:

- yn anffurfiol, cyfeillgar ac anfeirniadol
- ar gael yn rhwydd, ar ddechrau a diwedd y diwrnod ysgol ac mewn digwyddiadau cymdeithasol yn yr ysgol
- ar gael drwy rwydweithiau eraill, e.e. cymdeithas rhieni ac athrawon, corff llywodraethu
- ar gael hefyd mewn mannau cyfarfod niwtral a chyda chyfryngwyr os bydd angen – gweler yr adnodd **Delio â gwrthdaro a chwynion** (Thema 3: Adnodd 9) yn y pecyn cymorth hwn.

Gwefan, tecstio a'r e-bost

Gwefannau yw'r lle mwyaf hwylus i rieni/gofalwyr gael gafael ar wybodaeth hanfodol am yr ysgol ond nid ydyn nhw gystal ar gyfer trosglwyddo gwybodaeth frys.

Mae gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub yn galluogi dysgwyr sy'n tanysgrifio iddynt i gael eu hysbysu am wybodaeth newydd ar y wefan heb orfod mynd arni. Yn yr un modd â thecstio a'r e-bost, maen nhw'n ffordd gyflym a rhad o anfon gwybodaeth a byddan nhw'n helpu i osgoi'r broblem o adael llythyrau ar waelod bagiau ysgol. Dwy enghraifft o hyn yw tecstio i roi gwybod am absenoldeb dysgwyr neu i roi gwybod bod yr ysgol yn cau. Mae llawer o rieni/gofalwyr wedi dweud eu bod yn falch o gael negeseuon testun gan eu bod yn fwy amserol ac yn fwy tebygol o gael eu darllen.

Gall negeseuon testun ac e-bost fod yn ffordd gyfleus i deuluoedd gysylltu â'r ysgol hefyd – gall rhieni/gofalwyr anfon neges hyd yn oed os nad oes ganddynt gredyd i dalu am alwadau ffôn. Dyma rai pethau i'w hystyried.

Er mwyn anfon gwybodaeth

- A yw'r rhestr ddosbarthu'n cynnwys y bobl iawn? Er enghraifft, a yw tadau, gofalwyr, neiniau a theidiau wedi'u cynnwys?
- A yw'ch negeseuon testun ac e-bost a'ch gwefan yn hawdd eu darllen, heb jargon, ac a ydyn nhw'n ystyriol o'r ffaith bod lefelau llythrennedd rhai oedolion yn isel?
- A ydych chi'n gofalu bod gwybodaeth ysgrifenedig yn ddeniadol a hawdd ei darllen, gan ddefnyddio lliw a lluniau os oes modd?
- A yw'ch negeseuon ar gael yn yr ieithoedd a siaredir gan deuluoedd yn yr ysgol? A oes ffordd o sicrhau bod yr holl negeseuon yn cael eu cyfieithu os oes angen?
- Sut y byddwch chi'n trosglwyddo'r un wybodaeth i deuluoedd sydd heb gysylltiad â'r rhyngwyd?
- A ydych chi wedi cynnal arolwg systematig o deuluoedd yr ysgol i holi am y ffordd o gysylltu sydd orau ganddyn nhw? Pa mor aml y byddwch chi'n diweddarau'r wybodaeth hon? (Gweler yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.)
- Sut y byddwch chi'n gwybod os a pha bryd y bydd modd i chi roi'r gorau i anfon llythyrau a dibynnu ar negeseuon testun ac e-bost yn unig?
- A fyddwch chi'n manteisio ar y cyfle i gynnwys negeseuon clir ar eich gwefan am ethos yr ysgol, disgwyladau o ran ymddygiad, ac i ddangos bod yr ysgol yn gweld gwerth mewn ymgysylltu â theuluoedd?

- A yw'ch gwefan yn darparu:
 - pwyntiau cyswllt?
 - gweithdrefn gwyno?
 - dolenni i gael gafaél ar wybodaeth, e.e. y ffyrdd gorau i deuluoedd gefnogi dysg y plentyn, dolen ar gyfer gwasanaeth gwybodaeth i deuluoedd yr awdurdod lleol?
 - calendr yr ysgol a llythyrau diweddar oddi wrth yr ysgol?
 - lluniau, fideos, blogiau, ac ati?
 - dolenni i ymgyrch 'Mae addysg yn dechrau yn y cartref' Llywodraeth Cymru (gweler gwefan yr ymgyrch yn www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/education-begins-at-home/?lang=cy)?
 - dolenni i wybodaeth i rieni gan Lywodraeth Cymru www.gov.wales/topics/educationandskills/schoolshome/parents/?lang=cy

Er mwyn derbyn gwybodaeth

- A oes ffordd rwydd i deuluoedd gysylltu â'r ysgol drwy decstio neu'r e-bost?
- A fydd y negeseuon yn cyrraedd y bobl iawn ac yr adeg iawn?

Cyfryngau cymdeithasol

Gellir gwneud defnydd o dechnolegau cyfryngau cymdeithasol i gyfathrebu â theuluoedd, er enghraifft drwy flogiau a phodlediadau gan yr ysgol, apiau, Facebook a Twitter, er mwyn cyrraedd o bell y rheini sy'n amharod neu'n analluog i ymgysylltu'n bersonol â'r ysgol.

Gall cyfryngau cymdeithasol fod yn ffordd gyflym a rhad o anfon gwybodaeth. Gallant hefyd fod yn ffordd rad a hwylus i deuluoedd gysylltu â'r ysgol.

Mae canllawiau ar gael i athrawon ar ffyrdd posibl o ddefnyddio Twitter a Facebook, e.e. www.edudemic.com/guides/guide-to-twitter/ a www.facebook.com/notes/facebook-safety/introducing-a-facebook-guide-for-educators-and-community-leaders/625839830770136.

Gellir cynnwys y gymuned mewn dysgu drwy gyfryngau cymdeithasol hefyd, e.e. drwy rannu fideos o rywun yn dweud stori neu'n defnyddio technegau mathemateg, neu drwy ysgrifennu blog am ffyrdd o helpu plant i ddysgu⁸.

Hefyd mae nifer o apiau ar gael am ddim i hyrwyddo cyfathrebu rhwng ysgolion a theuluoedd ynghylch cyflawniad ac ymddygiad. Un enghraifft o hyn yw 'Schoop' sydd yn cael ei ddefnyddio gan lawer o ysgolion yng Nghymru. Mae'n anfon negeseuon at ffonau symudol rhieni/gofalwyr, wedi'u teilwra i grŵp blwyddyn a dosbarth y plentyn. Dangosir dwy enghraifft o ddefnydd 'Schoop' yn y blwch ar dudalen 61. Ap arall o'r fath yw 'Class dojo' sy'n rhoi pwyntiau i ddysgwyr am eu hymddygiad (y mathau o ymddygiad wedi'u pennu gan yr athro/athrawes) ac yn rhoi'r gallu i anfon adroddiadau at deuluoedd drwy'r e-bost, e.e. unwaith yr wythnos. Mae apiau cyfryngau cymdeithasol i ysgolion yn faes sy'n datblygu'n gyflym a byddwn yn gweld mwy a mwy o apiau yn y dyfodol.

⁸ Astudiaeth achos arfer gorau gan Estyn ar Ysgol Feithrin Cogan, Bro Morgannwg, wedi'i gyhoeddi yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/289107/Rhannu%20dysgu%20trwy'r%20cyfryngau%20cymdeithasol/?navmap=33,53,158,

Mae rhai o'r pethau i'w hystyried yn cynnwys y canlynol.

- Mae cyfryngau cymdeithasol yn gallu gadael athrawon yn agored i risgiau sy'n ymwneud â phreifatrwydd ac ymddygiad os na fyddant yn cymryd camau syml i'w diogelu eu hunain – mae undebau'r athrawon wedi cyhoeddi canllawiau (Saesneg yn unig), megis www.nasuwt.org.uk/InformationandAdvice/Professionalissues/SocialNetworking/NASUWT_007513.
- Ar gyfer pa fathau o gyfathrebu rydych chi am ddefnyddio cyfryngau cymdeithasol – anfon negeseuon pwysig neu dderbyn gwybodaeth oddi wrth rhieni/gofalwyr neu helpu teuluoedd i gefnogi dysgu?
- Ar gyfer beth fydddech chi'n gallu defnyddio'r gwahanol lwyfannau? Negeseua gwib, tudalen Facebook, blog, podlediad/podlediad fideo, Skype, apiau?
- Ni fydd pob teulu'n defnyddio pob un o'r llwyfannau cyfryngau, felly sut y bydd yr wybodaeth yn cael ei chopio ar y gwahanol lwyfannau er mwyn cyrraedd pawb?
- Ar gyfer Facebook neu Twitter, a yw'n well cael un cyfrif ysgol neu a oes angen cyfrifon gwahanol at wahanol ddibenion? A yw'n hawdd dod o hyd i'r prif negeseuon?
- Wrth ddefnyddio Facebook neu Twitter, peidiwch ag ofni sgwrsio â rhieni/gofalwyr, ond peidiwch â theimlo bod rhaid i chi ymateb i bob sylw ychwaith.

Defnyddio gwasanaethau negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol i ymgysylltu â rhieni/gofalwyr

Mae Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru Wick a Marcross ym Mro Morgannwg yn un o'r lluo o ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen 'Big Maths – Beat That'. Pan ddechreuodd yr ysgol gymryd rhan yn y rhaglen hon, aethant ati i roi gwybod i'r rhieni/gofalwyr am y ffeithiau am rifau yr oedd angen i bob grŵp eu dysgu bob wythnos drwy eu rhoi ar wefan yr ysgol.

Bob wythnos roedd y plant yn cadw cofnod o'u cynnydd eu hunain – gan geisio gwella ar eu sgôr wythnosol eu hunain, ac roedd y staff yn cadw cofnod o gynnydd cyfartalog y dosbarth. Ar ddechrau'r rhaglen cafwyd cynnydd mawr iawn, ond yn ystod y flwyddyn olaf ni welwyd unrhyw welliant yng nghynnydd y plant, gyda llai nag 1.0 yr wythnos fesul dosbarth ar gyfartaledd.

Ers defnyddio ap negeseuon Schoop i gyhoeddi'r 'Learn it Tasks' fel gwybodaeth sy'n mynd yn uniongyrchol i ffonau a dyfeisiau symudol rhieni/gofalwyr, mae graddfa wella wythnosol pob dosbarth wedi dangos canlyniadau aruthrol fal a ddangosir yn y tabl isod.

Blwyddyn 2	2.3
Blwyddyn 3	3.3
Blwyddyn 4	1.7
Blwyddyn 5	3.1
Blwyddyn 6	7.5

Mae rhieni/gofalwyr wedi dweud eu bod yn teimlo bod y cyfathrebu â'r ysgol yn dda iawn.

Dyma enghraifft o neges (Saesneg yn unig) a anfonwyd drwy ap negeseuon gan Ysgol Gynradd Ynys y Barri, a gafodd ei ganmol gan Estyn am ei 'defnydd rhagorol o'r cyfryngau cymdeithasol' (gweler y 'Ciplun' ar dudalen 18 o brif ddogfen ganllaw YGaTh).

Newsletter Friday 5th June 2015

05/06/2015

Year 5 and 6 had a fantastic opportunity this week to go surfing at Whitmore Bay. The lifeguards taught the children all about beach safety and the dangers to look out for. They learnt about respecting the water and making sensible choices. The children used boards to rescue each other and developed their confidence in [...]

[Read more](#)

Data ar-lein a rhith-amgylcheddau dysgu

Yn ogystal â'r manylion arferol a ddylai fod ar gael drwy'r wefan, mae'n bosibl y bydd ysgolion am ystyried darparu gwybodaeth ar-lein i rieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn. Mae canlyniadau prosiectau yn yr UDA yn awgrymu bod darparu cyfle ar-lein i rieni/gofalwyr weld data ar gynnydd eu plentyn yn gallu ysgogi pobl ifanc i wneud yn well yn yr ysgol uwchradd.

Hwb+ yw llwyfan dysgu Llywodraeth Cymru. Mae'n gwbl ddwyieithog ac yn gallu cynnig ateb unigol y gellir ei addasu ar gyfer pob ysgol yng Nghymru, ac mae'n darparu:

- gwefan ar gyfer y cyhoedd
- offer ystafell ddosbarth rithiol
- hysbysiadau a digwyddiadau
- blogiau, wikis a fforymau
- rhyngwyneb defnyddiwr personol
- y gallu i ddefnyddio Microsoft Office 365 (sy'n cynnwys e-bost Outlook, cynadledda fideo drwy Lync, e-Bortffolio a ffrydio rhaglenni craidd Office gan gynnwys Word, Excel a PowerPoint).

Bydd Hwb+ yn rhoi cyfle i ysgolion danysgrifio ar gyfer darparu cyfrifon i rieni/gofalwyr ar y llwyfan. Bydd hyn yn caniatáu i rieni/gofalwyr gael gafael ar wybodaeth benodol am eu plentyn ac yn cryfhau cysylltiadau rhwng y cartref a'r ysgol ymhellach. Mae Hwb a Hwb+ ar gael yn hwb.cymru.gov.uk.

Cyfathrebu dwyffordd

Peidiwch ag anghofio mai proses ddwyffordd yw cyfathrebu (deialog), a'i fod yn golygu mwy na darparu gwybodaeth yn unig (gweler y diagram ar dudalen 63). Er y bydd gan yr ysgol nifer o negeseuon pwysig i'w trosglwyddo, a phwyntiau i'w nodi gan rieni/gofalwyr, bydd angen bob amser i'r ysgol ystyried beth yw'r ffordd orau o ymateb i negeseuon y rhieni/gofalwyr hefyd.


Un fformat defnyddiol ar gyfer ymateb yw 'Dywedsoch chi – gwnaethon ni' – bydd rhieni/gofalwyr yn dweud yn aml nad yw eu sylwadau wedi cael sylw, er bod yr ysgol wedi gweithredu ar sail y sylwadau, ond heb gwblhau'r ddolen adborth i roi gwybod i'r rhieni/gofalwyr.

Wrth ymateb i rhieni/gofalwyr:

- defnyddiwch fformat priodol – weithiau bydd ymateb o'r un math ar Facebook yn iawn, ond ceir adegau pan fydd angen i chi bostio neges debyg i 'Byddaf yn delio â hyn yn bersonol Mr Smith' a siarad yn bersonol â'r rhiant/gofalwr, neu ymateb dros y ffôn neu drwy lythyr
- ymatebwch o fewn cyfnod priodol – efallai na fydd modd ymateb mor gyflym ag y mae rhieni/gofalwyr yn dymuno ond, os bydd oedi cyn ymateb, bydd yn ddoeth rhoi gwybod i'r rhiant/gofalwr eich bod yn edrych ar y mater
- mae cyfle'n codi – os yw rhiant/gofalwr yn gysylltu â'r ysgol drwyddoch chi, efallai y bydd cyfle i fanteisio ar hyn er mwyn ymgysylltu ag ef ymhellach.

Mae hefyd yn bwysig bod ysgolion yn darparu sianel ar gyfer:

- clywed lleisiau rhieni/gofalwyr – gweler yr adnodd **Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr** (Thema 3: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn
- cwynion gan deuluoedd – gweler yr adnodd **Delio â gwrthdaro a chwynion** (Thema 3: Adnodd 9) yn y pecyn cymorth hwn.



'Mathau o gyfathrebu â rhieni', o Harris a Goodall (2007) *Do Parents Know They Matter?* Adroddiad ymchwil yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd (Saesneg yn unig) (http://library.bsl.org.au/jspui/bitstream/1/3469/1/Engaging%20parents%20and%20raising%20achievement_Alma%20Harris_2007%20.pdf). Wedi'i atgynhyrchu gyda chaniatâd caredig yr awduron.

Gweithgaredd – Ystyried dulliau o gyfathrebu

Diben: myfyrio ar y sianeli cyfathrebu y mae'ch ysgol yn eu defnyddio ar hyn o bryd a sut y gallech fod am eu haddasu.

Pwy ddylai gymryd rhan: staff ysgol, grŵp rhieni/gofalwyr/aelodau'r gymdeithas rhieni ac athrawon, rhieni/gofalwyr, a dysgwyr o bosibl.

Cam 1: Y dulliau presennol

Gan weithio mewn grŵp bach (neu nifer o grwpiau bach), ewch drwy'r tabl (tudalen 65) gan ystyried y gwahanol fathau o wybodaeth y mae angen i'r ysgol eu trosglwyddo, ac enwi'r dulliau cyfathrebu a ddefnyddir ar hyn o bryd.

Cam 2: A yw'n gweithio?

Byddwch yn trafod a yw'r dull presennol yn gweithio. Ystyriwch unrhyw wybodaeth sydd gennych am ddewisiadau teuluoedd o ran cyfathrebu – gweler yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn. Rhowch sgôr am y dull presennol rhwng 0 a 5, gan roi sgôr uchaf o 5 os yw'r negeseuon yn cyrraedd y gynulleidfa arfaethedig AC yn unol â dewisiadau'r teulu A bod y negeseua a'r iaith/tôn yn briodol.

Cam 3: A oes angen i ni newid rhywbeth?

Ar gyfer y meysydd lle rhoddwyd sgôr isel, byddwch yn trafod a oes modd defnyddio'r sianel gyfathrebu bresennol yn fwy effeithiol drwy ei haddasu ychydig (e.e. anfon llythyrau'n gynharach, diweddarau'r rhestr e-bost) neu a fyddai sianel gyfathrebu wahanol neu atodol yn fwy effeithiol. Gwnewch grynodedb o unrhyw newidiadau arfaethedig mewn cynllun gweithredu.

Cam 4: Adrodd yn ôl

Adroddwch yn ôl i deuluoedd am unrhyw newidiadau arfaethedig a gofynnwch am eu barn.

Math o wybodaeth i'w throsglwyddo	Y dull(iau) presennol	Unrhyw broblemau? A oes rhywun heb ei gynnwys? A yw'r wybodaeth yn cyrraedd mewn pryd?	Sgôr 0–5	Sut y gellir cyfathrebu'n well?
Gwybodaeth frys am yr ysgol, e.e. bod yr ysgol yn cau.	Radio lleol, gwefan yr ysgol, Hwb, tectstio, cyfryngau cymdeithasol, gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub, e-bost.			
Hysbysu rhieni/gofalwyr os yw plentyn yn sâl/wedi cael damwain/ am ddigwyddiad penodol.	Ffôn, e-bost, tectstio, ap ar gyfer cyfathrebu preifat dwyffordd fel Schoop a ParentHub.			
Problem yn yr ysgol ynghylch dysgu neu ymddygiad y plentyn.	Cyfarfodydd un i un, ffôn.			
Gwybodaeth wythnosol, e.e. aseiniadau gwaith cartref, nodyn atgoffa, ceisiadau am gymorth/adhoddau/arian/ac ati.	E-bost, tectstio, gwefan yr ysgol, Hwb, rhith-amgylchedd dysgu, cyfryngau cymdeithasol, llythyr yn y bag ysgol, dyddiadur gwaith cartref neu gynlluniwr myfyriwr, gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub.			
Ceisiadau personol am gymorth neu wahoddiadau i weithgareddau ysgol.	Cyfarfodydd wyneb yn wyneb, ffôn, e-bost.			
Gwybodaeth am ddechrau'r flwyddyn ysgol, calendr yr ysgol.	Gwefan yr ysgol, Hwb, e-bost, cyfryngau cymdeithasol, llythyr yn y bag ysgol, gwasanaethau apiau fel Schoop a ParentHub, e-bost.			

Math o wybodaeth i'w throsglwyddo	Y dull(iau) presennol	Unrhyw broblemau? A oes rhywun heb ei gynnwys? A yw'r wybodaeth yn cyrraedd mewn pryd?	Sgôr 0–5	Sut y gellir cyfathrebu'n well?
Cynnydd y plentyn.	Cyfarfodydd un i un, adroddiadau ysgrifenedig, rhith-amgylchedd dysgu, Hwb.			
Gwybodaeth am ffyrdd i deuluoedd gefnogi dysg eu plentyn.	Cyfarfodydd un i un, dyddiadur gwaith cartref neu gynlluniwr myfyriwr, llythyr yn y bag ysgol, gwefan yr ysgol, cyfryngau cymdeithasol, ap fel Schoop, a digwyddiadau a gweithgareddau ysgol.			
Negeseuon am ethos yr ysgol, gan gynnwys y gwerth o ymgysylltu â theuluoedd.	Negeseua rheolaidd, poster, cyfarfodydd un i un, digwyddiadau a gweithgareddau ysgol.			
Arall.				

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 3: Adnodd 6

Ailfeddwl am nosweithiau
rhieni/gofalwyr



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad.
- Ailfeddwl am y cynnwys.
- Ailfeddwl am logisteg.
- Gweithgaredd – Cynnal arolwg ar nosweithiau rhieni/gofalwyr.

Cyflwyniad

Prif bwrpas y pecyn cymorth YGaTh hwn yw cynorthwyo ysgolion yn eu hymdrechion i helpu teuluoedd i gefnogi dysg eu plentyn. Mae nosweithiau rhieni/gofalwyr yn gyfle i ymgysylltu â theuluoedd ar y mater hwn, ond mae hefyd yn bosibl y byddwch chi am ystyried a fyddai newid fformat y trafodaethau hyn yn eich helpu i ymgysylltu'n fwy buddiol â theuluoedd.

Rhaid i ysgolion ddarparu adroddiad blynyddol i rieni/gofalwyr am gynnydd eu plentyn gan gynnwys manylion am gyflawniadau a chynnydd eu plentyn ym mhob Maes Dysgu, a darparu un cyfle o leiaf i rieni/gofalwyr drafod cynnydd eu plentyn ag athro/athrawes⁹. Nid oes rhaid i'r drafodaeth hon fod ar ffurf noson rhieni/gofalwyr, er bod y rhan fwyaf o ysgolion yn cynnal dwy neu ragor o nosweithiau rhieni/gofalwyr bob blwyddyn lle bydd rhieni/gofalwyr yn cwrdd ag aelodau staff i drafod cynnydd y plentyn, gan dreulio rhwng 5 a 15 munud gyda phob athro/athrawes.

Fodd bynnag, mae'n amlwg o edrych ar flogiau a fforymau ar y rhyngwrdd fod rhai athrawon a rhieni/gofalwyr o leiaf yn credu bod nosweithiau rhieni/gofalwyr yn anfoddhaol ac yn achosi straen.

Mae rhai ysgolion yn ailfeddwl am fformat y cyfleoedd y maent yn eu cynnig ar gyfer trafod rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon. Drwy newid fformat a chynnwys y trafodaethau hyn, gellir denu mwy o rieni/gofalwyr yn ogystal â chynnig cyfleoedd gwell i:

- ymgysylltu â theuluoedd i feithrin perthynas gadarnhaol mewn partneriaeth
- trafod cynnydd y dysgwr a'i raglen academaidd ar gyfer y dyfodol – gellir mynd â hyn gam ymhellach a chynnwys y dysgwr a'i deulu wrth osod nodau
- rhoi gwybod i deuluoedd sut y gallant gefnogi'r dysgu hwnnw
- cydweithio i ddelio â materion penodol.

Mae'r adnodd hwn yn cynnwys rhestrau gwirio i'ch helpu i ystyried a fyddwch chi am newid dwy agwedd ar y trafodaethau rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon: y **cynnwys** a'r **logisteg**. Mae barn y teuluoedd yn bwysig hefyd, felly rydym wedi cynnwys gweithgaredd i'w ddefnyddio/addasu i ofyn am farn rhieni/gofalwyr er mwyn cael gwybod beth y mae teuluoedd am ei gael mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr.

⁹ www.legislation.gov.uk/wsi/2011/1943/introduction/made/welsh

Ailfeddwl am y cynnwys

Bydd yr hyn rydych chi'n bwriadu ei gynnwys mewn noson rhieni/gofalwyr, a'r ffordd o'i gyfleu, yn cael effaith ar:

- y graddau y mae teuluoedd yn teimlo eu bod yn cymryd rhan fel partneriaid yn nysg eu plentyn
- y graddau y mae athrawon yn gallu cael gwybodaeth yn ôl gan deuluoedd, e.e. gwybodaeth sy'n gallu helpu athrawon i ddeall yn well y ffactorau sy'n effeithio ar gynnydd y dysgwr unigol
- y graddau y mae dysgwyr a'u teuluoedd yn gallu cymryd rhan wrth fyfyrion ar gynnydd y plentyn ac wrth osod nodau.

Pwrpas y rhestr wirio isod yw'ch helpu i benderfynu ar yr wybodaeth rydych chi am ei rhoi a'i derbyn – wedyn byddwch yn gallu ystyried a yw'r noson rhieni/gofalwyr yn gyfle i wneud hynny, neu a allai fod, neu a oes angen datblygu cyfleoedd eraill.

Cwestiynau i ysgogi myfyrion	Camau i'w cymryd
<p><input type="checkbox"/> Rhoi gwybod am gynnydd academiaidd</p> <p>Pwrpas y noson rhieni/gofalwyr fel arfer yw rhoi gwybod am gynnydd academiaidd. A yw pawb yn gallu deall yr wybodaeth rydych chi'n ei rhoi? A allech chi wneud mwy i helpu teuluoedd i ddehongli'r wybodaeth rydych chi'n ei rhoi iddynt? A yw'r cywair yn briodol? A ydych chi'n helpu teuluoedd i ddeall sut y gallan nhw helpu i ddelio ag unrhyw faterion rydych chi wedi'u nodi o ran cynnydd academiaidd y plentyn? Beth am y ffordd o wneud hynny ar gyfer rhieni/gofalwyr y mae'r Saesneg yn laith Ychwanegol (SIY) iddynt neu sydd â lefel isel o lythrennedd?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Rhoi gwybod beth y mae teuluoedd yn gallu'i wneud</p> <p>A ydych chi neu a ydych chi'n gallu rhoi gwybod i deuluoedd mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr am y pethau gorau iddyn nhw eu gwneud i gefnogi dysgu? (Gweler Cyflwyniad i Thema 4 yn y pecyn cymorth hwn.) A oes ffordd i chi ddarparu'r wybodaeth hon i deuluoedd tra byddan nhw'n aros i weld yr athrawon? Yn achos teuluoedd sydd i'w gweld yn methu â darparu amgylchedd dysgu da yn y cartref, neu lle mae problemau penodol o ran ymddygiad neu bresenoldeb, a ydych chi'n cynnig cyfleoedd eraill i gynnal trafodaethau rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Deall y ffactorau sy'n effeithio ar ddysgwyr unigol</p> <p>A yw'ch trefniadau presennol ar gyfer nosweithiau rhieni/gofalwyr yn rhoi digon o amser a lle i'r rhiant/gofalwr siarad yn agored am ffactorau yn y cartref a allai effeithio ar gynnydd y dysgwr?</p>	

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd
<p>■ Cynnwys dysgwyr a theuluoedd wrth osod nodau</p> <p>Mae rhai ysgolion yn cynnal nosweithiau 'gosod nodau' yn hytrach na nosweithiau rhieni/gofalwyr – gan ddefnyddio dull '<i>Dysgu Gweladwy</i>' (Visible Learning)¹⁰ wedi'i seilio ar ganfyddiadau ymchwil John Hattie. Mae dysgwyr yn cael eu helpu i asesu eu perfformiad eu hunain ac yn dod â'u rhieni/gofalwyr i'r noson gosod nodau lle byddant yn cael cefnogaeth gan athro/athrawes i egluro i'w rhieni/gofalwyr beth maent yn gallu ei wneud, a beth maent yn bwriadu ei gyflawni erbyn diwedd y flwyddyn academaidd. Gan mai'r dysgwyr eu hunain sy'n arwain y noson, gall hyn fod yn ysgogiad mawr i rhieni/gofalwyr gymryd rhan gan gymell dysgwyr hefyd i gymryd cyfrifoldeb dros eu dysgu eu hunain.</p>	
<p>■ Darparu'r wybodaeth a'r adborth y mae rhieni/gofalwyr am eu gweld</p> <p>Mae'n bosibl y bydd rhieni/gofalwyr sy'n dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr am gael gwybodaeth arall, e.e. a yw eu plentyn yn ymddwyn yn dda, sut y mae eu plentyn yn gwneud o'i gymharu â phlant eraill, a yw'r athro/athrawes yn adnabod eu plentyn ac a ydynt yn gallu ymddiried yn yr ysgol i ofalu amdano, a yw problemau ymddygiad yn cael eu trafod yn deg, pam y mae eu plentyn mewn ffrwd is, ac ati – gweler hefyd yr adran Beth y mae rhieni/gofalwyr am ei gael yn yr adnodd Cyrraedd yr holl deuluoedd (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn. Mae hefyd yn bosibl y byddan nhw am roi gwybodaeth i athrawon, neu am drafod materion mwy cyffredinol, fel bwlio. Efallai y byddwch chi am ystyried cynnal arolwg o rieni/gofalwyr (gweler y gweithgaredd ar ddiwedd yr adnodd hwn) i gael gwybod am y mathau o wybodaeth y mae teuluoedd am eu cael neu eu rhoi fel arfer mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr. Efallai y byddwch chi am ystyried hefyd a ydych yn darparu digon o gyfleoedd eraill i deuluoedd godi materion sy'n galw am fwy o amser a lle i'w trafod nag sydd ar gael mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr (gweler y rhestr wirio ar logisteg ar dudalen 72).</p>	
<p>■ Rhoi gwybod am ethos yr ysgol a disgwyliadau o ran ymddygiad</p> <p>A ydych chi neu a ydych chi'n gallu cyfleu negeseuon i deuluoedd mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr am ethos yr ysgol, y gwerth y mae'r ysgol yn ei weld mewn ymgysylltu â theuluoedd, neu ddisgwyliadau'r ysgol o ran ymddygiad a phresenoldeb?</p>	

¹⁰ www.visible-learning.org

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd
<p><input type="checkbox"/> Sgyrsiau anodd</p> <p>Mae'n debygol y bydd angen weithiau i athrawon ddelio â rhieni/gofalwyr sy'n ymwithgar neu'n ymosodol neu gynnal sgysiau anodd â rhieni/gofalwyr mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr. A ydych chi'n darparu digon o hyfforddiant i staff ynghylch delio â sefyllfaoedd o'r fath? (Gweler hefyd yr adnodd Dadansoddiad o anghenion datblygu ar gyfer YGaTh (Thema 2: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn.) A oes proses briodol ar gael i'w dilyn gan staff os bydd sefyllfa anodd yn codi yn ystod noson rhieni/gofalwyr?</p>	

Ailfeddwl am logisteg

Mae logisteg y trafodaethau rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon (e.e. amserlennu, lleoliad, yr amser ar gyfer pob trafodaeth, amllder) yn gallu dylanwadu ar ba deuluoedd fydd yn cymryd rhan, a hefyd ar gynnwys a manylder y trafodaethau y gellir eu cynnal. Mae rhai athrawon wedi nodi mai'r teuluoedd nad ydynt yn dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr yw'r union rai y mae angen cael trafodaeth â nhw. Os felly, mae'n bosibl y bydd angen defnyddio dull gwahanol (ar gyfer y teuluoedd hyn o leiaf). Mae'r logisteg yn cael effaith fawr hefyd ar benderfynu a fydd eich staff yn croesawu neu'n arswydo rhag y ffaith bod noson rhieni/gofalwyr ar fin cael ei chynnal.

Cwestiynau i ysgogi myfyrion	Camau i'w cymryd
<p><input type="checkbox"/> Adborth gan staff</p> <p>Beth yw teimladau'ch athrawon am y fformat presennol? A yw'r noson rhieni/gofalwyr yn brofiad anfodddhaol ac yn achosi straen neu'n brofiad cadarnhaol a buddiol? A ydych chi wedi gofyn i'ch staff am sylwadau ac awgrymiadau am y fformat?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Adborth gan rieni/gofalwyr</p> <p>Os ydych chi'n treialu fformat newydd, a ydych chi wedi gofyn i deuluoedd am adborth ac wedi'i ystyried? A ydych chi wedi rhoi gwybod i deuluoedd sut yr ydych chi'n ymateb i'w hawgrymiadau?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Dyrannu amser</p> <p>Ar ôl penderfynu ar y materion rydych chi am eu cynnwys yn y trafodaethau rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon, a oes angen ailystyried yr amser sy'n cael ei neilltuo (5–15 munud)? A yw'ch teuluoedd yn gwybod bod cyfleoedd eraill ar gael i drafod materion mwy cyffredinol â staff heblaw'r nosweithiau rhieni/gofalwyr?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Amserlennu</p> <p>Beth yw'r gyfradd presenoldeb yn eich nosweithiau rhieni/gofalwyr presennol? A oes rhai teuluoedd sy'n ei chael yn anodd dod iddynt? A fydddech chi'n gallu cael mwy o rieni/gofalwyr yn bresennol drwy newid yr amser? A fydddech chi'n gallu cynnig cymhorthfa galw heibio reolaidd (lle nad oes rhaid i rieni/gofalwyr drefnu apwyntiad) neu gynnig mwy o ddewis o amseroedd i rieni/gofalwyr? A fyddai'n fuddiol i chi gynnal arolwg o rieni/gofalwyr i gael gwybod pa amseroedd a fyddai'n fwyaf addas iddynt?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Man cyfarfod</p> <p>A yw'n bosibl bod y man cyfarfod ar gyfer trafodaethau'n troi rhai teuluoedd i ffwrdd? Mae rhai ysgolion yn cynnal eu nosweithiau rhieni/gofalwyr mewn canolfannau yn y gymuned yn lle'r ysgol, a gall hyn fod o gymorth i ddenu rhieni/gofalwyr sydd wedi cael profiadau negyddol iawn o addysg eu hunain.</p>	

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd
<p><input type="checkbox"/> Cynwysoldeb</p> <p>A ydych chi'n gallu cynnig cymorth ymarferol i helpu rhai grwpiau o rieni/gofalwyr i ddod i nosweithiau rhieni/athrawon (e.e. rhywun i drefnu cludiant iddynt, cyfleuster crèche, sefydlu system cyfeillio ar gyfer teuluoedd sy'n bryderus ynghylch dod i'r ysgol)? A oes angen i chi ddarparu cyfleusterau cyfieithu ar gyfer rhai teuluoedd?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Eu cyfuno â gweithgareddau eraill</p> <p>A ydych chi'n gallu cynnal y noson rhieni/gofalwyr yr un pryd â gweithgaredd arall er mwyn denu mwy o rieni/gofalwyr? Er enghraifft, drwy ei chyfuno â noson goffi wedi'i threfnu gan y grŵp rhieni/gofalwyr, gweithdy teuluoel i hyfforddi rhieni/gofalwyr i addysgu sgiliau darllen penodol i'w plant¹¹, gweithdy Family Learning Signature neu noson gosod nodau?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Polisi drws agored</p> <p>Sut rydych chi'n darparu cyfleoedd eraill ar gyfer trafodaethau rhwng rhieni/gofalwyr ac athrawon? A ydych chi wedi mabwysiadu polisi 'drws agored'? A allwch chi wella'r trefniadau hyn?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Teuluoedd nad ydynt yn cymryd rhan</p> <p>A oes grŵp penodol o deuluoedd nad ydynt byth neu bron byth yn dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr? A fyddwch chi'n cysylltu wedyn â'r teuluoedd nad ydynt yn cymryd rhan i gynnig cyfle arall iddynt? A allech chi ymwneud â'r teuluoedd hyn mewn ffordd wahanol, e.e. ymweld â'r cartref? (Gweler yr adnodd Cyrraedd yr holl deuluoedd (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn.)</p>	

Astudiaeth achos – Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr

Gan fod mwy na 25 y cant o ddysgwyr yr ysgol hon yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim, roedden ni am gryfhau'r cysylltiadau â rhieni a gofalwyr sydd wedi bod yn 'anodd eu cyrraedd' yn y gorffennol. Ar ôl edrych ar y ffigurau presenoldeb ar gyfer nosweithiau ymgynghori â rhieni/gofalwyr a gynhaliwyd yn ddiweddar, gwelsom fod grŵp penodol o rieni/gofalwyr nad oeddent yn dod i'r ysgol ar y nosweithiau hyn. Fel y gellid disgwyl, y rhieni/gofalwyr hyn oedd yr union rai a fyddai'n elwa fwyaf o gael cysylltiadau cryfach â'r ysgol, gan greu mwy o ddeialog a chefnogaeth. Roedden ni hefyd am gyflwyno cyfres o fentrau i ymdrin â llythrennedd oedolion, delio â dyheadau isel a chefnogi dysgu yn y cartref. Er mwyn sicrhau llwyddiant y mentrau hyn, roedd yn hollbwysig ymgysylltu â rhieni.

¹¹ Mae hyfforddi rhieni/gofalwyr i addysgu sgiliau darllen penodol i'w plant yn gallu bod mwy na dwywaith yn fwy effeithiol nag annog rhieni/gofalwyr i wrando ar eu plentyn yn darllen, yn enwedig os cânt eu hyfforddi i ddefnyddio'r un technegau â'r ysgol (e.e. ffonig).

Beth a wnaethom?

Roedden ni wedi sylweddoli'n fuan, os nad oedd rhieni/gofalwyr am ddod aton ni, y byddai'n rhaid i ni fynd atyn nhw. Sefydlwyd 'cymhorthfa galw heibio' o'r enw 'chat@EFLC' gan y Cyfarwyddwr Cynorthwyol Anthony Ager a oedd yn arwain ar fentrau Her Cymru, a hynny yn y Ganolfan Gweithredu Dysgu yng nghanol Glynebwy. Roedd hyn yn golygu bod man cyfarfod gan yr ysgol bob prynhawn Gwener (ar y diwrnod marchnad) lle y gallai rhieni/gofalwyr siarad â rhywun o'r ysgol am unrhyw faterion neu bryderon mewn amgylchedd croesawgar ac anfygythiol. Roedd hefyd yn ffordd i ni gynnig gwybodaeth am wahanol ddigwyddiadau a oedd i'w cynnal a darparu adnoddau dysgu penodol i'w defnyddio yn y cartref. Ers ei sefydlu ddechrau Medi, mae chat@EFLC hefyd wedi croesawu cynrychiolwyr Teuluoedd yn Gyntaf a'r gymdeithas dai leol Tai Calon, sydd yn rhoi cyfle i rieni/gofalwyr drafod materion eraill nad ydynt yn ymwneud â'r ysgol, ond a allai gael effaith negyddol ar les eu plentyn. Drwy weithredu fel hyn, sicrhawyd bod gwahanol weithwyr proffesiynol wrth law bob wythnos sy'n gallu cynnig pob math o gymorth heb i'r rhiant/gofalwr deimlo bod angen trefnu apwyntiad.

Pa wahaniaeth a wnaeth?

Rydyn ni wedi gweld mwy na 60 o rieni/gofalwyr i blant sydd ym mhob un o'r cyfnodau allweddol ers dechrau'r prosiect. Yn ogystal â chynnal yr elfen galw heibio, rydyn ni hefyd yn trefnu apwyntiadau penodol i dargedu rhieni/gofalwyr i ddysgwyr y teimlwn fod angen i ni ymgysylltu â nhw i raddau mwy. O ganlyniad i hyn, mae'r niferoedd sy'n dod i ddigwyddiadau cefnogi eraill wedi codi'n sylweddol. Ymhlith y rhain mae noson sgiliau i rieni/gofalwyr sy'n ceisio gwella lefelau llythrennedd a rhifedd, noson blasu addysg prifysgol sy'n ceisio codi uchelgais, a noson cymorth i adolygu ar gyfer ein dysgwyr Cyfnod Allweddol 4 a'u rhieni/gofalwyr.

Ym Mlwyddyn 11, mae gennym grŵp o 30 o 'ddysgwyr a dargedir'. Drwy ddefnyddio chat@EFLC, rydym wedi gallu cwrdd â rhieni/gofalwyr y dysgwyr hyn a chynnig cefnogaeth benodol i ddysgwyr unigol, gan roi strategaethau ar waith i ddelio â thanberfformiad. Gwelwyd gwelliannau eisoes yn ein data perfformiad diweddaraf.

Yn y dyfodol, byddwn yn parhau i ddefnyddio chat@EFLC i gryfhau ein cysylltiadau â'r gymuned, a hefyd i gynnig cefnogaeth ychwanegol a gwybodaeth i rieni/gofalwyr y dysgwyr yn yr ysgolion sy'n ein bwydo o dan ein rhaglen bontio barhaus.

Manylion cyswllt

Anthony Ager, Cyfarwyddwr Cynorthwyol, Cymuned Ddysgu Ebwy Fawr.

aager@ebbwfawr.co.uk

Gweithgaredd – Cynnal arolwg ar nosweithiau rhieni/gofalwyr

Gweler hefyd yr enghraifft o arolwg o rieni/gofalwyr i'w gynnal mewn noson rhieni/gofalwyr yn yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn.

Diben: casglu gwybodaeth i'w defnyddio i sicrhau bod nosweithiau rhieni/gofalwyr mor fuddiol a chyfleus â phosibl i deuluoedd. Gallech gynnal yr arolwg hwn wrth gât yr ysgol, mewn digwyddiad cymdeithasol yn yr ysgol, neu mewn noson rhieni/gofalwyr neu, fel arall, gallech ei anfon drwy'r e-bost/llythyr yn y bag ysgol. Bydd yn bwysig iawn ceisio casglu barn y teuluoedd hynny nad ydynt yn dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr yn rheolaidd – efallai y bydd angen ymdrech ychwanegol i'w cyrraedd. Er mwyn cadw sylwadau'r rhieni/gofalwyr yn gyfrinachol, byddai'n rhaid i'r arolwg gael ei gynnal gan y grŵp rhieni/gofalwyr neu gymdeithas rhieni ac athrawon.

Pwy ddylai gymryd rhan: staff ysgol (i helpu i addasu/cynllunio'r holiadur), aelodau o'r grŵp rhieni/gofalwyr/cymdeithas rhieni ac athrawon i gynnal yr arolwg, a rhieni/gofalwyr.

Cam 1

Cynllunio a dylunio'r arolwg gyda chyfraniad gan rieni/gofalwyr (drwy'r grŵp rhieni/gofalwyr).

Cam 2

Cynnal yr arolwg, un ai wyneb yn wyneb neu drwy'r e-bost/llythyr, gan gymryd camau ychwanegol i gael ymatebion gan deuluoedd sy'n dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr yn llai aml.

Cam 3

Dadansoddi'r canfyddiadau. Cynnal trafodaethau rhwng y grŵp rhieni/gofalwyr, y pennaeth a staff ysgol eraill am y camau y gellid eu cymryd.

Cam 4

Adrodd yn ôl i staff a theuluoedd ar y canlyniadau a'r camau a gymerir.

Cyflwyniad

Helô. Tybed a allech chi roi ychydig funudau o'ch amser. Fy enw i yw ac rwy'n aelod o'r gymdeithas rhieni ac athrawon. Mae nosweithiau rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnal bob tymor. Rydyn ni am sicrhau bod y rhain mor ddefnyddiol â phosibl i chi. Bydden ni'n falch o gael unrhyw awgrymiadau sydd gennych chi am ffyrdd o wneud y cyfarfodydd hyn yn gyfleus i chi a'ch plant. Beth yw'ch barn chi? Mae'r arolwg hwn yn hollol gyfrinachol.

Cwestiwn 1: Pa mor aml rydych chi'n dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr?

- Bob tro. Weithiau.
- Anaml, os o gwbl.

Cwestiwn 2: Pa mor ddefnyddiol yw'r nosweithiau rhieni/gofalwyr i chi?

- Defnyddiol iawn. Yn iawn.
- Ddim yn ddefnyddiol iawn.

Cwestiwn 3: Amser

Mae nosweithiau rhieni/gofalwyr yn cael eu cynnal fel arfer rhwng 4.00pm a 6.00pm ar ganol tymor yr hydref a thymor yr haf. Pa mor gyfleus yw'r amser hwn i chi?

- Cyfleus. Yn iawn.
- Anghyfleus.

Cwestiwn 4: Gwelliannau posibl

Pe byddai'r ysgol yn cynnig unrhyw rai o'r canlynol, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth **mawr** o ran a fyddech chi'n dod i nosweithiau rhieni/gofalwyr neu beidio? (Ticiwch y blwch i ddangos y byddai'n gwneud gwahaniaeth, rhowch groes i ddangos na fyddai'n gwneud gwahaniaeth, neu ei adael yn wag os na fyddai'n gwneud fawr o wahaniaeth y naill ffordd neu'r llall.)

- | | |
|--|--|
| <input type="checkbox"/> Ei chynnal am 7.00–9.00pm gyda'r nos. | <input type="checkbox"/> Ei chynnal yn neuadd yr eglwys. |
| <input type="checkbox"/> Ei chynnal yn ystod oriau ysgol. | <input type="checkbox"/> Ei chynnal yn y ganolfan gymunedol. |
| <input type="checkbox"/> Dewis o ddyddiadau, teuluoedd yn dewis dau bob blwyddyn. | <input type="checkbox"/> Cyfleusterau crèche. |
| <input type="checkbox"/> Cymhorthfa galw heibio bob mis. | <input type="checkbox"/> Cronfa geir i rannu lifft. |
| <input type="checkbox"/> Ei chynnal mewn ystafelloedd dosbarth yn lle neuadd yr ysgol. | <input type="checkbox"/> Cyfleusterau cyfieithu. |
| | <input type="checkbox"/> Noson goffi yr un pryd. |

Cwestiwn 5: Pa wybodaeth rydych chi am ei chael?

Mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr, pa wybodaeth rydych chi am ei chael gan yr athro/athrawon? A pha fath o wybodaeth rydych chi am ei rhoi i athrawon?

Gwybodaeth rydych chi am ei chael yn ystod nosweithiau rhieni/gofalwyr

Gwybodaeth rydych chi am ei rhoi i athrawon mewn nosweithiau rhieni/gofalwyr

Cwestiwn 6

A ydych chi'n cael yr wybodaeth rydych chi am ei chael/yn rhoi'r wybodaeth rydych chi am ei rhannu ag athrawon yn y nosweithiau rhieni/gofalwyr?

- Bob tro.
- Weithiau.
- Anaml, os o gwbl.

Cwestiwn 7

A oes unrhyw beth arall y byddai'r ysgol yn gallu ei wella yn y trefniadau presennol ar gyfer nosweithiau rhieni/gofalwyr neu a oes gennych chi unrhyw sylwadau eraill i'w rhannu?

Awgrymiadau


Diolch yn fawr i chi. Dychwelwch at erbyn

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd

Thema 3: Adnodd 7

Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau
rhieni/gofalwyr



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Grymuso'ch grŵp rhieni/gofalwyr i ehangu ei gylch gwaith.
- Lleisiau rhieni/gofalwyr a chydgyhyrchu.
- Lleisiau rhieni/gofalwyr a bwlio.
- Diogelu plant.
- Rhagor o ffynonellau cymorth a gwybodaeth.
- Rhestr wirio – Rôl y grŵp rhieni/gofalwyr a gwranddo ar leisiau rhieni/gofalwyr.
- Gweithgaredd – Digwyddiad agored i feithrin perthnasoedd ymysg ysgolion a theuluoedd.
- Rhestr wirio ar gydgyhyrchu – I ba raddau y mae grwpiau'n cymryd rhan mewn penderfyniadau yn eich ysgol ar hyn o bryd?

Grymuso'ch grŵp rhieni/gofalwyr i ehangu ei gylch gwaith

Yn draddodiadol, mae grwpiau rhieni/gofalwyr wedi canolbwyntio ar godi arian a threfnu digwyddiadau cymdeithasol, ond mae pethau eraill y gallant eu gwneud sydd wedi'u dangos isod – gall pob un o'r rhain fod yn werthfawr iawn o ran helpu'r ysgol i gynnwys teuluoedd yn bartneriaid yn nysg eu plentyn.

- **Rhwydweithio** – mae grwpiau rhieni/gofalwyr yn gallu helpu'r ysgol i gyfathrebu â rhwydwaith o rieni/gofalwyr, drwy ledaenu'r gair am rywbeth, wrth gât yr ysgol, neu'n fwy ffurfiol drwy gylchlythyr. Efallai y bydd yn haws iddyn nhw gyrraedd ac ymgysylltu â rhai teuluoedd nag yw hi i'r ysgol. Mae rhai grwpiau rhieni/gofalwyr eisoes yn rhoi'r brif flaenoriaeth i ymgysylltu – y prif bwrpas ym mhob digwyddiad cymdeithasol yw ymgysylltu â'r holl rieni/gofalwyr – ac mae'r codi arian yn digwydd yn naturiol o ganlyniad i hynny.
- **Gwirfoddoli** – mae grwpiau rhieni/gofalwyr yn gallu recriwtio rhieni/gofalwyr i drefnu cymorth a chefnogaeth ar gyfer yr ysgol. Mae llawer ohonynt yn gwneud hyn eisoes ar gyfer digwyddiadau cymdeithasol yn yr ysgol – ond gallai gwirfoddolwyr helpu'r ysgol i redeg gweithgareddau dysgu fel teulu yn yr un modd.
- **Cefnogi dysgu yn y cartref** – mae rhai grwpiau rhieni/gofalwyr yn rhoi mwy o arweiniad na'i gilydd ar gynnwys teuluoedd mewn dysgu, gan ddarparu gwybodaeth a syniadau i deuluoedd am ffyrdd o helpu myfyrwyr yn y cartref, e.e. drwy ddsbarthu gwybodaeth am y cwricwlwm, darparu deunyddiau i deuluoedd i helpu eu plant i ddysgu, neu arwain ar drefnu digwyddiadau dysgu fel teulu.
- **Cefnogi rhianta da** – bydd rhai grwpiau'n darparu gweithdai a gwybodaeth er mwyn meithrin sgiliau rhianta, megis hyfforddi a gosod terfynau, er mwyn helpu teuluoedd i greu amgylchedd da yn y cartref i gefnogi dysgu. Mae rhai ohonynt yn gwneud defnydd o arbenigedd mewn cefnogi rhianta sydd ar gael gan asiantaethau eraill yn y sector cyhoeddus neu'r trydydd sector, neu'n defnyddio dull hunangymorth. Mae cyhoeddiad 2014 Llywodraeth Cymru *Rhianta yng Nghymru: Canllawiau ar ymgysylltiad a chymorth*¹² yn cynnwys llawer o wybodaeth ddefnyddiol am yr arferion gorau ar gyfer cefnogi rhianta.

¹² www.gov.wales/topics/people-and-communities/people/children-and-young-people/parenting-support-guidance/?lang=cy

- **Penderfyniadau** – mae rhai grwpiau'n canolbwyntio ar gynnwys rhieni/gofalwyr mewn penderfyniadau yn yr ysgol, a gadael i 'lleisiau rhieni/gofalwyr' gael eu clywed – elfen hanfodol mewn strategaeth YGaTh lwyddiannus.
- **Cydweithio â'r gymuned** – mae llawer o grwpiau'n estyn allan at fusnesau a sefydliadau lleol ac yn denu adnoddau a gwasanaethau o'r gymuned i gryfhau ysgolion. Gallant roi help hefyd i ddatblygu prosiectau mewn partneriaeth â'r gymuned sy'n canolbwyntio ar ddeilliannau dysgu i blant.

I grynhoi, gall ysgolion gael llawer o gymorth gan grŵp rhieni/gofalwyr gweithgar gan ei fod:

- yn gallu gwneud defnydd o rwydweithiau rhieni/gofalwyr i gyrraedd teuluoedd y mae'r ysgol yn ei chael yn anodd ymgysylltu â nhw fel arall
- wedi ffurfio llawer o gysylltiadau â chyrrff yn y gymuned
- yn gallu darparu systemau cyfeillio, cronfeydd ceir a gwasanaethau cyfieithu i ddenu teuluoedd sydd wedi'u tangynrychioli i'r ysgol
- mewn lle da i gynllunio mentrau ymgysylltu o safbwynt y teuluoedd
- yn cyfrannu egni ac adnoddau i ddatblygu a rhedeg digwyddiadau cymdeithasol
- am fod 'pellter' rhyngddo a'r ysgol sy'n ddefnyddiol ar gyfer codi pontydd at deuluoedd sy'n llai hyderus neu'n bryderus ynghylch ymgysylltu â'r ysgol.

“ The parent council we set up nearly a year ago now has changed over the short time it has been running. At the meetings, they discuss how to reach other parents and carers who don't often attend by finding out what might attract them into school ... They are very good at networking now and providing us with information we need to organise suitable social and other family learning events.”

Dirprwy bennaeth, ysgol gynradd, yr Alban

Lleisiau rhieni/gofalwyr a chydgyhyrchu

Mae cydgyhyrchu'n ffordd o sicrhau gwell canlyniadau drwy rannu grym a chyfrifoldeb. Wrth gydgyhyrchu, bydd yr holl randdeiliaid yn cymryd rhan mewn cynllunio a datblygu gwasanaethau. Mae'n fwyfwy poblogaidd fel ffordd o gynnwys yr holl bartïon ym mhroses gynllunio'r ysgol.

Er mwyn cychwyn arni, gallech ddefnyddio'r rhestr wirio ar gyfer cydgyhyrchu ar ddiwedd yr adnodd hwn i ganfod i ba raddau y mae grwpiau penodol yn cymryd rhan eisoes mewn penderfyniadau yn eich ysgol. Mae rhagor o wybodaeth am gydgyhyrchu (Saesneg yn unig) ar gael yn www.coproductionnetwork.com/page/about-coproduction a www.timebanking.org/about/coproduction-and-timebanking.

Lleisiau rhieni/gofalwyr a bwlio

Mewn adroddiad diweddar¹³ gan Estyn rhoddwyd pwyslais ar y rhan y mae rhieni/gofalwyr yn gallu ei chwarae wrth helpu ysgolion i ddatblygu eu dull o fynd i'r afael â bwlio. Mae'n argymhell bod ysgolion:

A1 yn codi ymwybyddiaeth am fwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig gyda disgyblion, rhieni, staff, a llywodraethwyr

A2 yn ymgynghori â disgyblion, rhieni, a phobl eraill i nodi graddau a natur bwlio yn yr ysgol a chytuno ar gynnwys cynlluniau cydraddoldeb strategol.

Mae'r astudiaeth achos ar dudalen 82 yn dangos sut y gellir cynnwys rhieni/gofalwyr.

Diogelu plant

Mae'n hanfodol eich bod yn dilyn canllawiau ar ddiogelu plant ac yn cynnal asesiadau risg priodol wrth redeg gweithgareddau lle mae rhieni/gofalwyr yn gweithio gyda dysgwyr neu wrth agor yr ysgol i aelodau o'r gymuned.

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru (2015) ar ddiogelu plant mewn ysgolion – *Cadw dysgwyr yn ddiogel* – ar gael ar wefan Llywodraeth Cymru yn www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/keeping-learners-safe/?lang=cy. Mae *Canllaw Arfer Dda Estyn ar ddiogelu* ar gael yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/gwybodaeth-am-arolygiadau/esbonio-arolygu/diogelu.

Rhagor o ffynonellau cymorth a gwybodaeth

Mae PTA UK yn rhwydwaith o gymdeithasau rhieni yn y DU ac mae'n darparu deunyddiau i gynorthwyo cymdeithasau rhieni ac athrawon. Mae ei wefan yn www.pta.org.uk.

Mae'r Alban wedi cynhyrchu nifer o adnoddau i helpu ysgolion i sefydlu cyngor rhieni. Prif bwrpas cynghorau rhieni yw sicrhau bod modd clywed lleisiau rhieni/gofalwyr wrth wneud penderfyniadau yn yr ysgol. Mae canllawiau ar gael (Saesneg yn unig) yn www.scotland.gov.uk/Publications/2007/08/09153454/9. Mae'r Safonau Cenedlaethol ar gyfer Ymgysylltu â'r Gymuned sydd wedi'u datblygu gan Weithrediaeth yr Alban yn cynnwys arferion da a allai fod yn ddefnyddiol ac sydd ar gael yn www.gov.scot/Resource/Doc/94257/0084550.pdf (Saesneg yn unig).

Mae PTO Today yn sefydliad ar gyfer grwpiau rhieni yn yr UDA sydd wedi llunio canllaw (Saesneg yn unig) o'r enw *Parent Involvement Toolkit* (www.ptotoday.com/parent-involvement). Canllaw ar gyfer sefydliadau rhieni ac athrawon yn yr UDA yw hwn ac mae'n cynnwys 'The 10 traits of highly effective parent groups' yn ogystal â nifer o awgrymiadau am ffyrdd o ddenu mwy o rieni i gymryd rhan mewn grwpiau rhieni ac ym mywyd yr ysgol.

¹³ www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/315942.9/Gweithredu%20ar%20fwlio%20-%20Mehefin%202014/?navmap=30,163

Astudiaeth achos: Ysgol Gynradd Maindee yn hyrwyddo dealltwriaeth o hil yn llwyddiannus mewn tirwedd ddiwylliannol sy'n newid

Mae'r astudiaeth achos hon yn dod o gyhoeddiad Estyn *Gweithredu ar fwlio: Adolygiad o effeithiolrwydd y camau a gymerir gan ysgolion i fynd i'r afael â bwlio ar sail nodweddion gwarchoddedig disgyblion (2014)* sydd ar gael yn www.estyn.gov.uk/cymraeg/docViewer-w/315942.9/Gweithredu%20ar%20fwlio%20-%20Mehefin%202014/?navmap=30,163.

Cyd-destun

Mae Ysgol Gynradd Maindee yng Nghasnewydd. Mae'r ysgol yn darparu ar gyfer disgyblion rhwng tair ac un ar ddeg oed. Mae tua 430 o ddisgyblion ar y gofrestr ar hyn o bryd, gan gynnwys tua 64 o ddisgyblion yn y dosbarthiadau meithrin. Mae gan ryw 32% o ddisgyblion hawl i gael prydau ysgol am ddim. Mae'r ysgol wedi nodi bod gan ryw 17% o ddisgyblion anghenion dysgu ychwanegol. Daw tua 89% o ddisgyblion o gefndir ethnig lleiafrifol. Caiff lleiafrif o ddisgyblion gymorth ar gyfer Saesneg fel iaith ychwanegol.

Strategaeth

Mae'r ysgol yn adnabyddus yn yr ardal am ei gwaith yn hyrwyddo cydlyniad cymunedol ac mae'n croesawu plant o gefndiroedd amlddiwylliannol. Yn draddodiadol, mae tua 85% o ddisgyblion wedi dod o gefndiroedd Asiaidd, gan amlaf Pacistanaid neu Fangladeshaid. Yn ddiweddar, mae poblogaeth yr ysgol wedi newid. Ar hyn o bryd, daw chwarter o boblogaeth yr ysgol o deuluoedd o Ddwyrain Ewrop, a'r grŵp mwyaf yw Roma. Mae medrau'r disgyblion hyn sy'n cyrraedd yr ysgol yn gyfyngedig mewn Saesneg. Mae'r ysgol wedi nodi bod angen mynd i'r afael â'r newid diwylliannol o ran y disgyblion y mae'n eu derbyn. Mae arweinwyr wedi gweithio gyda'i hail genhedlaeth o rieni Asiaidd i ddatblygu dealltwriaeth o ddiwylliant a thraddodiadau Romani.

Gweithredu

Mae'r ysgol yn trefnu boreau coffi a sesiynau gwybodaeth i rieni o lawer o wahanol ddiwylliannau. Mae cyfieithwyr wrth law i gynorthwyo rhieni mewn saith iaith wahanol.

Ochr yn ochr â gwaith i ddathlu diwylliant a gwyliau Asiaidd, mae'r ysgol wedi gweithio i ddatblygu dealltwriaeth ar y cyd o ddiwylliant Romani. Roedd gŵyl ddiweddar yn cynnwys ceffyl a 'varda'¹⁴ yn ymgartrefu ar gae'r ysgol. Mynychodd disgyblion weithdai i archwilio agweddau ar ddiwylliant Romani, gan gynnwys arteffactau a thraddodiadau.

Yn niwylliant Romani, caiff bechgyn yn arbennig eu hannog i ddatrys eu dadleuon eu hunain yn gorfforol, ac ysgwyd llaw wedyn. Nid yw hyn yn dderbyniol yn yr ysgol. Felly, mae'r ysgol yn esbonio cyfiawnder adferol i rieni a disgyblion fel eu bod yn dysgu bod disgyblion, gyda chymorth oedolion, yn siarad a mynegi eu teimladau i ddatrys anghydfod. O bryd i'w gilydd, bu angen i arweinwyr yr ysgol alw ar rieni i ddod i'r ysgol i'w hatgoffa'n benodol am ei rheolau ar ddatrys anghydfod. Mae gan yr ysgol systemau clir a chyson i ddelio ag achosion o fwlio a adroddir neu a welir. Pan fydd achosion yn peri pryder, mae'r ysgol yn gwahodd rhieni i'r ysgol i drafod ymddygiad eu plentyn. Mae'r ysgol yn darparu cyfieithwyr i gynorthwyo'r cyfarfodydd hyn.

¹⁴ Wagen neu garafán sipi.

Deilliannau

Mae'r ysgol wedi sefydlu ethos cyfoethog a chynhwysol sy'n dathlu cydraddoldeb ac amrywiaeth yn dda. Mae'r grŵp Saesneg i Siaradwyr Ieithoedd Eraill (SSIE) yn cynorthwyo rhieni i ddatblygu dealltwriaeth o system addysg Cymru yn effeithiol. Mynychodd naw deg saith o rieni y bore gwybodaeth diweddaraf.

Mae gan ddisgyblion gwricwlwm cyfoethog ac amrywiol sy'n cynnwys agweddau ar lawer o wahanol ddiwylliannau a thraddodiadau.

Dywed disgyblion mai ychydig iawn o achosion o fwlio a geir. Maent yn hyderus y bydd staff yn datrys unrhyw achos o alw enwau neu ymosodedd corfforol yn gyflym ac yn effeithiol. Mae staff yn wybodus am y nodweddion gwarchoddedig. O ganlyniad, maent yn agored a gonest wrth ddelio â disgyblion ac ymateb i'w cwestiynau a'u trafodaethau. Maent yn rhagweithiol wrth ddelio â bwlio.

Rhestr wirio – Rôl y grŵp rhieni/gofalwyr a gwrando ar leisiau rhieni/gofalwyr

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd
<p><input type="checkbox"/> Awydd rhieni/gofalwyr i ymuno â'r grŵp rhieni/gofalwyr presennol</p> <p>A yw'ch grŵp yn fywiog ac yn cynnwys y rhan fwyaf o rieni/gofalwyr, neu a yw'n ei chael yn anodd denu digon o rieni/gofalwyr i wirfoddoli? Os mai'r olaf sy'n wir, a ydych chi neu nhw wedi ceisio cael gwybod gan deuluoedd pam nad ydynt wedi gwirfoddoli, ac wedi ystyried yn fanwl sut y gallai'r grŵp newid ei fformat i apelio at fwy o deuluoedd? A fyddai'n fanteisiol cael grŵp mwy o wirfoddolwyr sy'n llai ffurfiol ac yn helpu'n fwy achlysurol, yn hytrach na grŵp llai a mwy ffurfiol sydd wedi ymrwymo i gymryd rhan mewn nifer mawr o gyfarfodydd a digwyddiadau?</p>	
<p><input type="checkbox"/> Natur gynhwysol y grŵp rhieni/gofalwyr</p> <p>A yw aelodaeth y grŵp rhieni/gofalwyr presennol yn adlewyrchiad da o'r corff cyfan o rieni/gofalwyr? A oes cynrychiolwyr o'r grwpiau o deuluoedd rydych chi'n eu targedu? (Gweler yr adnodd Cyrraedd yr holl deuluoedd (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn.)</p>	
<p><input type="checkbox"/> Cylch gwaith y grŵp rhieni/gofalwyr</p> <p>A yw'ch grŵp rhieni/gofalwyr wedi ymgynghori â rhieni/gofalwyr ar y blaenoriaethau y dylai eu mabwysiadu? A yw'r ysgol am gymell a grymuso'r grŵp rhieni/gofalwyr i ganolbwyntio ar unrhyw rai o'r canlynol?</p> <ul style="list-style-type: none"> • Ymgysylltu â'r holl rieni/gofalwyr. • Helpu'r ysgol i ymgysylltu â'r teuluoedd y mae'n eu targedu sy'n anodd eu cyrraedd fel arall. • Trefnu digwyddiadau dysgu fel teulu a gweithdai rianta. • Trefnu gwaith gwirfoddol. • Cynnwys rhieni/gofalwyr mewn penderfyniadau yn yr ysgol (e.e. helpu'r ysgol i ymgynghori ar faterion penodol, neu sicrhau bod lleisiau rhieni/gofalwyr yn cael eu clywed yng nghyfarfodydd y llywodraethwyr a chyfarfodydd â staff ysgol). • Ymgysylltu â'r gymuned. 	

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd
<p>Cefnogi a grymuso'r grŵp rhieni/gofalwyr</p> <p>Os yw'r grŵp rhieni/gofalwyr yn ystyried ehangu ei gylch gwaith, a ydych chi'n gallu cynnig unrhyw gefnogaeth neu gyfleoedd dysgu i'w helpu? A oes unrhyw gyfleoedd dysgu proffesiynol (e.e. yn ymwneud ag YGaTh) y gellid eu cynnig i aelodau'r grŵp? (Gweler hefyd yr adnodd Dadansoddiad o anghenion datblygu ar gyfer YGaTh (Thema 2: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn.)</p>	
<p>Lleisiau rhieni/gofalwyr</p> <p>A yw'ch grŵp rhieni/gofalwyr yn sianel ar gyfer teuluoedd i godi materion gyda'r ysgol, neu a allai weithredu felly? A ydyn nhw neu a allen nhw helpu i ymgynghori ar faterion penodol (fel y cynllun datblygu ysgol – gweler yr adnodd Cynlluniau datblygu ysgol (Thema 1: Adnodd 1) yn y pecyn cymorth hwn) – neu sicrhau bod lleisiau rhieni/gofalwyr yn cael eu clywed yng nghyfarfodydd llywodraethwyr ac mewn cyfarfodydd â staff ysgol?</p> <p>Yn fwy cyffredinol, ystyriwch y canlynol.</p> <ul style="list-style-type: none"> • A yw teuluoedd yn ymwneud â phenderfynu beth fydd testunau'r trafodaethau/ymgyngoriadau? • A yw'r holl deuluoedd yn cael cyfle i gyfrannu/a yw'r holl deuluoedd yn gallu cymryd rhan mewn ffyrdd sy'n hwylus iddynt? • A yw gwybodaeth ar gael yn yr ieithoedd a siaredir gan deuluoedd yn yr ysgol neu a yw teuluoedd yn gwybod eu bod yn gallu cael gafael ar gyfieithwyr? • A yw teuluoedd yn gallu cyfrannu mewn ffyrdd gwahanol, e.e. tecstio, e-bost, llythyr, dros y ffôn? • Sut y bydd pobl yn gwybod a yw eu barn a'u syniadau wedi arwain at newidiadau? 	

Gweithgaredd – Digwyddiad agored i feithrin perthnasoedd ymysg ysgolion a theuluoedd

Diben: cam cyntaf tuag at feithrin perthnasoedd ymysg ysgolion a theuluoedd yn ogystal â chasglu syniadau a gwybodaeth oddi wrth gymuned yr ysgol ar fater penodol. Gellir defnyddio'r broses hon i:

- ymchwilio i ganfyddiadau yng nghymuned yr ysgol o fater penodol
- ennill cefnogaeth i ymdrechion ar gyfer gwella yn y dyfodol
- dechrau gwahodd aelodau o deuluoedd a'r gymuned i gymryd rhan fel partneriaid mewn ymdrechion yn y dyfodol
- helpu i greu'r teimlad bod yr ysgol yn groesawgar ac yn ymddiddori ym mhrofiad a chredoau pawb sy'n byw ac yn gweithio yng nghymuned yr ysgol.

Os oes angen gwybodaeth neu gyfraniad arnoch chi ar bwnc sy'n wahanol i'r un a awgrymwyd, dyfeisiwch gwestiynau newydd i ailgyfeirio'r gweithgaredd hwn. Efallai y byddwch chi am ystyried cynnal y gweithdy hwn ar gyfer un o'r grwpiau o deuluoedd rydych chi'n eu targedu.

Pwy ddylai gymryd rhan: aelod(au) o'r gymuned, aelodau o deuluoedd a dysgwyr, pennaeth yr ysgol, staff addysgu a staff nad ydynt yn addysgu, cynrychiolwyr y gymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr arall.

Cam 1

Dewiswch bwnc i gychwyn trafodaethau a fydd yn eich galluogi i ddod i adnabod eich teuluoedd yn well, e.e. 'Beth rydyn ni am ei gael ar gyfer ein dysgwyr'. Galwch gyfarfod i deuluoedd gan ofalu bod y grŵp yn gynrychiadol (nid y teuluoedd sydd eisoes yn ymwneud â'r ysgol yn unig) – gweler yr adnodd **Cyrraedd yr holl deuluoedd** (Thema 3: Adnodd 3) yn y pecyn cymorth hwn.

Trefnwch y cyfarfod fel ei fod yn anffurfiol, yn gyfeillgar ac yn gynhwysol. Estynnwch wahoddiad i staff yr ysgol, aelodau o deuluoedd, dysgwyr ac aelodau o'r gymuned. Gofalwch eich bod yn manteisio ar y cysylltiadau sydd gan aelodau o'r grŵp rhieni/gofalwyr yn y gymuned. Ystyriwch ddefnyddio 'system cyfeillio'. Cofiwch ddarparu lluniaeth.

Cam 2

Rhannwch y cyfranogwyr yn grwpiau o bedwar neu bump a rhowch gwestiwn i'w drafod i bob grŵp, e.e. 'Beth rydyn ni am ei gael ar gyfer ein dysgwyr?'. Dewch o hyd i ffyrdd o gychwyn y drafodaeth ym mhob grŵp a gadewch i bawb ddweud ei farn.

Cam 3

Gofynnwch i bob grŵp o bedwar neu bump ymuno ag ail grŵp a thrafod y cwestiwn hwn eto. Gofynnwch i'r ail grŵp gofnodi beth y maen nhw wedi'i drafod a'i glywed ar bapur siart a'i osod ar y wal.

Cam 4

Gofynnwch i'r ail grŵp a ydyn nhw wedi clywed rhywbeth na fyddent wedi'i ystyried cyn cael y drafodaeth hon, a chofnodwch yr ymatebion ar bapur siart a'i osod ar y wal.

Cam 5

Rhowch ddigon o amser i bawb gymysgu fel eu bod yn gallu rhannu'r syniadau.

Cam 6

Dewch â phawb yn ôl at ei gilydd a gofyn a ydyn nhw wedi gweld patrymau neu themâu cyffredin yn yr holl drafodaethau. Cofnodwch yr ymatebion hyn ar bapur siart a'i osod ar y wal. Gallech gynnal trafodaeth ddilynol, e.e. 'Sut y byddai'r ysgol a theuluoedd yn gallu cydweithio?'

Cam 7

Diolchwch i bawb am ddod, estynnwch wahoddiad iddyn nhw gymryd rhan ym mywyd yr ysgol, a dweud beth yr hoffech chi ei weld yn digwydd nesaf. (Gallech chi gasglu gwybodaeth ddefnyddiol drwy holiadur rhieni/gofalwyr – gweler yr adnodd **Dod i adnabod eich teuluoedd** (Thema 3: Adnodd 2) yn y pecyn cymorth hwn). Dewch â'r cyfarfod i ben.

Cam 8

Gofalwch eich bod yn rhannu adroddiad sy'n nodi'r prif bwyntiau a godwyd yn yr ymatebion ac yn y cyfarfod yn gyffredinol.

Cam 9

Manteisiwch ar y momentwm sydd wedi'i greu. Estynnwch wahoddiad i deuluoedd i gyfle arall i gymryd rhan ym mywyd yr ysgol.

Rhestr wirio ar gydgynhyrchu – I ba raddau y mae grwpiau'n cymryd rhan mewn penderfyniadau yn eich ysgol ar hyn o bryd?

Nodwch i ba raddau y mae pob un o'r grwpiau isod wedi'i gynnwys yn y broses benderfynu.						
Natur y penderfyniad	Er enghraifft, datblygu cynllun datblygu ysgol.					
	Heb ei gynnwys/eu cynnwys ar hyn o bryd	Yn cael ei/eu hysbysu am benderfyniadau	Gofynnir iddo/iddynt roi sylwadau ar ôl gwneud y penderfyniad	Ymgynghorir ag ef/â nhw drwy arolwg, holiadur, ac ati	Yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio	Yn cymryd rhan mewn cyfarfodydd cynllunio a thystiolaeth ei fod wedi eu bod wedi dylanwadu ar benderfyniadau
Cymdeithas rhieni ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Y rhieni/gofalwyr i gyd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Cyngor ysgol	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Y dysgwyr i gyd	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Grwpiau yn y gymuned	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nodwch pa grwpiau yn y gymuned.						
Asiantaethau eraill	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>
Nodwch pa asiantaethau.						

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 3: Adnodd 8 Costau addysg



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys.

- Cyflwyniad.
- Nodyn am y rheoliadau.
- Gweithgaredd – A allwn ni leihau'r perygl i gostau fod yn rhwystr rhag ymgysylltu â theuluoedd?

Cyflwyniad

Gall y costau y mae ysgolion yn eu gosod ar deuluoedd fod yn destun pryder mawr i rieni/gofalwyr ac arwain at ynysu plant, a'u stigmatiddio weithiau, os nad yw eu teuluoedd yn gallu cwrdd â'r costau hyn.

Gall y costau hyn fod yn rhwystr hefyd rhag ymgysylltu â theuluoedd gan eu bod yn gallu suro perthnasoedd rhwng y cartref a'r ysgol ac atal teuluoedd rhag dod i ddigwyddiadau cymdeithasol yn yr ysgol a gweithgareddau eraill ar gyfer ymgysylltu.

Mae pob un o'r canlynol yn gallu arwain at gostau i deuluoedd (nid yr ysgol sy'n gosod pob un ohonynt):

- gwisg ysgol
- prydau ysgol
- byrbrydau yn yr ysgol
- tripiâu ysgol yn ystod oriau ysgol gan gynnwys digwyddiadau arbennig fel trip i'r sinema ar ddiwedd y tymor
- tripiâu preswyl yr ysgol
- deunyddiau sydd eu hangen yn yr ystafell ddosbarth (deunydd ysgrifennu, dillad addysg gorfforol, bagiau, yn ogystal â deunyddiau ar gyfer gwersi penodol fel coginio, celf a chrefftau)
- deunyddiau a chyfarpar yn y cartref sydd eu hangen i wneud gwaith cartref
- llyfrau adolygu
- deunyddiau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwricwlar (offer chwaraeon ychwanegol, teithio i ddigwyddiadau, offerynnau cerddorol)
- cludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol a gweithgareddau ysgol y tu allan i oriau
- dillad/gwisgoedd ar gyfer digwyddiadau arbennig yn yr ysgol
- costau dod i ddigwyddiadau cymdeithasol, ac eitemau sydd ar werth mewn digwyddiadau o'r fath (e.e. tocynnau raffl, lluniaeth).

Mae arolwg o rieni a gomisiynwyd gan undeb athrawon yr NASUWT wedi canfod bod:

- 33 y cant yn credu bod gwisgoedd ysgol yn anfforddiadwy
- 36 y cant yn credu bod costau am ymweliadau addysgol yn anfforddiadwy
- 20 y cant yn credu bod y gost am gyfarpar ysgol yn anfforddiadwy.

Nodyn am y rheoliadau

Mae Llywodraeth Cymru wedi darparu canllawiau i gyrff llywodraethu ar eu polisi codi tâl sydd ar gael ar-lein yn www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/guidance/chargingforschoolactivities/?lang=cy. Nodir rhai o'r pwyntiau y mae'r canllawiau'n tynnu sylw atynt isod.

Ni chaiff ysgolion osod tâl am addysg neu ymweliadau sy'n digwydd yn llwyr neu'n bennaf yn ystod oriau ysgol neu sy'n rhan o'r cwricwlwm.

Os cynigir gweithgaredd y tu allan i'r diwrnod ysgol ac os nad yw'n rhan o'r cwricwlwm, ni chaiff ysgolion godi tâl oni bai fod polisi codi tâl y corff llywodraethu'n caniatáu hynny.

Dylai ysgolion ystyried costau bwyd a llety ar dripiâu preswyl ac a ydynt yn fforddiadwy er mwyn sicrhau nad yw tripiâu preswyl yn rhy ddrud i'r rhan fwyaf o deuluoedd y disgyblion.

Mae disgyblion sydd â'u rhieni/gofalwyr yn derbyn gwahanol fudd-daliadau (gan gynnwys y Credyd Cynhwysol) yn gallu hawlio bwyd a llety am ddim ar dripiâu preswyl.

Efallai y bydd ysgolion am arfer eu disgrisiwn a pheidio â chodi rhan neu'r cyfan o'r tâl am eitemau ychwanegol dewisol ar gyfer teithiau, am ddeunyddiau, llyfrau, offerynnau a chyfarpar o dan amgylchiadau penodol lle mae teuluoedd ar incwm isel yn cael trafferth talu am eitemau o'r fath.

Gweithgaredd: A allwn ni leihau'r perygl i gostau fod yn rhwystr rhag ymgysylltu â theuluoedd?

Diben: cael darlun o gostau sy'n gysylltiedig â'r ysgol y gofynnir i'ch teuluoedd eu talu, ac ystyried a ellir lleihau'r rhain ar gyfer rhai teuluoedd neu bob un ohonynt.

Pwy ddylai gymryd rhan: un neu ragor o lywodraethwyr, staff ysgol a chynrychiolwyr y gymdeithas rhieni ac athrawon/gofalwyr ac athrawon neu grŵp rhieni/gofalwyr arall. Grŵp ehangach o rieni/gofalwyr a dysgwyr o bosibl.

Cam 1

Gan weithio mewn grwpiau bach, dilynwch y templed ar dudalennau 93 i 95 (neu amrywiad arno) i amcangyfrif y swm (mwyaf) y gallai teulu ei dalu dros un plentyn bob blwyddyn.

Wedyn adiwch yr amcangyfrifon hyn – beth fydd y cyfanswm ar gyfer un neu ddau o blant? A ydych chi'n teimlo bod hyn yn fforddiadwy i deuluoedd sydd ar incwm cyfartalog? Ac i deuluoedd tlotach?

Credir bod tua 200,000 o blant (un ym mhob tri) yng Nghymru'n byw mewn tlogi, ac mai llai na hanner y rhain y gellir eu hadnabod am eu bod yn gymwys i gael prydau ysgol am ddim. Amcangyfrifwyd bod gan 100,000 o'r plant sy'n byw mewn tlogi o leiaf un rhiant/gofalwr sydd mewn gwaith.

Cam 2

Nesaf, llenwch yr ail a'r drydedd golofn yn y tabl. Ystyriwch beth rydych chi'n ei wneud eisoes i gadw costau'n isel i'r holl deuluoedd ac i deuluoedd tlotach. A oes rhywbeth arall y gallech ei wneud?

Cam 3

Yn olaf, cynhaliwch drafodaeth fwy cyffredinol am eich syniadau am y gweithgaredd, a sut rydych chi'n bwriadu bwrw ymlaen ag unrhyw gamau gweithredu a nodwyd.

Cost bosibl	Amcangyfrif o'r swm mwyaf y gallai teulu ei dalu diros un plentyn mewn un flwyddyn ysgol	A ydyn ni, neu a allen ni, leihau'r costau a osodir i'r HOLL deuluoedd? (Enghreifftiau o gwestynau i'w gofyn.)	A ydyn ni, neu a allen ni, leihau effaith y costau ar deuluoedd ISEL EU HINCWM? (Enghreifftiau o gwestynau i'w gofyn.)
Gwisg ysgol	Er enghraifft: faint yw chwe chrys chwys ysgol â logo?	<ul style="list-style-type: none"> • A allwn ni lacio'r rheolau ynghylch siaced ysgol? • A allwn ni ddarparu logos i'w gwnio yn eu lle gan y rhieni/gofalwyr? • A allwn ni gynnal arwerthiant gwisgoedd ysgol ail-law? 	<ul style="list-style-type: none"> • A allwn ni hysbysebu'r Grant Gwisg Ysgol yn well?
Prydau ysgol, byrbrydau yn yr ysgol	Er enghraifft: £440 am brydau bwyd, £195 am fyrbrydau @£1 y diwrnod.	<ul style="list-style-type: none"> • A ydyn ni'n fodlon ar y byrbrydau sydd ar werth? 	<ul style="list-style-type: none"> • A allwn ni hysbysebu prydau ysgol am ddim yn well? • A allwn ni leihau'r stigma o gael prydau ysgol am ddim, e.e. drwy system nad yw'n defnyddio arian parod?
Cyfraniadau gwirfoddol am dripiau yn amser yr ysgol gan gynnwys rhai arbennig fel trip diwedd tymor i'r sinema	Er enghraifft: £10 am fysiau ysgol, £8 am y panto, £4 am y sinema, £3 o gyfraniad at y parti.	<ul style="list-style-type: none"> • A ddylen ni ailfeddwl am y tripiâu rydyn ni'n eu cynnig fel eu bod yn llai drud ac felly'n galw am gyfraniadau llai? 	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'n glir mai cyfraniadau gwirfoddol yw'r rhain yn hytrach na chostau gorfodol? • A yw teuluoedd yn gallu dewis peidio â thalu cyfraniadau heb y perygl i ddyn nhw/eu plentyn gael ei stigmatiddio?
Tripiâu ysgol preswyl	Er enghraifft: £800 am drip sgio.	<ul style="list-style-type: none"> • A ddylen ni ailfeddwl am y tripiâu rydyn ni'n eu cynnig fel eu bod yn llai drud ac yn fwy cynhwysol? 	<ul style="list-style-type: none"> • A yw'r holl ddysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim yn gwybod y gall yr ysgol/awdurdod lleol dalu eu ffioedd? • A allwn ni sybsideiddio costau ar gyfer dysgwyr eraill?

Cost bosibl	Amcangyfrif o'r swm mwyaf y gallai teulu ei dalu dros un plentyn mewn un flwyddyn ysgol	A ydyn ni, neu a allen ni, leihau'r costau a osodir i'r HOLL deuluoedd? (Enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn.)	A ydyn ni, neu a allen ni, leihau effaith y costau ar deuluoedd ISEL EU HINCWM? (Enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn.)
Deunyddiau sydd eu hangen yn yr ystafell ddosbarth (deunydd ysgrifennu, dillad addysg gorfforol, bagiau, yn ogystal â deunyddiau ar gyfer gwersi penodol fel coginio, celf a chrefftau)	Er enghraifft: £10 am ddeunydd ysgrifennu, £50 am esgidiau ymarfer, £10 am grys addysg gorfforol.	<ul style="list-style-type: none"> • A ydyn ni'n cydymffurfio â'r gyfraith drwy sicrhau na chodir tâl, e.e. am ddeunyddiau ar gyfer gwersi coginio? • A allwn ni drefnu arwerthiant dillad addysg gorfforol ail-law? 	<ul style="list-style-type: none"> • A fydden ni'n gallu helpu i dalu rhai o'r costau am ddeunydd ysgrifennu/dillad addysg gorfforol heb dynnu sylw? • A ydyn ni'n annog dysgwyr i beidio â phrynu esgidiau ymarfer â brand drud? A ydyn ni'n cymryd digon o gamau i sicrhau na cheir bwlio, gan gynnwys bwlio ynghylch esgidiau ymarfer?
Deunyddiau a chyfarpar yn y cartref sydd eu hangen i wneud gwaith cartref; llyfrau adolygu	Er enghraifft: glianiadur i blentyn (dros bedair blynedd) am £100, llyfrau adolygu, cysylltiad â'r rhyngwyd yn y cartref.	<ul style="list-style-type: none"> • A ydyn ni'n dangos y ffordd i rieni/gofalwyr gael adnoddau am ddim, e.e. SumDog, e-Learning Foundation? 	<ul style="list-style-type: none"> • Beth allwn ni ei wneud i gynorthwyo dysgwyr nad yw eu teuluoedd yn gallu fforddio glianiadur/cysylltiad â'r rhyngwyd/lle distaw i'r dysgwr astudio? Clwb gwaith cartref? • A ydyn ni'n darparu llyfrau darllen i blant gael mynd â nhw adref? • Ar gyfer prosiectau crefft, a allwn ni ddarparu'r deunyddiau sydd eu hangen i wneud gwaith cartref?
Deunyddiau sydd eu hangen i gymryd rhan mewn gweithgareddau allgwrwclwr (offer chwaraeon ychwanegol, teithio i ddigwyddiadau, offerynnau cerddorol) a digwyddiadau ysgol (dillad/gwisgoedd)	Er enghraifft: dillad tîm pêl-droed, aros dros nos ar gyfer gala nofio, £20 am wisg ar gyfer diwrnod rhyngwladol, £10 am grys du ar gyfer cyngerdd ysgol.	<ul style="list-style-type: none"> • A ddylen ni ailfeddlwl am y gweithgareddau/tripiau rydyn ni'n eu cynnig fel eu bod yn llai drud ac yn fwy cynhwysol? • A allwn ni ddewis dillad/gwisgoedd rhatach ar gyfer digwyddiadau ysgol? 	<ul style="list-style-type: none"> • A allwn ni droi'r rhain yn gyfraniadau gwirfoddol yn hytrach na chostau gorfodol? • A ydyn ni, neu a allen ni, sybsideiddio costau gweithgareddau allgwrwclwr i rai dysgwyr? (Sylwer bod Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar ddefnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i dalu am weithgareddau celfyddydol¹⁵.)

¹⁵ Defnyddio'r Grant Amddifadedd Disgyblion i gefnogi gweithganwch celfyddydol a diwyllianol: Canllawiau i ymarferwyr sydd ar gael yn www.dysgu.llyw.cymru/?lang=cy.

<p>Cost bosibl</p>	<p>Amcangyfrif o'r swm mwyaf y gallai teulu ei dalu dros un plentyn mewn un flwyddyn ysgol</p>	<p>A ydyn ni, neu a allen ni, leihau'r costau a osodir i'r HOLL deuluoedd? (Enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn.)</p>	<p>A ydyn ni, neu a allen ni, leihau effaith y costau ar deuluoedd ISEL EU HINCWM? (Enghreifftiau o gwestiynau i'w gofyn.)</p>
<p>Cludiant yn ôl ac ymlaen i'r ysgol a gweithgareddau ysgol y tu allan i oriau</p>	<p>Er enghraifft: tocyn bws adref ar ôl y clwb ar ôl ysgol.</p>	<p>• A allwn ni hyrwyddo cerdded a beicio i'r ysgol? • A allwn ni ailystyried amseroedd clybiau ar ôl ysgol i gyd-fynd ag amseroedd cludiant cyhoeddus?</p>	<p>• A oes rhywbeth penodol y gallwn ni ei wneud ar gyfer dysgwyr sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim i sicrhau nad yw costau cludiant yn rhwysstr i gymryd rhan?</p>
<p>Costau dod i ddigwyddiadau cymdeithasol, ac eitemau sydd ar werth mewn digwyddiadau o'r fath (e.e. tocynnau raffi, lluniaeth)</p>	<p>Er enghraifft: £4 am gyngerdd Nadolig, £5 am barbeciw, £10 am ffair lyfrau, £4 am noson goffi.</p>	<p>• Ai prif bwrpas ein digwyddiadau ysgol yw ymgysylltu neu godi arian? A yw'r pwyslais hwn yn gywir? (Gweler yr adnodd Grwpiau rhieni/gofalwyr a lleisiau rhieni/gofalwyr (Thema 3: Adnodd 7) yn y pecyn cymorth hwn.)</p> <p>• A allwn ni ystyried codi arian o ffynonellau eraill, nid rhieni/gofalwyr yn unig?</p>	<p>• A yw prisiau ein tocynnau'n debygol o atal rhai teuluoedd rhag dod, e.e. cyngerdd yr ysgol? • A allen ni ofyn am gyfraniadau gwirfoddol yn lle hynny?</p>
<p>Cyfanswm y costau</p>	<p>Beth yw cyfanswm y gost dros un plentyn? Dros ddau blentyn?</p>	<p>• A yw hyn i'w weld yn fforddiadwy i deuluoedd ar incwm cyfartalog sydd â dau blentyn yn yr ysgol?</p>	<p>• A yw'n bosibl bod y costau'n rhoi gormod o straen ariannol ar deuluoedd tlotach? • A allwn ni gynorthwyo teuluoedd tlotach mewn ffyrdd eraill (e.e. syniadau am weithgareddau rhad yn ystod gwyliau'r haf, coginio ar gyllideb)?</p>

3

Pecyn cymorth ymgysylltu â'r gymuned a theuluoedd Thema 3: Adnodd 9 Delio â gwrthdaro a chwynion



Mae'r adnodd hwn yn cynnwys y canlynol.

- Cyflwyniad.
- Nodyn am y rheoliadau.
- Deg gair o gyngor.
- Dulliau datrys eraill – Cyfryngu.
- Dulliau datrys eraill – Ymarfer adferol.
- Delio â bwlio.
- Delio â honiadau difrifol.
- Rhestr wirio – Delio â chwynion.

Cyflwyniad

Pa mor gryf bynnag yw partneriaethau, a pha mor dda bynnag yw strategaethau a pholisïau, gall pethau fynd o chwith weithiau. Felly mae'n bwysig bod trefniadau clir ar waith fel bod staff a rhieni/gofalwyr yn gallu datrys problemau gyda'i gilydd, gyda chymorth os bydd angen.

“ Mae yna dystiolaeth bod rhieni/gofalwyr yn anfodlon iawn â'r ffordd yr ymdrinnir â chwynion. ”

Gweithdrefnau cwyno ar gyfer cyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru (2012)

Bydd y ffordd yr ydych chi'n dysgu o gwynion, ac yn gwneud gwelliannau o ganlyniad i gwynion, yn dweud llawer am eich ysgol a'r awdurdod lleol. Drwy ddelio'n dda â chwynion, byddwch yn meithrin ymddiriedaeth rhwng y cartref a'r ysgol gan fod hynny'n dangos eich bod yn:

- gwrando ar farn rhieni/gofalwyr ac yn ei chymryd o ddifrif
- dysgu o'ch camgymeriadau a'ch bod yn ceisio gwella drwy'r amser.

Ar y llaw arall, buan iawn y bydd methiant i ddelio'n dda â chwynion yn tanseilio'r ymdrechion i ymgysylltu â theuluoedd ac yn peri i deuluoedd deimlo nad ydynt yn cael eu cymryd o ddifrif.

“ Mae dau beth y dylai'r pennaeth ei wneud ar ôl cael cwyn: gwrando, a dychmygu sut y mae'n ymddangos o safbwynt y rhiant. ”

Pennaeth ysgol.

Nodyn am y rheoliadau

Mae'n ofynnol o dan y gyfraith fod cyrff llywodraethu'r holl ysgolion a gynhelir yng Nghymru, gan gynnwys ysgolion meithrin, yn pennu ac yn cyhoeddi gweithdrefn i ddelio â chwynion am yr ysgol. Gellir gweld canllawiau Llywodraeth Cymru, sy'n cynnwys gweithdrefn gwyno enghreifftiol, yn www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/schoolcomplaints/?lang=cy.

Deg gair o gyngor

1. Er mwyn cynnal perthnasoedd cadarnhaol, bydd yn well fel arfer i bawb sy'n gysylltiedig os bydd cwynion/pryderon rhieni/gofalwyr yn cael eu datrys ar lefel yr ysgol cyn gynted â phosibl.
2. Cadwch hi'n syml – peidiwch â defnyddio ffurflenni hir.
3. Defnyddiwch un pwynt cyswllt.
4. Dewch i gysylltiad wyneb yn wyneb a thros y ffôn – peidiwch ag anfon llythyr yn syth; mae'r rhan fwyaf o rieni/gofalwyr yn hoffi siarad.
5. Gwrandewch am sylwadau cadarnhaol a'u bwydo'n ôl.
6. Ceisiwch gael gwybod yn syth beth fyddai'n helpu i ddatrys y gŵyn.
7. Byddwch yn glir ynghylch pa atebion y gallwch chi eu cynnig.
8. Os yw'n briodol, mae ymddiheuriad buan yn well na llythyr hir.
9. Rhowch atebion personol a phenodol – bydd ateb safonol ond yn gwneud pethau'n waeth.
10. Gadewch i rieni/gofalwyr wybod am welliannau sydd wedi'u gwneud o ganlyniad i'w cwynion.

Dulliau datrys eraill – Cyfryngu

Mae cyfryngu'n broses sy'n cael ei chynnal gan gyfryngwr cymwys a diduedd i ddatrys anghytundeb rhwng rhiant/gofalwr a'r ysgol. Mae disgrifiad ohono yng nghyhoeddiad Llywodraeth Cymru *Dulliau ymarferol o reoli ymddygiad yn yr ystafell ddosbarth (2010)* sydd ar gael ar-lein yn www.wales.gov.uk/docs/dcells/publications/100824practicalcy.pdf.

Mae nifer o ysgolion ac awdurdodau lleol bellach yn defnyddio cyfryngu a dulliau datrys eraill i ddatrys pryderon teuluoedd. Er y bydd adegau pan fydd rhai cwynion yn galw am ddefnyddio dull ymchwilio, yn aml iawn gellir cael canlyniad buan sy'n fwy llwyddiannus ac yn llai niweidiol o safbwynt emosiynol, ac yn dderbyniol i'r ddwy ochr, drwy ddod â phobl at ei gilydd i siarad am eu pryderon gyda chymorth gan drydydd parti .

Mae dogfen Llywodraeth Cymru sydd wedi'i nodi uchod hefyd yn cynnwys gwybodaeth am gyntundebau ymddygiad rhwng y cartref a'r ysgol a chyflwyniad i ymarfer adferol.

“ [Yr hyn roeddwn i'n ei hoffi am gyfryngu oedd...] cael rhywun diduedd nad yw'n ochri â neb. Roedd yn dangos ei bod yn well i mi fod yn agored gyda rhieni a gofalwyr. Os byddaf i'n gwrandao ar eu safbwynt nhw, byddan nhw'n fwy tebygol o wrando ar fy safbwynt i.”

Pennaeth ysgol.

“ [Yr hyn roeddwn i'n ei hoffi am gyfryngu oedd ...] cael fy nghymryd o ddifrif. Roedd yn helpu'r pennaeth i wrando ar fy safbwynt i. Roedd yn helpu fy mhlentyn i fod yn hapusach.”

Rhiant/gofalwr.

Cyfryngu gyda rhieni/gofalwyr

Roedd rhiant wedi cael ei bwlio'n wael yn yr ysgol gynradd ac uwchradd, ac roedd hyn wedi gadael creithiau ar ôl iddi dyfu'n oedolyn. Roedd hyn wedi effeithio ar ei pherthynas ag ysgol ei phlant ei hun ac wedi arwain at ei gwahardd o'r safle am ymddwyn yn ddifriol.

Roedd y gwaharddiad hwn wedi effeithio ar ei mab a bu dirywiad yn ei ymddygiad gan nad oedd yr ysgol, yn ei olwg ef, yn delio â'r mater yn dda. Cafwyd effaith ddwfn ar staff yr ysgol hefyd. Teimlai'r Tîm Arwain eu bod wedi methu drwy eu hanallu i ddatrys problemau, ond gwelsant hefyd fod cysylltu â'r rhiant ynghylch ei phlentyn, a oedd mewn perygl o gael ei wahardd, yn dod yn dasg amhosibl ac yn un a oedd yn codi ofn ar staff yr ysgol, ac yn cael ei hosgoi hyd yn oed ar brydiau.

Ni chafodd y broblem ei datrys nes i raddau'r bwlio yn erbyn y rhiant hwn ddod i'r amlwg. Drwy gyfryngu'n ofalus gyda'r rhiant, cymerwyd camau petrus i feithrin perthynas, ac roedd hyn o fudd mawr i'r plentyn.

Dulliau datrys eraill – Ymarfer adferol

Os bydd cwynion gan deuluoedd yn codi o ganlyniad i anghydfod rhwng dau ddysgwyr, yna mae ymarfer adferol yn gallu helpu i ddatrys y sefyllfa. Mae canllawiau ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn www.learning.gov.wales/resources/browse-all/restorative-practice/?lang=cy ac ar wefan y Bwrdd Cyfiawnder Ieuencid yn www.gov.uk/government/organisations/youth-justice-board-for-england-and-wales.

“ Unlike punitive approaches, in which a third party acts as judge, jury and executioner, restorative practice predicates upon ownership of behaviour and conflict resting with those directly involved, who also retain responsibility for resolution of the problem.”

Ymddiriedolaeth Addysg CfBT, *Restorative Practice in Schools* (2009)

Delio â bwlio

Mae pryderon a chwynion sy'n cael eu codi gan deuluoedd yn ymwneud yn bennaf â bwlio. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyhoeddi canllawiau ar gyfer ysgolion a rhieni/gofalwyr ynghylch ffyrdd o fynd i'r afael â'r mater hwn sydd ar gael ar-lein yn www.gov.wales/topics/educationandskills/publications/circulars/antibullying/?lang=cy a www.wales.gov.uk/topics/educationandskills/schoolhome/parents/is-your-child-being-bullied/?lang=cy

Delio â honiadau difrifol

Mae canllawiau Llywodraeth Cymru *Diogelu plant mewn addysg: ymdrin â honiadau o gam-drin yn erbyn athrawon a staff eraill* (2014) ar gael yn dysgu.llyw.cymru.

Rhestr wirio – Delio â chwynion

Cwestiynau i ysgogi myfyrio	Camau i'w cymryd
<input type="checkbox"/> A yw staff yn cael eu cymell i fabwysiadu agwedd gadarnhaol at gwynion/pryderon rhieni/gofalwyr?	
<input type="checkbox"/> A yw rhieni/gofalwyr a staff yn ymwybodol o'ch gweithdrefn gwyno? (Mae'n ofyniad statudol iddi gael ei hysbysebu.) A yw rhieni/gofalwyr yn cael eu hannog i wneud cwynion neu fynegi pryderon yn gynnar?	
<input type="checkbox"/> A yw'ch gweithdrefn yn dilyn y weithdrefn enghreifftiol sydd wedi'i disgrifio yng nghanllawiau Llywodraeth Cymru? A ellir ei gwella?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi trefnu i'ch gweithdrefn gwyno fod ar gael mewn gwahanol fformatau? A yw'r rhain ar gael yn rhwydd, wedi'u hysbysebu ac yn hawdd eu deall a'u dilyn? A yw rhieni/gofalwyr yn gallu codi pryder gydag aelod o'r staff yn y ffordd sydd hawsaf iddyn nhw, un ai drwy siarad, dros yr e-bost, drwy ffonio, neu drwy ysgrifennu?	
<input type="checkbox"/> A yw'ch gweithdrefn yn cyfeirio at 'unioni pethau' a chynnig ymddiheuriad os yw'n briodol?	
<input type="checkbox"/> A yw'ch gweithdrefn yn rhoi sicrwydd i rieni/gofalwyr: <ul style="list-style-type: none"> • y bydd eu hawliau o ran cyfrinachedd yn cael eu parchu a'r camau nesaf yn cael eu trafod? • na fyddan nhw, na'u plant, yn dioddef drwy sgil-ffeithiau neu wahaniaethu o ganlyniad i wneud y gŵyn? 	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi ystyried defnyddio dull cyfryngu i ddatrys rhai cwynion rhwng teuluoedd a'r ysgol? A oes cyfryngwr hyfforddedig ar gael i chi?	
<input type="checkbox"/> A ydych chi wedi ystyried defnyddio ymarfer adferol i ddatrys rhai cwynion rhwng dysgwyr? A oes hyfforddiant priodol wedi'i ddarparu?	
<input type="checkbox"/> A yw staff yr ysgol yn gallu cael cyfleoedd datblygu priodol i ddysgu ymdrin â phryderon neu gwynion (e.e. gwaith hwyluso gyda theuluoedd neu sgiliau cyfryngu)?	
<input type="checkbox"/> A oes trefniadau ar waith i roi adborth i rieni/gofalwyr sy'n gwneud cwynion?	
<input type="checkbox"/> A yw'ch polisi gwrth-fwlio yn gyson â'r rheoliadau a'r arferion gorau?	